

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

---

# Aesu Anghenion Poblogaeth Adroddiad Rhanbarth Gwent

---

2017 - 2020



Greater Gwent Health, Social Care &  
Well-being Partnership  
Partneriaeth Lles, Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol Gwent Fwyaf

## Gweithio mewn Partneriaeth



Bwrdd Iechyd  
Aneurin Bevan  
Health Board



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**Blaenau Gwent**  
County Borough Council



**CAERPHELLY**  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
**CAERFFILI**



CYNGOR  
**monmouthshire**  
COUNTY COUNCIL  
*sir fynywy*



**TORFAEN**  
COUNTY  
BOROUGH

**BWRDEISTREF**  
SIROL  
**TORFAEN**



**Newport**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**Casnewydd**

<b>1</b>	Rhagair	5
<b>2</b>	Cyflwyniad	6
<b>3</b>	Canlyniadau Blaenoriaeth	12
<b>4</b>	Demograffeg	12
<b>5</b>	<b>Adran 1</b>	
	■ Sut y gwnaethom ymgysylltu <b>Themâu Craidd</b>	18
	■ Plant a phobl ifanc	28
	■ Pobl hŷn	34
	■ Iechyd gydag anabledd corfforol	39
	■ Pobl gydag anableddau dysgu ac anhwylderau ar y sbectrwm Awtistig	46
	■ Iechyd Meddwl	52
	■ Nam ar y synhwyr	59
	■ Gofalwyr sydd angen cefnogaeth	65
	■ Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	69
<b>6</b>	<b>Adran 2</b>	
	■ Mapio gwasanaethau	74
	■ Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol	76
	■ Cyd-gomisiynu a chyllidebau cyfunol	77
	■ Gwasanaethau ataliaeth	79
	■ Gwybodaeth, cyngor a chymorth	82
	■ Gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r Trydydd Sector	83
	■ Datblygu gweithlu	84
	■ Cysylltiadau i grwpiau cenedlaethol	85
	■ Eiriolaeth	85
	■ Pontio	87
	■ Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol	87
	■ Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	88
	■ Cysylltiadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	88
	■ Sefydliadau diogel	89
	■ Diogelu a chysylltiadau i grwpiau rhanbarthol	89
<b>7</b>	Camau gweithredu/camau nesaf	91
	■ Appendix	97

# Sut i edrych ar yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma

## 'Yr hyn yw a'r hyn nad yw!'

- 1** Nid yw'r Asesiad Anghenion Poblogaeth ('Asesiad') yma yn rhestr gynhwysfawr o ddata graffigol ond mae'n cynnwys atodiadau sy'n cynnwys mwy o ddata.
- 2** Bydd yr Asesiad yma yn cynnwys cysylltiadau i wybodaeth arall sy'n cefnogi megis yr Asesiadau Llesiant Lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - nid ydym eisiau dyblygu adrannau mawr o wybodaeth yn yr Asesiad hwn a gaiff eu cynnwys mewn dogfennau eraill.
- 3** Mae'r Asesiad yn defnyddio pecyn cymorth cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 4** Ni fydd yr Asesiad yma'n cynnwys neu'n cyfeirio at bob ffynhonnell data sydd ar gael gan y byddai'n rhy fawr, ond byddwn yn defnyddio catalog data'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a ddatblygwyd gan Uned Data Cymru fel man cychwyn.
- 5** Mae'r Asesiad hwn yn seiliedig ar farn dinasyddion a darparwyr, ac mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor dylunio greiddiol. Fe wnaeth dinasyddion a darparwyr helpu i ddynodi'r canlyniadau blaenoriaeth dan bob thema greiddiol.
- 6** Bydd yr Asesiad yma'n defnyddio'r ymchwil ddiweddaraf. Nid yw'n defnyddio dull 'dalen wag' gan fod nifer o asesiadau anghenion blaenorol a chyfredol a datganiadau safleoliad marchnad sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol. Hefyd, mae adroddiadau cenedlaethol megis GIG Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhoi data gwerthfawr iawn y bydd yr Asesiad hwn yn ei gynnwys, ond nid ei atgynhyrchu.
- 7** Bydd y penodau thema creiddiol yn darllen fel crynodebau gweithredol ac yn amlygu blaenoriaethau rhanbarthol yn gysylltiedig gyda meysydd diddordeb a ddaw i'r amlwg; a hefyd bartneriaethau a gwasanaethau lefel uchel a all gefnogi'r agenda.
- 8** Bydd y penodau thema creiddiol hefyd yn cynnwys rhestr o gamau gweithredu yr awgrymir eu cynnwys yn y Cynllun Ardal rhanbarthol sylfaenol sydd ei angen ar ôl cyhoeddi'r Asesiad yma - eto nid yw'r rhestr yma'n cynnwys popeth ond yn fan cychwyn a chaiff ei ddatblygu ymhellach wrth gynhyrchu'r Cynllun Ardal rhanbarthol.
- 9** Yr Asesiad hwn yw'r cyntaf o'i fath a bydd yn gosod cyfeiriad teithio ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - mae'n 'fffenestr siop' yn nhermau blaenoriaethau a chymau nesaf - a chaiff dadansoddiad mwy manwl, mapio gwasanaethau a chymau gweithredu eu nodi yn y Cynllun Ardal rhanbarthol sydd ei angen erbyn Ebrill 2018.

# Rhagair

---

Mae Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent yn falch i gyhoeddi Asesiad Anghenion Poblogaeth cyntaf y rhanbarth dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fydd yn ganolog i hyrwyddo llesiant, cefnogi pobl ar y cyfle cyntaf i gynnal eu hannibyniaeth a helpu pobl i helpu eu hunain yn well.

Rydym yn byw mewn cyfnod o gyni gyllidol parhaus a bydd angen i'r blaenoriaethau a ddynodwn ac y gweithiwn mewn partneriaeth i'w darparu hefyd sicrhau fod gwasanaethau yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal â lefel angen ar draws y rhanbarth, mae'r asesiad hwn o anghenion hefyd yn rhoi ymateb y rhanbarth i'r angen a ddynodwyd yn ogystal â chynnig y camau nesaf sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn awr yn rhoi'r geiriau hynny ar waith drwy waith partneriaeth da a rhannu nodau ac uchelgeisiau.

Yn olaf, i sicrhau y caiff yr asesiad hwn o anghenion yr effaith a ddymunir, mae angen i ni ymgysylltu gyda'n dinasyddion ac rydym yn falch fod cynifer o bobl a phartneriaid wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau cyn-ymgysylltu ac ymgynghori i'n helpu i ddynodi beth sydd bwysig. Credwn mai diwylliant ac nid proses yw ymgysylltiad, a byddwn yn parhau i ymgysylltu bob cam o'r ffordd drwy ein gwahanol baneli a grwpiau asiantaeth partner rhanbarthol.

**Phil Robson** Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent  
Is-gadeirydd Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Cadeirydd Panel y Dinasyddion

---

Roedd Panel Dinasyddion Gwent yn falch iawn i dderbyn cyflwyniad ar yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth ym mis Gorffennaf 2016. Croesawyd y cadarnhad hwn fod anghenion a blaenoriaethau gwasanaeth yn cael eu cymryd o ddifrif calon. Rhoddodd hefyd lefel o ddealltwriaeth o'r asesiadau a ganiataodd i aelodau'r panel fynd yn ôl at y grwpiau yn eu hardaloedd a darlledu'r asesiadau ar gyfer eu cwblhau.

Treuliodd fy ngrŵp cysylltiedig fy hun, Fforwm Pobl Dros 50 Caerffili, beth amser yn trafod yr Asesiad hwn yn ein Grŵp Llywio a bu modd i ni gyflwyno asesiad cynhwysfawr yn cwmpasu pob agwedd lle teimlem fod diddordebau a blaenoriaethau'r person hyn yn bwysig. Fe wnaethom sylweddoli maint y dasg wrth ymestyn allan i gasglu'r data ond roeddem yn falch iawn i gymryd rhan yn y broses. Dyfyniad o'n cyfarfod: "Mae hwn yn waith caled - gobeithio eu bod yn gwrando."

**Chris Hodson**  
Cadeirydd Panel y Dinasyddion

## Beth yw'r Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth?

Mae Rhan 2, adran 14, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar y cyd yn cynnal asesiad o'r anghenion am ofal a chefnogaeth, ac anghenion cefnogaeth gofalwyr yn ardaloedd awdurdodau lleol. Mae gofal a chefnogaeth yn ymwneud â phobl sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond mae hefyd angen i ni gydnabod y caiff nifer fawr o bobl eu cefnogi drwy wasanaethau ataliol ac amcangyfrifodd ymchwil ddechreuol y gallai hyn fod tua 1 mewn 5 o bobl. Dylai adroddiad asesu anghenion poblogaeth gynnwys dwy adran:

### Adran 1: Asesu angen

#### **Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar y cyd asesu:**

- i ba raddau y mae pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth yn ardal yr asesiad;
- i ba raddau y mae yna ofalwyr yn ardal yr asesiad sydd angen cefnogaeth;
- i ba raddau y mae yna bobl nad yw eu hanghenion am ofal a chefnogaeth (neu yn achos gofalwyr, eu hanghenion am gymorth) yn cael eu diwallu.

#### **Mae'n rhaid i adroddiad yr Asesiad gynnwys themâu craidd penodol yn trafod:**

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- iechyd ac anabledau corfforol
- anabledd dysgu ac awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyrâu
- gofalwyr sydd angen cefnogaeth; a
- thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Adran 2: Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen

#### **Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar y cyd asesu:**

- ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth ac anghenion gofalwyr am gefnogaeth
- ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i atal anghenion rhag codi neu gynyddu; a
- y camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'n rhaid i'r 5 awdurdod lleol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - ffurfio trefniant partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd a chynhyrchu un adroddiad cyfunol asesu anghenion poblogaeth.

## **Yn ychwanegol mae'n rhaid i'r asesiad yma:**

- Gael ei gynhyrchu unwaith ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol ac ar draws holl ardal gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cynnwys yr asesiad poblogaeth ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol ond hefyd gyfuno'r asesiadau hyn er mwyn cynhyrchu un asesiad rhanbarthol o anghenion y bobl yn holl ardal y Bwrdd Iechyd Lleol
- Cynnwys asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny
- Dangos yn glir i ba raddau y mae'r themâu craidd wedi eu crynhoi neu eu lledaenu ar draws y bartneriaeth
- Cadw adroddiadau asesu poblogaeth dan adolygiad a'u diwygio os oes angen.

Caiff yr asesiad poblogaeth cyntaf ei gyhoeddi erbyn Ebrill 2017 a chaiff y gwaith hwn ei gydlynu gan y **Grŵp Arweinyddiaeth (drwy'r tîm trawsnewid rhanbarthol)**, sef y grŵp swyddogion gweithredol sy'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn **Gweithredu fel cydbwyllgor i oruchwylio'r broses.**

## **Diffiniad o Lesiant**

Cydnabyddir y bydd angen i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth gysylltu gyda'r Asesiad Llesiant sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod y diffiniad o lesiant ychydig yn wahanol yn y Ddeddfau, gellir sicrhau synergeddau ac osgoi dyblygu drwy gysylltu'r asesiadau.

### **Mae Adran 2 Rhan 1 y Ddeddf yn rhoi diffiniad clir o lesiant sy'n cyfeirio at:**

- a) Pobl sydd angen gofal a chefnogaeth; a
- b) Gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

### **Mae cyfeiriad at lesiant yn y Ddeddf yn golygu llesiant person sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth yng nghyswllt unrhyw un o'r agweddau dilynol:**

- a) Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- b) Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- c) Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- d) Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- e) Cyfraniad i gymdeithas
- f) Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- g) Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- h) Addasrwydd anheddau.

## O ran oedolyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys:

- a) Rheolaeth dros fywyd pob dydd
- b) Cymryd rhan mewn gwaith.

## Yng nghyswllt plentyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys:

- a) Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- b) “Lles” fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol “welfare” at ddibenion Deddf Plant 1989

### **An overarching Well-being 'duty' on LA's to seek to promote the Well-being of people who need care and support**



## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Fel y nodir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i drin a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio partneriaeth; ac i sicrhau fod gwasanaethau effeithlon, a gofal a chymorth yn eu lle i ddiwallu anghenion y boblogaeth berthnasol yn y ffordd orau.

### **Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithlon i:**

- Ymateb i'r asesiad poblogaeth a gynhelir yn unol ag adran 14 y Ddeddf.
- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau Ardal ar gyfer pob ardal a gynhwysir fel sydd angen dan adran 14A y Ddeddf.
- Sicrhau fod cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau dan adran 167 y Ddeddf.
- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfunol lle'n briodol.



## **Bydd hefyd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau yng nghyswllt:**

- Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia.
- Pobl gydag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

## **Cynllun Ardal**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ystyried strwythur llywodraethiant a threfniadau partneriaeth gyda grwpiau presennol sydd mewn safle da i arwain ar themâu craidd penodol ar draws yr Asesiad Anghenion Poblogaeth e.e. Trais yn erbyn Menywod De Ddwyrain Cymru, Bwrdd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Bwrdd Dementia, Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr, Bwrdd Partneriaeth Lleol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn ymchwilio trefniadau partneriaeth gyda grwpiau rhanbarthol ehangach megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus awdurdodau lleol - yn arbennig yng nghyswllt cysylltiadau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent ar Gamddefnyddio Sylweddau, Partneriaeth Diwygio Llesiant Gwent, Rhaglen Mewn Un Lle a Chymdeithasau Tai, yn ogystal â byrddau rhanbarthol diogelu Oedolion a Phlant.

## **Llywodraethiant**

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi ystod a lefel y gwasanaethau y cynigiant eu darparu, neu drefnu i gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad anghenion poblogaeth. Mae'n rhaid i gynlluniau ardal gynnwys y gwasanaethau penodol a gynllunnir mewn ymateb i bob thema graidd a ddynodir yn yr asesiad poblogaeth.

### **Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i gynlluniau ardal gynnwys:**

- y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd yng nghyswllt yr ardaloedd blaenoriaeth o integreiddio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- yr achosion a manylion cronfeydd cyfunol i'w sefydlu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth;
- sut y caiff gwasanaethau eu caffael neu drefnu i'w cyflwyno, yn cynnwys drwy fodelau cyflenwi amgen;
- manylion y gwasanaethau ataliol a gaiff eu darparu neu eu trefnu;
- y camau a gymerir yng nghyswllt darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth; a
- y camau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynlluniau ardal cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018 a bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau cysylltiadau rhwng y Cynllun Ardal a Chynlluniau Llesiant yr awdurdodau lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i hwyluso cydweithio rhwng y ddwy ddyletswydd ddeddfwriaethol ac osgoi dyblygu. Caiff cysylltiadau gyda Chynlluniau Gwella Corfforaethol awdurdodau lleol a Chynlluniau Tymor Canol Canolradd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd eu sefydlu, yn ogystal ag alinio i gynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ym mhob un o ardaloedd clwstwr meddygon teulu y mae 12 ohonynt yn rhanbarth Gwent. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gweithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai yn yr ardal - gan gydnabod eu rôl allweddol wrth sicrhau llesiant tenantiaid - a sicrhau aliniad i'w cynlluniau cyflawni.

## Cysylltiadau i strategaethau

Mae dolen i strategaethau allweddol ym mhob pennod thema greiddiol. Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth ond mae'n cynrychioli'r gyrwyr strategol allweddol a chaiff trawsgyfeirio cynhwysfawr ei gwblhau wrth ddatblygu'r Cynlluniau Ardal. Fodd bynnag cyfeiriwyd at gysylltiadau gyda deddfwriaeth ehangach megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Tai (Cymru) 2014 a strategaethau tai lleol Cymdeithasau Tai, Trais yn erbyn Menywod, Deddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015, Cydweithio i Ostwng Niwed (Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 - 2018), Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, Heneiddio'n Dda yng Nghymru y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013/23) wrth ddatblygu'r drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth.

## Cysylltiadau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y Ddeddf) yn rhannu egwyddorion tebyg i nifer o strategaethau cenedlaethol a deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn rhannu egwyddorion bron yn union yr un fath â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'r amserlen y prif wahaniaeth rhwng y deddfau: mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cwmpasu cyfnod 3-5 mlynedd yn seiliedig ar gylich etholiadol ac mae'r Asesiad Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwmpasu cyfnod a awgrymir o 20-30 mlynedd.

Egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Egwyddorion Cynaliadwy: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo <b>atal</b> angen cynyddol a bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.	<b>Atal:</b> Sut mae gweithredu yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu
<b>Partneriaeth</b> a chydweithredu yn gyrru darpariaeth gwasanaeth	<b>Cydweithredu:</b> Sut y gallai cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o sefydliad helpu i gyflawni amcanion llesiant.
<b>Pobl</b> sydd wrth galon y system newydd drwy roi llais cyfartal iddynt yn y gefnogaeth a dderbyniant	<b>Integreiddiad:</b> Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar amcanion llesiant, nodau llesiant, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Mae'r Ddeddf yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i <b>gyflawni llesiant</b>	<b>Ymgyfraniad:</b> Pwysigrwydd cynnwys pobl gyda diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau fod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol.
	<b>Hirdymor:</b> Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i hefyd ddiwallu anghenion hirdymor

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen yng Nghasnewydd dan arweiniad y Cyfarwyddwr Pobl i ymchwilio synergeddau rhwng y ddwy ddeddf. Mae'r grŵp wedi dynodi ac ymchwilio cyfleoedd i alinio asesiadau poblogaeth, osgoi dyblygu a hefyd ddynodi meysydd o gydweithio/cydweithredu. Cafodd y gwersi o'r grŵp gorchwyl a gorffen eu defnyddio i gynllunio'r fethodoleg ar draws y rhanbarth, a hefyd eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiad hefyd wedi gosod sylfeini ar gyfer alinio'r Cynllun Ardal rhanbarthol a'r Cynlluniau Llesiant lleol sydd eu hangen dan ddeddfau dilynol.

# 'Triongliad' Matrics Blaenoriaethu y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae'n bwysig y caiff blaenoriaethau eu dynodi drwy resymu cadarn a thystiolaeth glir sydd hefyd yn cyflenwi cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar lefel leol. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig fod blaenoriaethau'n adlewyrchu anghenion lleol cymunedau ac y cânt eu dynodi drwy ymgysylltu effeithlon a chyd-gynhyrchu gyda phobl leol. Datblygwyd 'Matrics Blaenoriaethu' er mwyn sicrhau y caiff pob ffactor eu hystyried yn seiliedig ar y 3 ffactor a galwn hyn yn 'driongli'r blaenoriaethau'.



## A Ymgysylltiad - beth a ddywedodd pobl wrthym?

Anghenion a ddynodwyd gan grwpiau agored i niwed, darparwyr a'r gymuned ehangach.

## B Tueddiadau data - beth ddywedodd y data wrthym?

A yw cromlin data'n symud mewn cyfeiriad niweidiol ac a fydd yn gwaethygu neu gyrraedd lefel critigol heb ymyriad?

## C Polisi a strategaethau cenedlaethol - beth a ddisgwylir i ni ei gyflawni?

A yw'r blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg yn cynrychioli gyrwyr cenedlaethol ac a gaiff cyllid ei ddarparu drwy ffrydiau cyllid cenedlaethol?

Yn dilyn dynodi canlyniadau caiff 'prawf gweithio partneriaeth ac adnoddau' ei gynnal i ganfod os yw'r canlyniadau angen mewnbwn aml-asiantaeth neu a fyddai'r canlyniad yn cael ei gyflawni heb ymyriad neu adnoddau? Caiff y canlyniad ei gynnwys fel canlyniad blaenoriaeth os na fedrir cyflawni'r canlyniad o fewn adnoddau presennol/gweithio partneriaeth.

# Blaenoriaethau Canlyniad

Y canlyniadau a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, ymarferwyr, partneriaid ac a gafodd eu cadarnhau drwy ymgynghoriad a defnyddio'r matrices blaenoriaethu.

Thema Graidd	Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol
Plant a Phobl Ifanc	<ul style="list-style-type: none"><li>Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth trwy ymyrraeth gynnar, darparu cymorth yn y gymuned a lleoliadau yn agosach i'r cartref.</li><li>Sicrhau bod iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn dda drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.</li></ul>
Pobl Hŷn	<ul style="list-style-type: none"><li>Gwella lles emosiynol pobl hŷn drwy leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol gydag ymyrraeth gynharach a chadernid cymunedol.</li><li>Gwella canlyniadau i bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr,</li><li>Tai a llety addas ar gyfer pobl hŷn.</li></ul>
Iechyd a phobl ag anabledd corfforol	<ul style="list-style-type: none"><li>Darparu cefnogaeth i bobl anabl drwy feithrin ymagwedd i annog pob oedran i fyw'n annibynnol mewn llety priodol a chael mynediad i wasanaethau cymunedol, yn cynnwys cludiant.</li><li>Helpu pobl i leihau'r perygl o iechyd a lles gwael drwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gymunedol.</li></ul>
Pobl ag Anableddau Dysgu a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig	<ul style="list-style-type: none"><li>Darparu cefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol gyda mynediad i wasanaethau ymyrraeth gynnar yn y gymuned dysgu; a mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a dealltwriaeth am bobl ag anableddau dysgu.</li><li>Darparu diagnosis mwy amserol am Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a mynediad i wasanaethau cymorth a gwybodaeth a chyngor.</li></ul>
Iechyd Meddwl	<ul style="list-style-type: none"><li>Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd i leihau stigma a helpu pobl i chwilio am gymorth yn gynt.</li><li>Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl i oedolion a phlant trwy ymyrraeth gynnar a chymorth cymunedol.</li></ul>
Nam ar y Synhwyr	<ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau bod pobl cael cefnogaeth trwy fynediad i wybodaeth a chymorth cywir ac 'adsefydlu' lle bo angen.</li><li>Gwella lles emosiynol yn enwedig drwy gymorth cyfoedion i gyfoedion.</li></ul>

## Thema Graid

## Camau i'w datblygu drwy'r Cynllun Rhanbarthol

### Gofalwyr sydd angen cymorth

- Darparu cefnogaeth i ofalwyr ofalu drwy gyfnodau seibiant hyblyg, mynediad i wybodaeth gywir, cymorth cyfoedion i gyfoedion a chynlluniau gofal effeithiol.
- Gwella lles gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc drwy gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd.


### Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Darparu trefniadau ymyrraeth gynnar a diogelu i ddarparu ddioddefwyr drwy 'Holi a Gweithredu.'
- Diogelu dioddefwyr, yn cynnwys dynion, drwy gymorth partneriaethau effeithiol.

## Blaenoriaethau trawsbynciol

***Dynodwyd nifer o flaenoriaethau sy'n torri ar draws y themâu craidd uchod ac a fydd angen dull gweithredu aml-asiantaeth:***

- Unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Cefnogaeth i ofalwyr
- Eiriolaeth tebyg at ei debyg
- Cefnogaeth ac ymyriad cymunedol cynharach



# Demograffeg - Sut olwg sydd ar “Gwent”?

Mae ‘Gwent’ Fwyaf yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at y pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae Gwent yn manteisio o gael yr un ardal ddaearyddol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ddemograffeg yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd de Cymru.

Mae **Blaenau Gwent** wedi ei lleoli yng nghymoedd de ddwyrain Cymru ac mae ganddi arwynebedd o tua 10,900 hectar gyda phoblogaeth o **69,674**. Mae gan yr ardal ofodau gwyrdd hygyrch a gweithio cymunedol agos ond mae'n ardal gyda lefelau uchel o ddiweithdra a chanran uchel o bobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau.


**Caerffili** sydd â'r boblogaeth fwyaf yng Gwent o **179,941**. Mae pobl wedi gwasgaru'n eang mewn hanner cant o drefi bach a phentrefi gyda'r prif aneddiadau yn bennaf yn adlewyrchu treftadaeth glofaol cyfoethog yr ardal. Mae gan Gaerffili economi sy'n ehangu a chysylltiadau trafniadaeth da i Gaerdydd ond mae lefelau sylweddol o ddiweithdra ac afiechyd.

Caiff **Sir Fynwy** ei chyfrif fel ‘ardal hygyrch lled-wledig’. Mae pedair prif dref gyda chyfanswm poblogaeth o **92,336**. Sir Fynwy sydd â'r lefel isaf o ddiweithdra yng Ngwent: fodd bynnag mae pocedi o amddifadedd.

**Dinas Casnewydd** yw'r ganolfan drefol drydedd fwyaf yng Nghymru o **146,841**. Y ddinas sydd â'r ail nifer fwyaf o bobl o gymunedau lleiafrif ethnig o holl siroedd Cymru (yn dilyn Caerdydd) ac mae wedi parhau i gynyddu ers 2011 pan amcangyfrifwyd fod y ffigur rhwng 6 a **6.6%** o'r boblogaeth.


**Torfaen** yw'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd trefol de Cymru gyda phoblogaeth o **91,609**. Mae tair canolfan drefol: Pont-y-pŵl, Blaenafon a Chwmbrân. Cofnodwyd y nifer fwyaf o garafanau teithwyr yn Nhorfaen yn ystod Cyfrifiad Dwyflynyddol Sipsiwn a Theithwyr 2016 gyda chyfanswm o 61, oedd yn **41%** o gyfanswm Gwent.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Aseiad Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chaiff dolen i'r aseidiadau ei chynnwys yn yr atodiad gan nad yw'r Aseiad Angen Poblogaeth hwn yn anelu i atgynhyrchu'r ddemograffeg leol fanylach sydd ei hangen ym mhob un o'r Aseidiadau Llesiant unigol.




## Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp oedran, newid canran ers 2011, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 2011-2036

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2011 (Llywodraeth Cymru)




### Pwyntiau Allweddol

- Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu gan 4.1% o tua 577,100 yn 2011 i 601,000 yn 2036. Gwelir y cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd gydag amcangyfrif cynnydd o 17.3% (145,800 i 170,900), Caerffili 2%, Torfaen 1.1%. Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn gostwng gan -6.6% a phoblogaeth Sir Fynwy yn gostwng gan -1.3%. Yr amcangyfrif gostyngiad ym Mlaenau Gwent yw'r mwyaf ymysg y boblogaeth yng Nghymru.
- Rhagwelir cynnydd sylweddol yn y boblogaeth oedran dros 65 oed pan amcangyfrifir y bydd 1 mewn 4 o bobl (26%) yn 65 neu hŷn - sy'n fras debyg i Gymru.
- Erbyn 2036, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd yn cynyddu gan 147% (o tua 13,000 yn 2011 i 32,000 yn 2036).



## Data allweddol poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Yn 2014, roedd tua 1 mewn 5 o breswylwyr dros 65 oed (19%), 6 ym mhob 10 (62%) o oedran gwaith (16 i 64 oed) a bron 1 mewn 5 (19%) dan 16 oed.
- Mae'r boblogaeth dan 16 oed wedi gostwng gan 2,700 (1%) rhwng 2005 a 2014, o 114,1000 i 108,300.
- Bu gostyngiad sylweddol yng nghyfradd marwoldeb pobl dan 75 o 17.1% ar gyfer dynion a 17.4% ar gyfer menywod (gwelliant uwch nag yng Nghymru). Mae hyn yn dangos yr effeithiau cadarnhaol a'r gwelliannau sylweddol a gafodd ystod o wasanaethau, gweithgareddau a rhaglenni wedi'u targedu i ostwng cyfraddau marwoldeb.
- Mae'r gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yn fras debyg i'r un yng Nghymru - ond mae gwahaniaethau yn y cyfraddau ffrwythlondeb cyffredinol ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fydd yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau mamolaeth a phlant - yn arbennig ar gyfer Casnewydd a Sir Fynwy.



## Y Gymraeg

Nod fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' yw gwella darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen ar gyfer siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd a gofalwyr. Yn unol ag egwyddorion y fframwaith, bydd y systemau cynllunio rhanbarthol yn cynnwys cyfeiriad at broffil ieithyddol cymunedau lleol a sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu mewn darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol wedi cwblhau proffil cymunedol Cymraeg manwl i'w gynnwys yn yr Aseiad Llesiant Lleol ym mhob ardal, ac nid yw'r Aseiad Anghenion Poblogaeth hwn yn dyblygu'r wybodaeth. Bydd yr Aseiad yma'n defnyddio'r proffil i ddynodi'n effeithlon y camau sydd eu hangen i gyflawni'r ystod a lefel y gwasanaethau y dynodwyd fod eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg.



Bydd datblygu'r Cynllun Ardal Rhanbarthol yn gosod y camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl sydd angen gwasanaethau gofal a chefnogaeth gael mynediad i gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym eisoes wedi cymryd camau drwy sicrhau bod aseidiadau - cymesur a/neu gynllunio gofal a chefnogaeth - yn cynnwys y 'cynnig gweithgar' i sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff ei ofyn ar y pwynt cyswllt cyntaf o fewn awdurdodau lleol (mae hyn yn ymestyn i ddrysau blaen gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a bydd hefyd yn cynnwys camau aseiad integredig). Byddwn hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr datblygu gweithlu i sicrhau fod cefnogaeth ddigonol ar gael yn Gymraeg ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



# Adran 1



# Ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd pobl wrthym

## Diwylliant nid proses!

Mae ymgysylltu yn ganolog i ddatblygiad yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma ac yn hanfodol i sicrhau bod yr anghenion a ddynodwyd yn adlewyrchu cymunedau lleol. Mae angen i ni ddynodi'r materion sy'n bwysig i ddinasyddion yn ogystal â sicrhau y caiff pobl eu paratoi i hyrwyddo eu llesiant eu hunain.

***Rhodddwyd cryn bwyslais ar ymgysylltu a sylwadau dinasyddion gan ein bod eisiau i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth fod yn eiddo dinasyddion a sicrhau'r newid sydd ei angen i hyrwyddo llesiant.***

Dan y Ddeddf sefydlwyd Panel Dinasyddion rhanbarthol a Fforwm Darparwyr rhanbarthol 'seiliedig ar werthoedd' ac ymgysylltwyd â hwy i sicrhau bod sylwadau dinasyddion a darparwyr yn ganolog i'r Asesiad yma.

### ***Sut mae ymgysylltu yn ganolog i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth - Ein Gweithdrefn***

Mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu a rhoi cyhoeddusrwydd i weithdrefn ar gyfer cael sylwadau pobl ar yr Asesiad. Caiff ein gweithdrefn ei nodi islaw.

## 1 Dynodi'r dinasyddion: 'Pwy ydym wedi ymgysylltu â nhw'

### i. Pobl sy'n derbyn Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth

Sylweddolwn fod yn rhaid i ymgysylltiad ddigwydd gyda **phobl, yn cynnwys plant**, sydd â phrofiad o **ddefnyddio gwasanaethau gofal a chefnogaeth**, rhieni plant sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, a gofalwyr. Mae gofyniad dan y Ddeddf i awdurdodau lleol unigol gynnal holiadur ansoddol gyda phobl a gefnogir gan y gwasanaethau cymdeithasol a chafodd 10,000 holiadur eu postio at ddinasyddion ar draws y rhanbarth rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016. Mae'n rhy gynnar cynnwys dadansoddiad cyflawn o adborth yr holiadur o bob rhan o Went yn yr Asesiad yma ond defnyddir gwybodaeth i gynhyrchu'r Cynllun Ardal rhanbarthol sylfaenol.

#### **Fodd bynnag, mae trosolwg rhagarweiniol fel sy'n dilyn:**

- Dosbarthwyd bron 10,000 holiadur ledled Gwent.
- Roedd y gyfradd ymateb dros 30% o oedolion ym mhob ardal awdurdod lleol.
- Roedd y gyfradd ymateb gan blant yn llawer is a dan 20% ar draws y rhanbarth.
- Teimlai canran fawr o oedolion eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac roedd 83% yn hapus gyda'r gefnogaeth a gawsant ond canran lai a deimlai'n rhan o'u cymuned.
- Teimlai nifer fawr o ofalwyr yn rhan o'r penderfyniadau'n ymwneud ag anwyliaid y gofalent amdanynt ond teimlai nifer lai y gallant weithiau wneud y pethau sydd bwysicaf iddynt.
- Teimlai canran fawr o blant eu bod yn byw mewn cartref gyda phobl lle maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel.

## ii. Gwaith ffocws gyda grwpiau lleiafrifol

Rydym hefyd wedi cael barn rhai a fyddai fel arall yn anodd eu cyrraedd ac ar y cyrion yn cynnwys grwpiau lleiafrifol megis pobl ddigartref a theithwyr. Rydym wedi defnyddio dulliau presennol i ymgysylltu gyda grwpiau agored i niwed megis y rhai a nodir islaw:

- Plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc
- Pobl mewn sefydliadau diogel a'u teuluoedd
- Pobl ddigartref
- Y gymuned Lesbiaidd Hoyw Deurywiol Trawsrywiol (LGBT)
- Grwpiau o Bobl Dduon a Lleiafrif Ethnig
- Cyn aelodau o'r lluoedd arfog
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid



## iii. Y defnydd o rwydweithiau a grwpiau presennol

Sylweddolwn fod nifer fawr o grwpiau a rwydweithiau wedi sefydlu sydd yn y lle gorau i roi barn dinasyddion. Fel rhan o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda fforymau ieuentid, fforymau 50+, fforymau rhianta, paneli dinasyddion, grwpiau gofalwyr a grwpiau anabledd dysgu.

## Y boblogaeth ehangach mewn partneriaeth gydag Asesiadau Llesiant

Rydym wedi cysylltu'n agos gyda phartneriaid sy'n datblygu asesiadau llesiant lleol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi cynnwys cwestiynau yng nghyswllt anghenion gofal a chymorth mewn digwyddiadau ymgysylltu ehangach.

## 2 Ymgysylltu gyda darparwyr a sefydliadau trydydd sector

Rydym wedi datblygu Fforwm Darparwyr 'Seiliedig ar Werthoedd' rhanbarthol i sicrhau fod barn partneriaid lleol yn ganolog i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Byddwn yn ymgysylltu gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau y gellir cyflawni'r datrysiadau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau'r Asesiad Anghenion Poblogaeth. Efallai y gall sefydliadau trydydd sector a sector preifat helpu i ddynodi pobl nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol na Fyrddau Iechyd Lleol ond sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth na chânt eu diwallu. Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym wedi trefnu dau weithdy rhanbarthol i ymgysylltu gyda'r trydydd sector a darparwyr.

## 3 Bod yn glir ar yr hyn a ofynnwn i bobl

**Yng nghyswllt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, y 3 cwestiwn a ofynnwyd oedd:**

- i. Beth a deimlwch yw eich anghenion mwyaf?
- ii. Sut y gallwn eich helpu i wella eich llesiant?
- iii. Pa wasanaethau sydd eu hangen?

## 4 Crynodeb

Rydym wedi cysylltu gyda nifer o bobl drwy baneli dinasyddion, fforymau darparwyr, pobl ifanc a fforymau pobl hŷn. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn cynnal Asesiadau Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff crynodeb o'r adborth a gasglwyd ei gynnwys yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth terfynol gan na chyhoeddwyd Asesiadau Llesiant hyd yma ac mae angen dadansoddiad trylwyr.

## 5 Nodwch pa wybodaeth a adlewyrchwyd yn yr asesiad – Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym a'r hyn y byddwn yn ei wneud

Drwy bob rhan o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth rydym wedi amlygu sylwadau dinasyddion i sicrhau bod eu sylwadau yn ganolog i ddatblygiad y dadansoddiad sefyllfa thema graidd a dadansoddiad ymateb. Byddwn hefyd yn nodi'n glir yn yr Asesiad yr hyn a ddywedodd pobl wrthym a'r hyn y byddwn yn ei wneud.

## 6 Adborth gan grwpiau presennol a dulliau ymgysylltu sydd wedi ymsefydlu

# Cefnogi Pobl

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl ar draws y rhanbarth wedi cynnal Ymarferiad Mapio Anghenion Gwent (GNME) a gasglodd wybodaeth ar unigolion sy'n cyflwyno i wasanaethau digartrefedd, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf a gwasanaethau perthnasol eraill yn yr ardal leol. Caiff y ffurflen GNME ei dosbarthu i asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed ac yn ystod 2015/2016 dychwelwyd 4940 ffurflen GNE wedi eu llenwi ar draws pum ardal awdurdodau lleol Gwent, cynnydd o dros fil o ffurflenni wedi eu dychwelyd o gymharu gyda'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae timau Cefnogi Pobl yn parhau i godi proffil ffurflen GNME i sefydliadau ac ymddengys fod gan bron chwarter y rhai a lenwodd y GNME ddiagnosis o gyflwr iechyd meddwl.

Mae timau lleol Cefnogi Pobl hefyd wedi defnyddio gwahanol ddulliau i ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth o fewn eu hardal a chynhaliodd rhai timau ddigwyddiadau a gwnaeth eraill ymgysylltu'n uniongyrchol drwy gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth yn eu prosiect eu hunain. Gallodd defnyddwyr gwasanaeth roi sylwadau ar y gefnogaeth a gawsant ac mae'r effaith gadarnhaol a gaiff gwasanaethau cymorth fel y bo angen a gwasanaethau llety seiliedig yn amlwg ar eu llesiant a'u hansawdd bywyd. Cafwyd hefyd awgrymiadau i wella gwasanaethau a bydd hyn yn hybu datblygiadau gwasanaeth ymhellach ar draws y rhanbarth.

Mae Cefnogi Pobl hefyd yn trefnu digwyddiad cynllunio anghenion blynyddol. Gwahoddir rhanddeiliaid i fynychu i roi eu sylwadau a'u barn ar wasanaethau a ddarperir yn lleol ac yn rhanbarthol ac mae gwybodaeth o'r digwyddiadau hyn yn helpu i roi dealltwriaeth o anghenion na chânt eu diwallu a'r blaenoriaethau a ddynodwyd yn y digwyddiad diwethaf oedd:

- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Pobl dros 55 oed
- Pobl ifanc 16 i 24 oed

Mae'r data'n parhau i ddangos bod pobl yn cyflwyno i wasanaethau gyda'r un prif anghenion ag mewn blynyddoedd blaenorol; ymddengys eleni fod iechyd meddwl yn brif angen neu angen eilaidd ym mhob awdurdod lleol, gyda phobl hŷn 55+ y prif angen yn Sir Fynwy a Thorfaen.



Diffinnir cyn-filwr fel: “unrhyw un a wasanaethodd am o leiaf un diwrnod yn y Lluoedd Arfog (Rheolaidd neu Wrth Gefn), yn ogystal â morwyr y Llynges Fasnachol a physgotwyr a wasanaethodd mewn llong a weithredwyd i hwyluso gweithrediadau milwrol gan y Lluoedd Arfog.”

Nid oes ffynhonnell arferol o wybodaeth ar gyn-filwyr yng Nghymru, felly mae'r nifer sy'n breswyl yng Nghymru yn anhysbys. Mae astudiaethau'n dangos fod y rhan fwyaf o gyn-filwyr yn gyffredinol yn ystyried eu cyfnod yn y gwasanaethau fel profiad cadarnhaol ac nid ydynt yn dioddef effeithiau iechyd niweidiol fel canlyniad i'r amser y buont yn gwasanaethu. Fodd bynnag, i leiafrif, gall canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol niweidiol fod yn sylweddol a gallant gael eu gwaethygu gan ffactorau eraill - megis problemau ariannol a lles. Mae problemau iechyd allweddol sy'n wynebu'r boblogaeth o gyn-filwyr yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl cyffredin (ond hefyd yn cynnwys Anhwylder Straen Ôl-drawmatig (PTSD) a chamddefnyddio sylweddau - yn cynnwys yfed gormod o alcohol ac i raddau llawer llai - ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Yn ychwanegol, dynodwyd fod cyfnod yn y Gwasanaethau yn gysylltiedig gydag anhwylderau cyhyrol-ysgerbydol ar gyfer rhai cyn-filwyr.

### **Mae'r materion eraill a ddynododd astudiaethau fel bod yn bwysig i gyn-filwyr yn cynnwys:**

- Aynediad i anheddau addas ac atal digartrefedd
- Cefnogi cyn-filwyr i gyflogaeth
- Mynediad i gyngor ariannol priodol a gwybodaeth am fudd-daliadau perthnasol
- Mynediad i wasanaethau iechyd a chymorth
- Cefnogi cyn-filwyr a fu yn y system cyfiawnder troseddol
- Unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Cyrraedd rhwydd i wasanaethau i sicrhau dynodiad a thriniaeth gynnar (iechyd corfforol a meddyliol)
- Cefnogi teuluoedd ehangach cyn-filwyr

Mae ymchwil yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn dioddef gydag anawsterau iechyd meddwl hyd yn oed ar ôl gwasanaethu mewn amgylcheddau heriol iawn. Fodd bynnag, mae rhai cyn-filwyr yn wynebu problemau iechyd meddwl difrifol.

### **Y problemau mwyaf cyffredin a brofir gan gyn-filwyr (a'r boblogaeth yn gyffredinol) yw:**

- iselder
- pryder
- cam-drin alcohol (13%)

Mae PTSD tebygol yn effeithio ar tua 4% o gyn-filwyr. Bob blwyddyn, caiff tua 0.1% o holl ymadawyr gwasanaeth rheolaidd eu rhyddhau am resymau iechyd meddwl. Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi penodi clinigydd profiadol fel Therapydd Cyn-filwyr gyda diddordeb neu brofiad o broblemau iechyd milwrol (meddwl). Bydd y Therapydd Cyn-filwyr yn derbyn atgyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu, elusennau cyn-filwyr a hunan-atgyfeiriadau gan gyn bersonél y lluoedd arfog. Mae'r gwasanaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn seiliedig ym Mhont-y-pŵl. Prif nod GIG

Cyn-filwyr Cymru yw gwella iechyd meddwl a llesiant cyn-filwyr gyda phroblem iechyd meddwl cysylltiedig â gwasanaeth. Yr ail nod yw cyflawni hyn drwy ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, hygyrch ac effeithlon sy'n diwallu anghenion cyn-filwyr gydag anawsterau iechyd meddwl a llesiant sy'n byw yng Nghymru. Mae adroddiad 2016 'Forces in Mind' yn rhoi canfyddiadau adolygiad o anghenion iechyd meddwl a chysylltiedig cyn-filwyr ac aelodau teulu yng Nghymru.

Dynododd yr adroddiad y datblygwyd llawer o waith da yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar i ateb anghenion iechyd meddwl a chysylltiedig cyn-filwyr ac aelodau eu teuluoedd yn well, fodd bynnag mae'r adroddiad hefyd yn dynodi meysydd lle teimlid fod angen gwaith ychwanegol i ddiwallu anghenion cyn-filwyr.

## Yn cynnwys:

- Angen am ffocws strategol a chydlynu yn nhermau cynllunio/comisiynu gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr - yn gyffredinol ac yn arbenigol - ar draws sectorau a rhanbarthau.
- Angen i sicrhau cysondeb a gweithredu Fforymau a Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog ar draws Cymru.
- Angen i sicrhau cynaliadwyedd/galluedd hirdymor o fewn gwasanaethau.
- Angen i sefydlu partneriaethau aml-asiantaeth lleol effeithlon i wella asesiad a llwybrau atgyfeirio.
- Ateb anghenion cyn-filwyr gydag anghenion cymhleth iawn yn arbennig y rhai gyda diagnosis deuol (iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau) a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.
- Ateb yr angen na chaiff ei ddiwallu ymysg cyn-filwyr a theuluoedd, gydag angen mwy o ataliaeth, dynodi ac ymyriad cynnar o fewn gwasanaethau cyffredinol/prif ffrwd i atal pwysau ar wasanaethau argyfwng.
- Adnabod a darparu'n briodol ar gyfer anghenion cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosïynol teuluoedd cyn-filwyr gyda phroblemau iechyd meddwl yn cynnwys materion diogelu yn neilltuol o amgylch trais yn y cartref a llesiant hirdymor plant;

Dynododd adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2014 'Gwella Mynediad at Driniaethau Camddefnyddio Sylweddau i Gyn-filwyr' bod Byrddau Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau yn arwain ar gynllunio, comisiynu a darpariaeth gwasanaethau ar y cyd i sicrhau y caiff anghenion cyn-filwyr eu diwallu. Dynododd adroddiad yn 2011 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 'Asesiad anghenion gofal iechyd cyn-filwyr o wasanaethau adsefydlu arbenigol yng Nghymru' ystod o argymhellion i gefnogi cyn-filwyr yng nghyswllt eu hiechyd a'u hanabledd corfforol yng nghyswllt darparu gwasanaeth adsefydlu arbenigol.

## Sipsiwn a Theithwyr

**Dengys Cyfrifiad 2011 i'r bobl ddilynol ddynodi fel Sipsiwn/Teithwyr neu Deithiwr Gwyddelig** (nid yw hyn yn cynnwys Roma).

### Sipsiwn a Theithwyr

■ Casnewydd	<b>84</b>	(0.06%)	■ Caerffili	<b>31</b>	(0.02%)
■ Blaenau Gwent	<b>72</b>	(0.10%)	■ Sir Fynwy	<b>6</b>	(0.01%)
■ Torfaen	<b>155</b>	(0.17%)	■ Cymru	<b>2785</b>	(0.09%)

Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai llawer o aelwydydd wedi llenwi'r cyfrifiad - oherwydd eu bod yn byw ar 'safleoedd diawdurdod' neu wersylloedd ac felly heb ymddangos ar gofnodion swyddogol neu oherwydd diffyg ymddiriedaeth o ddiben y cyfrifiad. Lle gwnaeth bobl dderbyn ffurflenni, gallai lefelau llythrennedd a allai fod yn is na'r cyfartalog wedi golygu na fyddai rhai aelwydydd heb eu llenwi, a lle cawsant eu llenwi byddai rhai aelwydydd wedi dewis peidio uniaethu fel Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig.

Mae'r boblogaeth fwyaf o Sipsiwn a Theithwyr yn Nhorfaen, fodd bynnag mae poblogaeth fawr hefyd yn Nant-y-glo ym Mlaenau Gwent, llawer ohonynt bellach yn byw mewn 'bricks a mortar' yn agos at safle sydd wedi hir ymsefydlu. Mae poblogaeth sylweddol o Sipsiwn a Theithwyr hefyd yng Nghasnewydd mewn safleoedd answyddogol o amgylch ffin canol y ddinas ac yn aml iawn Casnewydd yw'r safle answyddogol diawdurdod ar gyfer teithwyr sydd wrthi'n symud i'r dwyrain/gorllewin o Iwerddon i Loegr.

## Materion sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr

### Mae'r boblogaeth yn wynebu canlyniadau iechyd gwaelach o gymharu gyda'r boblogaeth gyffredinol:

- Mae cyfraddau marwoldeb babanod hyd at bum gwaith uwch ymysg y grŵp lleiafrifol hwn o gymharu gyda'r gyfradd genedlaethol.
- Mae cyfraddau imiweiddio ymysg plant Teithwyr yn isel o gymharu gyda gweddill y boblogaeth. Mae rhai'n awgrymu fod meddygon teulu yn amharod i gofrestru Teithwyr gan nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog, gan olygu na fedrir eu cyfrif tuag at dargedau ac felly gydnabyddiaeth ariannol.
- Mae cyfradd ddamweiniau uchel ymysg y boblogaeth Teithwyr a Sipsiwn sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflwr peryglus llawer o safleoedd Teithwyr - yn arbennig gan fod safleoedd yn aml yn agos at draffyrdd neu ffyrdd mawr, tomennydd sbwriel, gwaith carthffosiaeth, rheilffyrdd neu ardaloedd diwydiannol. Mae safonau iechyd a diogelwch yn aml yn wael.
- Mae gan deithwyr hefyd lefelau is o fwydo ar y fron.
- Mae llawer o gyflyrau meddygol hefyd yn fwy cyffredin nag yn y boblogaeth gyffredinol, yn cynnwys y gyfradd camesgoriad, problemau anadlol, arthrits, afiechyd cardiofasgwlaidd, iselder a chyfraddau marwolaeth mamol.
- Caiff alcohol yn aml ei ddefnyddio fel strategaeth ymdopi, ac mae llawer o adroddiadau am ddefnydd cyffuriau ymysg Teithwyr ifanc a chaiff ei ofni gan hynafwyr Teithwyr.
- Credoau gwleidyddol yn cynnwys ystyried y dylai problemau iechyd (yn arbennig y rhai a dybir fel cywilyddus, megis iechyd meddwl gwael neu gamddefnyddio sylweddau) gael eu trin gan aelodau aelwyd neu eu cadw o fewn yr uned deulu estynedig.
- Mae teithwyr hefyd yn wynebu heriau cael mynediad i wasanaethau un ai oherwydd lleoliad y safleoedd (neu oherwydd natur dros dro bod mewn ardal). Mae peidio cael mynediad i gludiant (yn arbennig ar gyfer menywod sy'n aml yn methu gyrru) i gyrraedd gwasanaethau yn rheswm arall am ddefnydd isel o wasanaethau yn ogystal â lefelau isel o lythrennedd iechyd o ba wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w defnyddio neu sut i gael mynediad iddynt.

Yn gyffredinol mae gan y cymunedau ddisgwyliadau isel o ran eu hiechyd a'u disgwyliad oes. Dangosodd astudiaethau dro ar ôl tro fod Teithwyr yn aml yn byw mewn amodau afiach iawn, tra ar yr un pryd yn defnyddio gwasanaethau iechyd yn llawer llai aml na gweddill y boblogaeth.




# Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos y cafodd y canrannau dilynol eu dosbarthu fel poblogaethau BME ym mhob awdurdod lleol o gymharu gyda Chymru.

## BME Grwpiau

■ Blaenau Gwent	1.5%
■ Caerffili	1.6%
■ Sir Fynwy	1.9%
■ Casnewydd	10.1%
■ Torfaen	2.0%
■ Cymru	4.4%



Canfu lechyd Cyhoeddus Cymru fod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, yn ogystal â bod ag anghenion penodol yn ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel, byw mewn amodau byw gwaelach a bod â lefelau is o gymwysterau addysgol. Hefyd, mae gan rai grwpiau ethnig gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd. Er enghraifft, mae gan boblogaethau yn hanu o Dde Asia a'r Caribî risg sylweddol uwch o ddiabetes; mae poblogaethau yn hanu o Fangladesh yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond o ysmegu ac mae anaemia clefyd y crymangelloedd yn anhwylder gwaed a etifeddir, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o dras Affricanaidd neu Garibiaidd. Nod Raising the Standard, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, yw hyrwyddo cydraddoldeb hil wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn ostwng yr anghydraddoldeb iechyd a brofir gan rhai grwpiau ethnig.

## Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr

Hyd at 2011 niferoedd cymharol isel o geiswyr lloches a ffoaduriaid oedd yn penderfynu ymgartrefu yng Nghymru o gymharu gyda rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig. Cynyddodd nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid pan ddaeth Cymru yn ardal wasgaru. Bu cynnydd o 8% yn y nifer o geisiadau lloches yn 2016 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae darpariaeth gwasanaeth i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches gan sefydliadau anllywodraethol wedi gostwng yn sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Cafodd hyn effaith niweidiol ar iechyd a llesiant pobl. Mae dim cyrchu cyllid cyhoeddus a materion diogelu megis trais seiliedig ar anrhydedd a masnachu dynol yn themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer darparwyr gwasanaeth. I ddefnyddwyr gwasanaeth ymddengys fod diffyg, neu fynediad cyfyngedig i wybodaeth a chefnogaeth tenantiaeth yn themâu allweddol a ddaw i'r amlwg.

Mae gwahanol adroddiadau yn cydnabod fod gwendidau yn y systemau casglu data ar gyfer nifer yr ymfudwyr, sy'n golygu bod cyfyngiadau ar ba mor ddibynnol ydynt. Nid oes unrhyw ddiffiniad wedi'i gytuno ar gyfer 'ymfudwyr' sy'n gwaethygu casglu data dibynadwy ymhellach.

Canfu cyfrifiad 2011 mai deg uchaf gwledydd tarddiad pobl a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn nhrefn y niferoedd uchaf yn gyntaf oedd: Pakistan, India, Bangladesh, Gwlad Pwyl, y Pilipinas, yr Almaen, De Affrica, Nigeria, yr Eidal a Zimbabwe. Mae adborth gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos fod gan bobl o gefndir Roma anghenion penodol iawn yn ychwanegol at rai y boblogaeth gyffredinol o fudwyr newydd.

Mae cyfathrebu da gyda mudwyr yn hanfodol. Mae penderfynu ar iaith ac addasrwydd fformat (e.e. ysgrifenedig, sain, wyneb i wyneb, dros y ffôn), a'r gefnogaeth sydd ar gael, megis eiriolaeth a dehongli yn elfennau hollbwysig i sicrhau cyfathrebu effeithlon. Bydd hyn yn ei dro o fudd i gyllidebau a gofal cwsmeriaid wrth iddo gyfrannu at benderfynu ar y gwasanaeth priodol. Yn ychwanegol, mae'r materion eraill a amlygwyd ar gyfer mudwyr a hefyd geiswyr lloches yn cynnwys yr angen am fwy o eiriolaeth a chymorth fel y bo'r angen i fudwyr, diffyg ymagwedd strategol at ddarparu gwybodaeth a gwasanaeth ar gyfer mudwyr newydd a diffyg cydlynu rhwng gwasanaethau ar gyfer mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

## Y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Trawsrywiol (LGBT)

Dynododd papur gwyn iechyd cyhoeddus 'Bywydau Iach, Pobl Iach' mai iechyd meddwl gwael, heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol, defnydd problematig o gyffuriau ac alcohol ac ysmegu yw'r prif faterion iechyd cyhoeddus sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig.

### Mae'r cyfan o'r rhain yn effeithio'n anghymesur ar boblogaethau LGBT:

- Mae defnydd cyffuriau anghyfreithlon ymysg pobl LGB o leiaf 8 gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol
- Mae tua 25% o bobl LGB yn dangos lefel o ddibyniaeth ar alcohol
- Mae bron hanner unigolion LGBT yn ysmegu, o gymharu gyda chwarterer pobl heterorywiol
- Mae gan bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol risg uwch o anhwylder meddyliol, syniadau am hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau a hunan-anafu fwriadol
- Mae 41% o bobl drawsrywiol wedi sôn iddynt geisio hunanladdiad o gymharu gyda 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol



## Pobl mewn sefydliadau diogel a'u teuluoedd

Mae Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga/Prescoed yn Sir Fynwy ac mae staff gofal cymdeithasol yn rhoi cefnogaeth i'r carcharorion yn unol â'r Ddeddf. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol i droseddwyr yng ngharchar Brynbuga/Prescoed, mewn partneriaeth gyda NOMS (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr). Yn ogystal â phoblogaeth y carchar mae'n debygol y bydd cyn-droseddwyr angen gofal a chymorth ychwanegol i atal anghenion rhag codi, yn arbennig y rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

## Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad ‘Asesu Anghenion Iechyd ar gyfer Carchar’ yn ddiweddar ac amlygodd nifer o feysydd allweddol i’w trafod:

- Mynediad i gyfleusterau gofal iechyd
- Iechyd meddwl a gofal iechyd
- Camddefnyddio sylweddau yn cynnwys ysmegu
- Iechyd y geg
- Clefydau heintus
- Cefnogaeth ar ôl rhyddhau

## Plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid

Gall fod gan blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad gyda'r System Cyfiawnder Ieuencid fwy o anghenion iechyd a lles na phlant eraill o'r un oed. Yn aml maen nhw wedi colli sylw cynnar i'r anghenion yma. Maen nhw'n aml yn wynebu anawsterau eraill, rhai sy'n aml wedi eu hen ymwreiddio, gan gynnwys gwahardd o'r ysgol, perthnasau teuluol bratiog, profedigaeth, amgylchiadau byw ansefydlog, a magwraeth wael neu niweidiol a all fod yn gysylltiedig â thlodi rhieni, camddefnydd cyffuriau a phroblemau iechyd meddwl. Efallai bydd nifer o'r plant a phobl ifanc sydd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder ieuencid yng Ngwent yn hysbys i ofal cymdeithasol plant hefyd ac ymhlith y plant a phobl ifanc hynny nad sydd mewn addysg, gwaith neu'n hyfforddi.

I blant a phobl ifanc bregus, gan gynnwys y rheiny sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, mae llesiant yn golygu cryfhau'r ffactorau gwarcheidiol yn eu bywydau a gwella'u gwydnwch yn wyneb ffactorau risg ac anffodion sydd mor amlwg ag sy'n debygol o barhau i gael effaith andwyol ar eu datblygiad hirdymor. Mae llesiant hefyd yn ymwneud â phlant yn teimlo'n sicr am eu hunaniaeth bersonol a'u diwylliant. Dylai sylw priodol i'w hanghenion iechyd a lles gynorthwyo i leihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau'r perygl o ail-droseddu gan bobl ifanc.

### Ar draws y rhanbarth mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a phartneriaid yn:

- Datblygu llwybr iechyd ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer pobl ifanc sydd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder ieuencid.
- Profi Rheolaeth Achos Uwch y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid - dull therapiwtig tuag at ddelio a throseddu plant.
- Adnabod, sgrinio ac ymateb i Anghenion Lleferydd, laith a Chyfathrebu trwy ddarparu Therapydd Lleferydd ac laith penodol i Wasanaeth Troseddau Ieuencid Gwent.
- Comisiynu Gwasanaeth Camddefnydd Sylweddau i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwent.

# Plant a phobl ifanc


Caiff proffil demograffeg a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn yr Asesiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffiaeth gryno yn adran 1 yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys amcanestyniad poblogaeth ar gyfer y rhanbarth. Ar gyfer dibenion yr Asesiad yma caiff 'plant a phobl ifanc' eu diffinio fel pobl hyd at 18 oed ac sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth.

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrices blaenoriaeth, ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**

1. Gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth drwy ymyriad cynharach, cefnogaeth seiliedig yn y gymuned a lleoliadau yn nes adref.
2. Sicrhau iechyd meddwl a llesiant emosiynol da ar gyfer plant a phobl ifanc drwy weithio partneriaeth effeithlon.

## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?


Mae'r atodiad yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa, ond dangosir sampl cynrychioladol o angen yn y siart(iau) islaw:



	Caerffili	Blaenau Gwent	Torfaen	Sir Fynwy	Casnewydd	Cymru
31 Maw 2012	78	96	152	56	83	90
31 Maw 2013	77	96	153	55	84	91
31 Maw 2014	71	102	152	56	86	91
31 Maw 2015	70	98	150	60	86	89
31 Maw 2016	72	139	142	73	88	90

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (LIC)

Dengys y ffigur uchod y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth dan 18 oed ar draws rhanbarth Gwent yn y cyfnod 2012 i 2016. Blaenau Gwent welodd y cynnydd uchaf dros y cyfnod, tra bu'r gostyngiad mwyaf yng Nghaerffili a Thorfaen. Mae'r gyfradd wedi parhau bron yr un fath ar gyfer Cymru dros y cyfnod 2012 i 2016.



Dengys y ffigur uchod fod y gyfradd o blant yn derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth dan 18 oed ar 31 Mawrth 2016 ar draws rhanbarth Gwent. Mae hyn yn amrywio o 72 fesul 10,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili i 142 fesul 10,000 o'r boblogaeth yn Nhorfaen. Mae hyn yn cymharu gyda 90 fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru ar 31 Mawrth 2016.

## Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae'r rheswm/rhesymau pam fod plentyn yn derbyn gofal yn amrywio, ond ym mron bob achos bydd plant wedi bod drwy brofiad bywyd trawmatig neu anodd a all arwain at ansefydlogrwydd, gofid, iechyd emosiynol a chorfforol gwael neu ddifffyg datblygiad cymdeithasol ac addysgol. Yn gyffredinol, nid yw plant sy'n derbyn gofal yn mwynhau'r un manteision, profiadau a chanlyniadau cadarnhaol â phlant eraill. Weithiau caiff plant eu lleoli allan o'r sir i sicrhau y caiff eu llesiant ei amddiffyn ac y caiff eu deilliannau eu cyflawni. Ar gyfer rhai plant gydag anghenion iechyd cymhleth, weithiau dim ond allan o'u sir mae darpariaeth cefnogaeth addas ar gael. Gall lleoliadau allan o'r sir fod yn ddrud iawn i awdurdodau lleol ac mewn rhai achosion y gwariant mwyaf unigol i gyllidebau gofal cymdeithasol; ac mewn rhai achosion ni chaiff y deilliannau a ddisgwyliid ar gyfer plant a gaiff eu lleoli ymaith o'u cartrefi eu cyflawni gystal ag a fwriadwyd yn wreiddiol.

Cydnabyddir felly fod plant a theuluoedd yn cael budd o ddarparu gwasanaethau mor agos i'w cartref ag sydd modd er mwyn cynnal cysylltiadau hanfodol a phwysig gyda rhwydweithiau cefnogaeth a gwasanaethau lleol eraill. Cydnabyddir hefyd, ar gyfer rhai pobl ifanc, y gall y gefnogaeth angenrheidiol fod wedi ei lleoli tu allan i'w hardal leol gan nad yw'r ddarpariaeth arbenigol ar gael, ond gall olygu y gallant gael eu hynysu o'u rhwydweithiau proffesiynol a chymdeithasol. Nid yw'r ymarfer hwn yn cyd-fynd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gadw pobl ifanc yng Nghymru ac yn agos i'w cartrefi os yn briodol.

Mae nifer fach o blant, plant anabl yn bennaf, yn derbyn cyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'r bobl ifanc hyn yn cyflwyno gydag anghenion cymhleth ac yn derbyn pecynnau sylweddol o ofal, fel arfer tu allan i'r sir, gan nad yw darpariaeth briodol yn aml ar gael o fewn rhanbarth Gwent.

# Beth ydym ni'n ei wneud?

Sefydlwyd **Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd** gyda chynrychiolwyr o iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Nid oes unrhyw ddiffiniad gosod ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth ar lefel ranbarthol ond mae'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd wedi diffinio'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc fel:

1. Plant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma cymhleth (yn aml bobl ifanc heriol yn eu harddegau gydag anawsterau ymlyniad cymhleth).
2. Plant a phobl ifanc gydag anhwylder ar y sbectrwm awtistig/anabledd dysgu ac ymddygiad heriol.
3. Plant a phobl ifanc gydag anableddau corfforol ac anghenion iechyd cymhleth.

## **Mae'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd wedi dynodi'r meysydd cydweithredu dilynol:**

- integreiddio systemau, asesiadau a chynllunio ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth, lle byddai ymateb aml-asiantaeth amserol yn sicrhau gwell canlyniadau llesiant ar gyfer y plant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr
- atal cynyddu cymhlethdod ac argyfwng cysylltiedig
- cynllunio a datblygu (comisiynu) ystod ymatebol ac integredig o wasanaethau llesiant, gofal, cymorth a llety i gyflawni deilliannau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd/gofalwyr
- sicrhau proses ranbarthol gyson ar gyfer gwneud penderfyniadau ar Ofal Parhaus.

Yn dilyn dadansoddiad bwlch mewn prosiect llesiant emosiynol a gwasanaethau iechyd meddwl (a gwblhawyd yn 2015) bu neu mae partneriaid perthnasol yn y broses o ddatblygu nifer o wasanaethau yn cynnwys:

- Gwasanaeth Niwroddatblygiadol (ASD/ADHD)
- Ymyriad Cynnar Estynedig mewn Seicosis (Grŵp Oedran 14-25),
- Ymatebion Arbenigol Argyfwng CAMHS: Tîm Estynedig Allgymorth Argyfwng, Gwasanaeth Estynedig Anhwylder Bwyta, Gwasanaeth Estynedig Cydlynu Argyfwng a Gwasanaeth Therapi Ymddygiad Dialectig
- Gwasanaeth seicolegol ar gyfer trawma datblygiadol ac anawsterau ymlyniad
- Datblygu Gwasanaethau Integredig ar gyfer Plant gydag Anghenion Ychwanegol yn seiliedig ar fodel hyb a both o ddarpariaeth gwasanaeth mewn canolfannau plant Awdurdod Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anableddau a'u teuluoedd/gofalwyr.

## Astudiaeth Achos

Yn 2015, gwirfoddolodd Gwasanaethau Plant Caerffili i fod y brif ardal brofi i dreialu model newydd ar gyfer asesu a chynllunio ar y cyd, yn seiliedig ar arfer gorau cydnabyddedig a Grŵp Asesiad a Chynllunio Aml-asiantaeth ar gyfer Plant gydag Anghenion Cymhleth. Y prif ysgogwyr dros wella ymarfer yw ymyriad cynnar ac adborth parhaus gan deuluoedd a fyddai'n croesawu dull gweithredu cydlynol a chynhyrchu un cynllun. Rhoddwyd cyllid o Gronfa Gofal Integredig 2016 i dreialu model asesu a chynllunio integredig newydd.

Yng nghyswilt blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd, comisiynwyd cwmni ymgynghorol allanol i gynnal ymchwil ar gamau y dylai awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac asiantaethau partner eu cymryd i helpu atal anghenion cymhleth rhag chwyddo. Mae ffocws yr ymchwil ar dri phrif faes:

- **Y dull gorau i drin y nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal a gaiff eu lleoli mewn gofal preswyl annibynnol tu allan i'r rhanbarth.**
- **Dros gyfnod, helpu i ostwng yn ddiogel y nifer o blant sy'n derbyn gofal sy'n cael cyfuniad o chwalfa lleoliad, cynnydd mewn angen, a lleoliad mewn darpariaeth annibynnol allan o'r rhanbarth.**
- **Ystyried sut y gallai cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar ymyl gofal (mewn perygl o ddod i dderbyn gofal) weithredu'n effeithlon a diogel i atal plant a phobl ifanc o'r fath rhag bod angen gofal statudol.**

Cynhelir ymchwil hefyd ar ddatblygu llety a chymorth i ymadawyr gofal sydd ag anghenion cymhleth ac amcanion y gwaith yw: datblygu cynllun integredig i gefnogi dull gweithredu rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau llety a chymorth i bobl ifanc mewn gofal neu'n gadael gofal ar ôl 16 mlwydd oed; amlinellu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu llety a gwasanaethau cymorth i'r grŵp agored i niwed, gostwng gorddibyniaeth ar y sector preifat wrth sicrhau y caiff anghenion y bobl ifanc hyn eu diwallu yn yr hirdymor ac ymchwilio a chynnig cyfleoedd rhanbarthol seiliedig ar dystiolaeth o ddatrysiadau llety amgen i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma cymhleth.

Mae **Dechrau'n Deg** a **Theuluoedd yn Gyntaf** yn rhaglenni ataliol sy'n anelu i roi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd, gostwng anghenion rhag gwaethygu a chefnogi teuluoedd i sicrhau llesiant plentyn. Dengys astudiaeth ymchwil ddiweddar Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod fod plant sy'n profi pedwar profiad niweidiol deirgwaith yn fwy tebygol o ddiodeff iechyd meddwl gwael pan fyddant yn hŷn. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried sut y gellir gostwng profiadau niweidiol yn ystod plentynod drwy ddull gweithredu ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a thrwy ddull gweithredu seiliedig ar le megis 'Gofal yn Nes at y Cartref' (gweler adran 2). Mae nifer o wasanaethau cymorth eraill ar gael drwy'r trydydd sector yn ogystal â gwasanaethau awdurdod iechyd ac iechyd cyhoeddus creiddiol.

***“Gall bod mewn gofal fod yn anodd ond gallwn helpu pobl eraill drwy rannu ein profiadau fel y gwyddant fod rhywun sy'n deall beth maen nhw'n mynd trwyddo.”***

*Aelod Fforwm Ieuenctid*

## **Beth fyddwn yn ei wneud:**

- **Byddwn yn ymchwilio grwpiau**
- **Cymorth cyfoedion i bobl ifanc**

# Camau gweithredu a'r camau nesaf

## Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:

Mae angen datblygu asesu, cynllunio a chomisiynu ar y cyd ar gyfer plant gydag anghenion amrywiol lle byddai ymateb aml-asiantaeth yn rhoi canlyniadau gwell.

### Bydd y ffordd yma o weithio yn helpu i sicrhau:

- Ffocws ar atal argyfyngau a chefnogaeth ar bwynt cynharach yn eu datblygiad
- Cymorth yn nes at eu cymuned eu hunain
- Ffocws ar ddiwallu anghenion plant mewn ffordd fwy integredig ac a gyd-gomisiynwyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Mae pedair rhaglen allweddol gwrthdlodi ymyriad cynnar a gyllidir ar draws Cymru: Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl (mae Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben mewn camau ond bydd peth darpariaeth yn aros). Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymchwilio egwyddorion asesu cyson, hyfforddiant gweithlu a chyfleoedd cyd-gomisiynu ar draws y rhaglenni a bydd y rhanbarth yn ymchwilio dulliau gweithredu tebyg. Bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth hefyd yn cyfeirio teuluoedd at adnoddau a chefnogaeth priodol; ac mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn bartneriaid allweddol wrth y 'drws blaen' ym mhob awdurdod lleol i 'gyfeirio' at gefnogaeth effeithlon. Yn unol â 'Gofal yn Nes at y Cartref' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae cyfle i ymchwilio dulliau gweithredu seiliedig ar le a gwasanaethau ataliol (gweler manylion pellach yn adran 2).

## Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Bydd angen i ni sicrhau y caiff cyllid ei ailgyfeirio i ddarparu lefelau is o ymyriad, i gefnogi plant yn gynharach ac i osgoi lleoliadau allan o'r sir y medrir eu hosgoi neu ddiangen. Bydd angen i ni ddefnyddio Cyllid Gofal Canolraddol ar draws y rhanbarth ac fel y soniwyd, mae ymgyngorwyr allanol yn ymchwilio modelau addas i osgoi cynyddu angen, yn cynnwys adolygiad o leoliadau tu allan i'r sir a'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Mae gofyniad dan ran 9 y Ddeddf i osod allan a chytuno ar gynlluniau ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch; a rhagwelir y bydd yr adolygiad a gomisiynir yn allanol yn cyflwyno argymhellion i hwyluso mwy o integreiddio.

Hefyd, ran Ran 9 y Ddeddf mae gofyniad i sicrhau y caiff Timau Integredig Cefnogaeth i Deuluoedd eu comisiynu ar y cyd, a daw hyn yn awr dan drefniadau llywodraethiant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant wrthi'n ymchwilio ac yn datblygu trefniadau maethu rhanbarthol ar draws y rhanbarth.





# Eiriolaeth a Llais y Plentyn

Byddwn yn sicrhau y caiff barn plant ei ystyried yn yr holl drefniadau cynllunio a sicrhau bod darpariaeth eiriolaeth ar gael ym mhob rhan o'r rhanbarth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae un contract eiriolaeth rhanbarthol yn cael ei ddatblygu gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant a byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr eiriolaeth cyfredol i benderfynu arfer da a dynodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaeth. Drwy ein partneriaid yn y trydydd sector, byddwn hefyd yn anelu i gynyddu eiriolaeth anffurfiol ac ymchwilio rolau mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol yn y maes hwn.

## **Cysylltiadau gyda strategaethau rhanbarthol:**


- Datganiad Bwriad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar Blant gydag Anghenion Cymhleth
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod GIG

### **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- Cefnogi adolygiad y Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd o drefniadau lleol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth a chyflenwi rhaglen waith gyda ffocws ar blant sy'n derbyn gofal.
- Modelau ymarfer cyson ac alinio rhaglenni ymyriad cynnar ac ataliaeth Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu rhanbarthol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentynod gyda ffocws ar ymyriad cynharach a chefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc drwy asedau cymunedol.

# Pobl hŷn

Caiff proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y 5 Aseiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffiaeth gryno yn adran 1 yr Aseiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y rhanbarth. Ar gyfer diben yr Aseiad hwn, caiff pobl hŷn eu categoreiddio fel bod dros 55 oed.




**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrices blaenoriaethu, ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**

1. Gwella llesiant emosiynol pobl hŷn drwy ostwng unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol gydag ymyriad cynharach a chydnerthedd cymunedol.
2. Gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.
3. Tai a llety addas ar gyfer pobl hŷn.


## Felly beth mae'r data yma'n ei ddangos i ni?

Mae'r atodiad yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siartiau islaw.



Dengys ffigur OPI y rhagolwg o nifer pobl 65 oed neu hŷn gyda dementia dros y cyfnod 2013 i 2035. Dengys y rhagwelir cynnydd yn nifer y bobl ym mhob ardal awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent. Mae'r cynyddu'n amrywio rhwng 62.1% ym Mlaenau Gwent i 97.1% yn Sir Fynwy dros y cyfnod 2013 i 2035.

Dengys ffigur OP2 y nifer a ragwelir o bobl 65 oed neu drosodd na all ymdopi ag o leiaf un dasg ddomestig ar ben eu hunain dros y cyfnod 2013 i 2035. Mae'n dangos y rhagwelir cynnydd ym mhob ardal awdurdod lleol ar draws rhanbarth Gwent. Mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 44.9% ym Mlaenau Gwent i 76.8% yn Sir Fynwy.



## Beth ydym ni'n ei wybod?

Gwyddom o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod nifer y bobl dros 85 oed yn y Deyrnas Unedig wedi dyblu yn y tri degawd diwethaf ac erbyn 2030 y bydd un mewn pump o bobl dros 65 oed. Mae'r pwysau demograffig ariannol yn hysbys iawn ac yn ffurfio cyd-destun y trawsnewid system gyfan sydd ei angen. Mae gan Gymru eisoes gyfran uwch o bobl dros 85 oed na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, felly mae'r angen am newid yn fwy sylweddol, wrth i'r **canran o bobl 85 oed gynyddu gan 90% erbyn 2030** a chynnydd o 33-44% o bobl yn byw gyda dementia.

**“Pan ges i ddiagnosis o dementia fe es i'n isel a gadewais i ddim mo' nghartref, ond y peth gorau a ddigwyddodd i fi oedd cwrdd â rhywun arall a oedd yn byw gyda dementia ac a oedd yn deall yr hyn yr oeddwn i'n mynd trwyddo. Rwy nawr yn brysur iawn diolch iddi hi.”**

*Dementia Friendly Cafe Member*

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Datblygu gwasanaeth newydd tebyg-at-ei-debyg ar gyfer pobl sydd newydd gael diagnosis o ddementia i gysylltu hefo pobl sydd hefyd wedi cael diagnosis.**

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r pum awdurdod lleol yng Ngwent drefniadau sydd wedi ymsefydlu'n dda ar gyfer alinio, cynllunio a chyflenwi ar draws y llwybr gofal yn cynnwys gofal arbenigol hyd at gefnogaeth gymunedol. Aeth **Rhaglen Eiddilwch Gwent** â hyn ymlaen gyda'r nod o feithrin gallu o fewn gosodiadau cymunedol i ostwng y galw ar adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig ofal aciwt ac mewn sefydliad. Mae hwn yn ddull gweithredu aml-asiantaeth ac yn un yr anelwn adeiladu arno i drin anghenion llesiant a dymuniadau ein dinasyddion hŷn yn ogystal â gostwng oedi wrth drosglwyddo gofal.

Mae **Timau Adnoddau Cymunedol** wedi ymsefydlu'n dda ym mhob un o'r pum bwrdeistref a bwriadwn gynyddu capasiti a galluedd, gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer 2016/17. Mae'r rhaglen Llesgedd yn cydnabod yr angen am haenu risg i sicrhau y caiff adnoddau eu targedu i atal gwaethygu ac rydym yn gweithio gyda thimau meddygon teulu i ddatblygu offer a systemau addas.

Yn fwy diweddar cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan weithdai datblygu **"Gofal yn Nes at y Cartref"** dym mhob awdurdod lleol i ddynodi cyfleoedd i alinio ac integreiddio gwasanaethau o amgylch ardaloedd clwstwr meddygon teulu (Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth). Cynhaliwyd ymarferiad yn mapio gwasanaethau cefnogi fel rhan o'r gweithdai a chaiff y canfyddiadau eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer datblygu a darparu gwasanaeth yn y cyfnod nesaf.

### Astudiaeth Achos

Dynododd gweithdai cyn-ymgysylltu gyda'r panel dinasyddion rhanbarthol, y fforwm darparwyr a'r grŵp arweinyddiaeth gefnogaeth yn canoli ar y person, lle gwrandewir ar bobl, gydag ymyriad cynharach a chydnerthedd cymunedol. Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ymrwmo cyllid gofal sylfaenol a'r Gronfa Gofal Canolraddol i **Lwybr Pobl Hŷn Casnewydd**. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys haenu risg pobl dros 75 a darparu cefnogaeth wedi'i thargedu drwy hwyluswyr gofal a gyflogir gan Age Cymru. Caiff pobl hŷn y dynodwyd eu bod 'mewn risg' drwy'r dull haenu risg gynnig ymweliad cartref i ddatblygu 'Cynllun Aros yn Dda' fydd yn eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth.

## Camau Gweithredu a'r Camau Nesaf

### Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:

- Gostwng arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd drwy gysylltwyr cymunedol, rhagnodi cymdeithasol, gweithgaredd gwirfoddolwyr a chynlluniau fel ChaT Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Datblygu 'Cymunedau Cyfeillgar i Dementia' pellach.
- Integreiddio ehangach o 'dîm o amgylch y person a'u cefnogwyr' a dull gweithredu seiliedig ar le ar ardaloedd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yn gysylltiedig gyda'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' a defnyddio hybiau cymunedol i ganolbwyntio ar gadw pobl annibynnol ac yn iach yn y gymuned.
- Cefnogi cynllunio gofal rhagweld, fel y gellir symud ymlaen ag anghenion a dymuniadau pobl hyd yn oed mewn cyfnod o argyfwng. Byddem yn rhagweld y byddai hyn yn golygu derbyniadau annisgwyl i ysbyty ar gyfer rhai a fyddai'n well ganddynt aros adref neu o fewn gosodiad cartref gofal i dderbyn triniaeth.

- Datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu gyda phobl, yn arbennig mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i roi gwybodaeth, yn cynnwys Porth Dinasyddion DEWIS cenedlaethol, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu i hyrwyddo mynediad rhwyd i gefnogaeth.

- Academic studies and evaluations undertaken as part of The Big Lottery Fund have demonstrated that volunteering can have a positive effect on a range of aspects of individual well-being, including: happiness, life satisfaction, self-esteem, sense of control over life, improved physical health and alleviating depression. We will encourage volunteering working in partnership with third sector partners and support the rollout of the new 'Ffrind I mi' volunteering programme launched by ABUHB.



## Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Mae gennym eisoes lefel o integreiddiad a chydweithredu gwasanaeth drwy wasanaeth Eiddilwch Gwent a Byrddau integredig ar gyfer gwasanaethau Gofalwyr, Dementia, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl, ond sylweddolwn fod angen i ni ymestyn hyn i gynnwys:

### 1 Gwell prosesau partneriaeth

- Mae gan Went eisoes nifer o wasanaethau integredig sydd wedi sefydlu'n dda ar gyfer pobl hŷn a byddwn yn adeiladu ar y sylfaen cadarn hwn yn defnyddio'r asesiadau integredig newydd i sicrhau dull holistig at unigolion sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn gostwng derbyniadau i ysbyty. Caiff rôl cydlynnydd achos ei sefydlu fel y gall pobl hŷn gydag anghenion cymhleth un pwynt cyswllt, a all groesi ffiniau proffesiynol a sefydliadol i ganfod datrysiadau i gyflawni ystod ehangach o anghenion unigol.

### Datblygu Gweithlu

- Dylai gwasanaethau rheng-flaen gael eu cyflenwi gan weithwyr proffesiynol priodol, a all frysennu a datrys problemau. Datblygwyd gwasanaethau lleol unigol ym mhob un o'r 5 ardal sy'n cefnogi'r dull gweithredu hwn, gyda'r galw'n cael ei reoli'n rhagweithiol drwy reoli risg effeithlon a chyfeirio at wasanaethau eraill. Bydd angen i bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol gael gwybodaeth o faterion pobl hŷn.

### 2 Gwasanaethau hyblyg ac ymatebol

- Byddwn yn symud ymlaen gydag ystyriaeth ehangach o weithio estynedig a 24/7, gyda rhai gwasanaethau allweddol yn cael eu hailgynllunio i ateb y gofyniad hwn. Rydym eisoes yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau eiddilwch 365 diwrnod y flwyddyn a gallwn adeiladu ar hyn i greu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n well wrth ddiwallu disgwyliadau pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a mynd â chefnogaeth meddyginiaeth dda ymlaen i'r nosweithiau cynnar a phenwythnosau, gan gysylltu gydag ysbytai.

### 3 Comisiynu a chyllidebau cyfun

- Byddwn yn hwyluso gofal yn y cartref a gynlluniwyd ac a ddatblygir gyda darparwyr ar ddull gweithredu seiliedig ar le i fod yn gynaliadwy a gyda ffocws ar ganlyniad. Dechreuodd hyn gydag adolygiad manwl o ofal yn y cartref yn ystod 2016/17 a chaiff canfyddiadau hynny eu hystyried a'u gweithredu yn ystod 2017/18. Byddwn yn datblygu'r berthynas waith gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydlwyd drwy'r prosiect 'Mewn Un Lle' i sicrhau aliniad gyda'r adolygiad o ofal yn y cartref ar ddull gweithredu seiliedig ar le.
- Byddwn yn datblygu'r rhaglen 'bywyd gwell' a'r modelau cydnerthedd i gefnogi cartrefi pobl wrth roi gofal cynaliadwy, ansawdd uchel a chyson i gefnogi llesiant.
- Byddwn yn cefnogi cartrefi gofal i reoli pobl hŷn gydag anghenion cymhleth yn well i ostwng derbyniadau annisgwyl i ysbytai. Bydd hyn hefyd yn golygu datblygu dull gweithredu mwy integredig i gomisiynu darpariaeth gofal gyda sefydlu cronfa gyfunol erbyn mis Ebrill 2018.

## Astudiaeth Achos: Modelau newydd Blaenau Gwent

Mae rhai enghreifftiau o grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a chynlluniau cydweithredol yn datblygu yn y rhanbarth. Ym Mlaenau Gwent mae grŵp cymunedol wedi tyfu allan o grŵp gweithredu cymunedol cyfeillgar i ddementia. Mae'r grŵp - Cyfeillion Dementia Blaenau Gwent - wedi codi arian i helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gael mynediad i grwpiau cymunedol a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed. Mae angen i ni hyrwyddo mwy ar yr ymarfer hwn a byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr gwasanaeth seiliedig ar werthoedd cymdeithasol i ddechrau manylu a threialu sut olwg allai fod ar fodolau newydd o wasanaeth yn y dyfodol.

Caiff taliadau uniongyrchol eu defnyddio ledled Cymru i ddarparu gofal cymdeithasol a hyrwyddo annibyniaeth. Fodd bynnag, mae eu defnydd yn amrywio. Dylid annog eu defnydd, gan adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma fel y caiff pobl eu grymuso ymhellach i gynllunio eu datrysiadau eu hunain pan mae ganddynt anghenion gofal cymwys.

### Cysylltiadau gyda strategaethau allweddol:

- Datganiad Bwriad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Heneiddio'n Dda yng Nghymru
- Blaenoriaethau Cenedlaethol Cyngor Gofal Cymru
- Adfywio Strategaeth Pobl Hŷn 2013/23

### Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:

- Datblygu dull seiliedig ar le 'Gofal yn Nes at y Cartref' yn cynnwys cyflenwi cysylltwyr cymunedol yn gyson ar draws y rhanbarth i ostwng arwahanrwydd cymdeithasol.
- Datblygu 'Cymunedau Cyfeillgar i Dementia' ymhellach.
- Datblygu proses gyd-gomisiynu gofal yn y cartref gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac yn gysylltiedig gydag Adroddiad 'Uwchben a Thu Hwnt' Safonau Cenedlaethol Gwella Cymdeithasol Cymru a'r Cynllun Strategol 'Gofal a Chymorth Adref' a ddatblygir ar hyn o bryd gan Gyngor Gofal Cymru.

# Iechyd a Phobl gydag Anabledd Corfforol

Caiff proffil demograffeg a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y pum Aseiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffiaeth gryno yn adran 1 yr Aseiad Anghenion Poblogaeth yma fydd hefyd yn cynnwys amcanestyniad poblogaeth y rhanbarth.




Bydd y bennod hon yn ystyried anghenion iechyd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth AC anghenion pobl anabl yng nghyd-destun y 'model cymdeithasol o anabledd.'

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltiad gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrices blaenoriaethu ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**

1. Cefnogi pobl anabl drwy ddull gweithredu pob oedran i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chael mynediad i wasanaethau seiliedig yn y gymuned, yn cynnwys cludiant.
2. Helpu pobl i ostwng risg afiechyd a llesiant drwy ymyriad cynharach a chefnogaeth gymunedol.


## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?

Caiff dadansoddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa ei gynnwys yn yr atodiad, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siart(iau) islaw.



Mae ffigur PHI yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 18 oed neu hŷn gyda salwch hirdymor cyfyngol dros y cyfnod 2013 i 2035. Mae'n dangos y rhagwelir y bydd pob ardal awdurdod lleol ledled rhanbarth Gwent yn gweld cynnydd yn y nifer. Mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 14.1% ym Mlaenau Gwent i 25.1% yng Nghasnewydd.

### Cyfradd o salwch hirdymor terfannol ym mhob 10,000 o'r boblogaeth - 2011



Mae ffigur PH2 yn dangos cyfradd salwch hirdymor cyfyngol fesul 10,000 o boblogaeth yn 2011. Ar draws rhanbarth Gwent amrywiodd y gyfradd o 18,472.5 fesul 100,000 o boblogaeth yn Sir Fynwy i 27,704.0 fesul 100,000 ym Mlaenau Gwent.

## Beth ydym ni'n ei wybod?

### Anabledd Corfforol - Ffeithiau a Ffigurau (Anabledd yn y Deyrnas Unedig 2016):

- Mae tua 11.9 miliwn o bobl anabl yn y Deyrnas Unedig. Mae gan bron 1 mewn 5 o bobl (19%) yn y Deyrnas Unedig anabledd; mae'r ffigur hwn wedi parhau'n gymharol gyson dros gyfnod (12.2 miliwn yn 2012/13). Mae mwy o fenywod anabl nag o ddynion anabl yn y Deyrnas Unedig.
- Mae pobl sy'n byw yng Nghymru (26%) yn fwy tebygol o gael salwch hirsefydlog cyfyngol neu anabledd na rhanbarthau eraill o Brydain Fawr.
- Amcangyfrifir fod y nifer o bobl anabl hŷn yn debygol o gynyddu gan tua 40% rhwng 2002 a 2022, os yw cyfraddau anabledd cysylltiedig ag anabledd yn parhau'n gyson.
- Yn 2014/15, yr amhariadau mwyaf cyffredin oedd gan bobl anabl oedd: symudedd (57%), egni/anadlu/blinder (38%), dehurwydd (28%) ac iechyd meddwl (16%). Roedd gan rai pobl fwy nag un amhariad.
- Mae 19% o aelwydydd sy'n cynnwys person anabl yn byw mewn tlodi incwm cymharol (dan 60% o incwm canolrif), o gymharu â 14% o aelwydydd heb berson anabl. Mae pobl anabl yn talu £550 y mis ar gyfartaledd ar gostau ychwanegol yn gysylltiedig gyda'u hanabledd.
- Cludiant yw'r mater sydd o fwyaf o gonsyrn i bobl anabl yn eu hardal leol. Cynnal a chadw palmentydd/ffyrdd ac amlder trafniadaeth gyhoeddus yw'r problemau mwyaf.
- Mae cost flynyddol magu plentyn anabl 3 gwaith yn fwy na magu plentyn heb fod yn anabl ac mae 40% o blant anabl y Deyrnas Unedig yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn cyfrif am tua 320,000 o blant anabl, a dosbarthwyd fod bron eu traean yn byw mewn 'tlodi difrifol'.
- Drwyddi draw, mae 1 mewn 10 oedolion ym Mhrydain yn profi iselder ar unrhyw un amser. Mae tua 1 mewn 10 o bobl ar unrhyw un amser yn profi iselder mawr neu 'glinigol'. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi rhagweld mai iselder fydd prif achos anabledd erbyn 2020. Rhagwelir y bydd afiechyd meddwl ac anableddau dysgu yn neilltuol yn tyfu.
- Cafodd pobl anabl eu dosbarthu'n weddol gyfartal ar draws y Deyrnas Unedig ond mae gan Gymru (24%) ac ychydig o ranbarthau Lloegr gyfradd uwch o anabledd o gymharu â'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol (19%).
- Yn y Deyrnas Unedig, mae pobl o grwpiau ethnig gwyn bron ddwywaith mor debygol â rhai o grwpiau ethnig heblaw gwyn i fod â salwch hir-sefydlog cyfyngol (20% o gymharu gyda 11%).

Mae cymysgedd o ardaloedd cefnog ac amddifadus yn ardal Gwent. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ystod eang o batrymau ffordd o fyw a chanlyniadau iechyd mewn gwahanol awdurdodau lleol yn ardal Gwent.



## Anabledd

Diffiniad gwreiddiol Deddf 1995 o anabledd yw 'amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effeithiau niweidiol sylweddol a hirdymor ar y gallu i wneud gweithgareddau dydd i ddydd arferol'. Fodd bynnag, ar draws y rhanbarth byddwn yn mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd sef y caiff anabledd ei achosi gan y ffordd y caiff cymdeithas ei threfnu, yn hytrach na gan amhariad neu wahaniaeth person. Mae'n edrych ar ffyrdd o ddileu rhwystrau sy'n cyfyngu dewisiadau bywyd ar gyfer pobl anabl. Pan gaiff rhwystrau eu dileu, gall pobl anabl fod yn annibynnol a chyfartal mewn cymdeithas, gyda dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae llawer o bobl gydag amhariadau corfforol a synhwyrdd yn byw'n hollol annibynnol, fodd bynnag weithiau gall anabledd achosi bod mwy o angen help anffurfiol a gofal iechyd ac anghenion a chostau gofal hirdymor. Er nid yn ganlyniad anochel o heneiddio, mae'n gyffredin cysylltu oedran cynyddol gydag anabledd cynyddol a cholli annibyniaeth, gydag amhariadau swyddogol megis colli symudedd, golwg a chlyw.

Mae'r term anabledd corfforol/synhwyrdd yn cwmpasu amhariadau gweledol, clyw a chorfforol; caiff y gofrestr o Anableddau Corfforol/Synhwyrdd ei pharatoi o gofrestri awdurdodau lleol o bobl gydag anabledd corfforol neu synhwyrdd dros 18 oed neu drosodd yng Nghymru. Mae cofrestru yn wirfoddol ac nid yw pawb sydd ag anabledd yn dewis cofrestru. Nid yw'r cofrestri felly yn ganllaw dibynadwy ar fynychder anabledd corfforol a synhwyrdd yn y boblogaeth. Mae mynychder anabledd yn cynyddu gydag oedran yn gyffredinol a gyda phoblogaeth gynyddol hŷn disgwylir y bydd y nifer o bobl sy'n byw gydag anabledd yng Ngwent yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.



## Iechyd yn gyffredinol

Drwyddi draw mae statws iechyd y boblogaeth ledled Gwent ychydig yn waeth na Chymru yn nhermau statws iechyd cyffredinol - gyda 22% o bobl yn disgrifio eu statws iechyd fel bod yn weddol neu wael o gymharu gyda Chymru (19%). Dynododd 17% o boblogaeth Gwent fod problem iechyd neu anabledd (neu y disgwylir iddo barhau) am o leiaf 12 mis yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd-i-ddydd - mae hyn o gymharu â ffigur Cymru o 15%, er bod llawer o amrywiaeth ar draws ardal Gwent - 12% yn Sir Fynwy a 22% ym Mlaenau Gwent. Mae'n amlwg y gellir cysylltu'r amrywiad hwn gydag amddifadedd. Ar draws Gwent dywedodd 52% o oedolion eu bod yn cael eu trin am salwch ar hyn o bryd (Cymru 50%) gyda 21% o oedolion yn cael eu trin am bwysedd gwaed uchel ar hyn o bryd (Cymru 20%), 15% am salwch anadlol (Cymru 14%), 14% am arthritis (Cymru 12%), 14% am salwch meddwl (Cymru 13%) a 9% am ddiabetes (Cymru 7%).

## Defnydd tybaco (ysmygu)

Mae ysmegu'n parhau i fod yn brif achos marwolaeth gynamserol yng Nghymru. Cysylltwyd ysmegu ac ysmegu goddefol gydag amrywiaeth o glefydau difrifol yn cynnwys canserau ac afiechyd y galon. Ar draws Gwent mae 21% o oedolion dros 16 oed yn ysmegu o gymharu â 19% ar draws Cymru. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws Gwent gyda 17% yn Sir Fynwy a 26% ym Mlaenau Gwent. Ar draws holl ardaloedd Gwent mae'r mynychder ysmegu ar gyfer benywod yn hytrach nag ar gyfer gwrywod - y mynychder ysmegu isaf yw 13% mewn benywod yn Sir Fynwy.

## Alcohol

Mae alcohol yn achos mawr o farwolaeth a salwch yng Nghymru a gellir priodoli tua 1,500 o farwolaethau i alcohol bob blwyddyn (1 mewn 20 o bob marwolaeth). Mae defnydd alcohol wedi gostwng ychydig ledled Cymru ac mae oedolion dan 45 oed yn awr yn yfed llai. Er bod y gostyngiad hwn yn newydd da, mae'n cuddio yfed cyson neu uwch mewn pobl dros 45 oed.

Dywedodd 40% o oedolion ledled Gwent eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos flaenorol, yn cynnwys 25% a ddywedodd eu bod yn yfed mwy na dwywaith y canllawiau dyddiol (a elwir weithiau yn oryfed mewn pyliau) - mae hyn yn fras debyg i ddata ledled Cymru. Eto mae amrywiad ar draws Gwent gyda 46% o oedolion yn Sir Fynwy a 35% yn Nhorfaen yn yfed mwy na'r canllawiau.



## Camddefnyddio Sylweddau

Dywedodd data triniaeth Gwent ar gyfer 2012/13 y cafodd 1,746 o oedolion eu hasesu am gamddefnyddio cyffuriau. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru astudiaeth cipio/ail-gipio a gynlluniwyd i roi amcangyfrif o fynychder defnydd problematig o gyffuriau (chwistrellu cyffuriau neu ddefnydd maith neu reolaidd o heroin, opioidau eraill, cocên a chrac cocên). Amcangyfrifir fod y gyfradd mynychder yn 1% o'r boblogaeth. Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol 2012 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Gwent (h.y. 468,281 o rai dros 1 oed), mae hyn yn gyfartal â rhwng 4,682-5,151 o ddefnyddwyr cyffuriau problematig. Caiff mwy o wybodaeth ei chynnwys yn Asesiad Anghenion Bwrdd Cynllun Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent a gynhwysir yn yr atodiad.

## Bwyta iach, gweithgaredd corfforol a phwysau

Mae diet iach a chytbwys yn elfen hanfodol mewn byw'n iach. Mae diet cytbwys ynghyd â gweithgaredd corfforol yn helpu i reoleiddio pwysau'r corff ac yn cyfrannu at iechyd da. Mae cadw pwysau corff iach hefyd yn gostwng y risg o broblemau iechyd fel diabetes, afiechyd coronog y galon, strôc a rhai canserau. Mae gweithgaredd corfforol rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg gweithgaredd corfforol ymysg prif achosion salwch y meddir ei osgoi a marwolaeth gynamserol.

Ar draws Gwent dywedodd 29% o oedolion eu bod yn cyflawni'r canllawiau o fwyta pump neu fwy dogn o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol - mae hyn yn is na ffigur Cymru o 32%. Amrywiodd y ffigur hwn o 26% yng Nghaerffili a Blaenau Gwent i 35% yn Sir Fynwy. Yng Nghymru cafodd 59% o oedolion eu dosbarthu fel bod dros eu pwysau neu'n ordew. Mae amrywiad sylweddol ar draws ardal Gwent gyda 53% dros eu pwysau neu'n ordew yn Sir Fynwy a 63% yng Nghaerffili - gyda ffigur cyffredinol ledled Gwent o 61%.

Ar draws Cymru dywedodd 58% o oedolion eu bod yn gorfforol weithgar (yn gwneud o leiaf 150 munud o weithgaredd corfforol dwysedd cymedrol mewn blociau o 10 munud neu fwy yn yr wythnos flaenorol) a dywedodd 30% eu bod yn anweithgar (gweithgar am lai na 30 munud yr wythnos flaenorol). Yng Nghymru mae'r ffigurau hyn yn 55% 34% - yn dangos fod pobl yn llai gweithgar ledled Gwent.



## Beth ydym ni'n ei wneud?

**Mae cyfranogiad economaidd a chymdeithasol llawn pobl anabl yn hanfodol wrth greu economi craff, cynaliadwy a chynhwysol.** Mae mynediad i wasanaethau a chefnogaeth i gynnal byw annibynnol yn hanfodol yn cynnwys argaeledd gwasanaethau cludiant yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae **cysylltwyr cymunedol a rhagnodwyr cymdeithasol** yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ardaloedd lleol i helpu pobl i gysylltu gyda'u cymuned, cael mynediad i gefnogaeth a hyrwyddo llesiant. Mae cefnogaeth i alluogi pobl i gadw cyflogaeth tra'n byw gyda salwch neu anabledd (meddyliol neu gorfforol) yn fater allweddol ac mae cyfeirio at wasanaethau cefnogaeth yn datblygu ar draws y rhanbarth.

Mae ystod eang o raglenni ar gael ar gyfer pobl i fod â ffyrdd iach o fyw yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer: camddefnyddio alcohol a sylweddau, rhoi'r gorau i ysmegu a rheoli pwysau yn cynnwys gweithgaredd corfforol a bwyta'n iach - caiff llawer o gynlluniau eu cyflwyno gan **Gymdeithasau Tai** a'r trydydd sector. Mae **Ysgolion Iach** yn gynllun sy'n datblygu dull ysgol gyfan o fewn fframwaith cenedlaethol cyffredin. Mae cynlluniau Ysgolion Iach lleol yn annog ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn cymryd rhan wrth gynllunio a gweithredu ac mae'r enghreifftiau'n cynnwys disgyblion yn rhedeg siopau gwerthu ffrwythau yn yr ysgol, cynlluniau cyfeillio maes chwarae a grwpiau gweithredu maeth ysgol. Mae'r camau a gymerir gan ysgolion sy'n hybu iechyd yn dibynnu ar yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddymuno a'i angen a ddaw i'r amlwg drwy'r broses ymgynghori, ac mae disgyblion yn ganolog wrth gynllunio a chyflenwi'r camau hynny.

### Astudioeth Achos: Y Trydydd Sector a Phum Ffordd i Lesiant

Nod Rhwydwaith Ffyrdd i Lesiant Gwent yw cefnogi gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo a diogelu iechyd a llesiant meddwl y boblogaeth. Mae'r Pum Ffordd i Lesiant yn gyfwerth llesiant o 'pum dogn o ffrwythau a llysiâu'r dydd'. Mae **Hyrwyddwyr Iechyd y Gymuned** yn bobl a all yn wirioneddol wneud gwahaniaeth i fywydau eu ffrindiau, teulu cymdogion a chydweithwyr drwy drosglwyddo gwybodaeth a'u hysbrydoli i gymryd camau i ofalu am eu hiechyd; ac yng Ngwent mae'r trydydd sector yn allweddol i ddarpariaeth y rhaglen.

Gwyddom fod byw mewn cartref hygyrch yn gwella annibyniaeth person, yn gostwng costau addasu tai ac yn gostwng nifer derbyniadau i gyfleusterau gofal preswyl. Mae **Gofal a Thrwsio** yn darparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i bobl hŷn ac anabl agored i niwed sy'n dymuno gwneud gwaith trwsio, gwella neu addasu i'w cartrefi er mwyn eu galluogi i aros yno'n annibynnol a diogel cyhyd ag y dymunant.

Mae'r **Gronfa Gofal Canolraddol** yn gyfanswm o £60m ar draws Cymru a chaiff ei defnyddio i gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartref eu hunain. Mae'r gronfa yn helpu byrddau iechyd a phartneriaid mewn awdurdodau lleol, y sector tai a'r sector gwirfoddol ac annibynnol i gydweithio i gefnogi: pobl eiddil a hŷn, rhai gydag anabledd dysgu neu angen cymhleth a rhai gydag awtistiaeth. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn helpu i osgoi pobl rhag gorfod mynd i ysbyty neu ofal preswyl yn ddiangen ac oedi pan fydd rhywun i gael ei rhyddhau o ysbyty.

Mae **Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent** yn bartneriaeth ranbarthol sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i awdurdodau cyfrifol er mwyn cynllunio, comisiynu a monitro darpariaeth gwasanaethau triniaeth ac atal ansawdd uchel sy'n seiliedig ar anghenion camddefnyddwyr sylweddau, teuluoedd a chymunedau. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar hyn o bryd yn gweithredu cyllideb Cronfa Weithredu Camddefnyddio Sylweddau rhanbarthol ar ran y 5 awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cyffuriau, alcohol a chymorth teulu i oedolion a phobl ifanc o fewn y rhanbarth.

## Astudiaeth Achos - Byw'n Dda Byw'n Hirach

Rhaglen Byw'n Dda Byw'n Hirach Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r cyntaf o'i bath yng Nghymru a bydd yn dechrau ym **Mlaenau Gwent** i ddynodi'r rhai sydd yn y risg mwyaf o ddatblygu afiechyd cardiofasgwlaidd a'u gwahodd am wiriad iechyd byr mewn lleoliadau ar draws y fwrdeistref. Mae gan ddynion ym Mlaenau Gwent ddisgwyliad bywyd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr yn ôl ystadegau swyddogol.

**“Rydym yr angen yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n rhwydd ei deall fel ein bod yn gwybod pa mor dda neu wael yw hi i ni.”**

*Aelod 50+*

### Beth fyddwn yn ei wneud:

- Parhau i ddatblygu gwefan DEWIS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl.

## Camau gweithredu a'r camau nesaf

### Ataliaeth ac Ymyriad cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:

- Parhau i ddarparu **gwybodaeth, cyngor a chymorth iechyd cyhoeddus** da yn arbennig drwy 5 ffordd i lesiant a chefnogi pobl i arwain a chadw ffordd iach o fyw, a chefnogi pobl i 'hunan-reoli' eu salwch neu anabledd a chael mwy o reolaeth dros eu bywyd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu gwefan DEWIS.
- Sicrhau y caiff gwasanaeth cysylltwyr cymunedol a rhagnodwyr cymdeithasol ei ddarparu'n gyson ar draws y rhanbarth i gymryd rhan lawn yn eu cymuned leol i atal arwahanrwydd cymdeithasol/unigrwydd; a lle'n briodol gynnal cyflogaeth a chael mynediad i fudd-daliadau priodol.

### Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Gweithredu **strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref'** i gefnogi teuluoedd ac unigolion i alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, ac i atal angen ac argyfwng rhag gwaethygu.

- Ymchwilio cyfleoedd cyd-gomisiynu rhwng y **Gronfa Gofal Canolraddol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r rhaglen Cefnogi Pobl** i gynyddu galluedd o fewn y gymuned.
- Bydd y rhanbarth yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu yn y Rhaglen Comisiynu Cydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Lleoliadau Cartrefi Gofal Preswyl ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu a Phobl gyda Phroblemau Iechyd Meddwl (dan 65).

### **Cysylltiadau i strategaethau allweddol:**

- Asesiadau Llesiant Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol
- Strategaeth Ranbarthol Iechyd Meddwl a Dysgu

### **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- Gweithredu strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref'
- Alinio gyda'r 5 Asesiad Llesiant Lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymchwilio cynllunio gweithredu ar gyfer cyd ar gyfer penderfynyddion ehangach iechyd

# Pobl gydag Anableddau Dysgu ac Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig


Caiff proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y 5 Asesiad Llesiant. Cynhwysir demograffeg gryno yn adran 1 yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys yr amcanestyniad poblogaeth ar gyfer y rhanbarth.

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio matrices blaenoriaethu ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghori yw:**

1. Cefnogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol gyda mynediad i wasanaethau ymyriad cynnar yn y gymuned a mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o anghenion pobl gydag anableddau dysgu.
2. Rhoi diagnosis mwy amserol o Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig a mynediad i wasanaethau cymorth a gwybodaeth a chyngor.

## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?

Caiff dadansoddiad sefyllfa cynhwysfawr ei gynnwys yn yr atodiad ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siart(iau) islaw.



Mae ffigur LD1 yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 65 oed neu hŷn fydd ag anabledd dysgu dros y cyfnod 2013 i 2035. Rhagwelir y bydd pob ardal awdurdod lleol ar draws y rhanbarth yn gweld cynnydd yn y nifer. Mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 35.4% ym Mlaenau Gwent i 54.5% yn Sir Fynwy.

# Beth ydym yn ei wybod? Anableddau Dysgu

Amcangyfrifir fod 2 i 3% o'r boblogaeth yn byw gydag anabledd dysgu ac mae'r Adran Iechyd yn diffinio 'anabledd dysgu' fel 'gallu sylweddol is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, i ddysgu sgiliau newydd' a 'llai o allu i ymdopi'n annibynnol sy'n dechrau cyn bywyd fel oedolyn gydag effeithiau parhaus ar ddatblygiad' (Valuing People, 2001).


## **Anabledd Dysgu - Ffeithiau a Ffigurau (Anabledd yn y Deyrnas Unedig 2016):**

- Mae anabledd dysgu ar tua 1.5 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig. Mae anabledd dysgu gan dros 1 miliwn o oedolion dros 20 oed a thros 410,000 o blant hyd at 19 oed.
- Mae 29,000 o oedolion gydag anabledd dysgu yn byw gyda rhieni 70 oed neu drosodd, llawer ohonynt yn rhy hen neu eiddil i barhau yn eu rôl gofalu. Dim ond mewn 25% o'r achosion hyn mae tai amgen a gynlluniwyd gan awdurdod lleol.
- Mae llai na 20% o bobl gydag anabledd dysgu yn gweithio, ond mae o leiaf 65% o bobl sydd ag anabledd dysgu eisiau gweithio. O'r bobl hynny gydag anabledd dysgu sydd eisiau gweithio, mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n rhan-amser ac ar gyflog isel.
- Mae pobl gydag anabledd dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw dan 50 oed na phobl eraill ac mae 4 gwaith cynifer o bobl gydag anabledd dysgu yn marw o achosion y medrid eu hatal o gymharu â phobl yn y boblogaeth gyffredinol.
- Mae pobl gydag anabledd dysgu 10 gwaith yn fwy tebygol o fod â phroblemau difrifol ar eu golwg ac mae angen i 6 allan o 10 o bobl gydag anabledd dysgu wisgo sbectol.

## **Gall anabledd dysgu fod yn ysgafn, canolig neu ddifrifol:**

- Anableddau dysgu ysgafn - gall y rhan fwyaf o bobl fyw bywyd arferol ond gallant fod angen cymorth i drin sefyllfaoedd anodd.
- Anableddau dysgu cymedrol - mae pobl yn gyffredinol yn ymdopi gyda thasgau sylfaenol bywyd ond fel arfer mae gweithgareddau mwy cymhleth, megis defnyddio arian, angen cefnogaeth o fewn amgylchedd preswyl arbennig.
- Anableddau dysgu difrifol - gall pobl ofalu amdanynt eu hunain gyda goruchwyliaeth gofalus.
- Mae gan y rhai sydd â diagnosis o anableddau dysgu dybryd a lluosog fwy nag un anabledd, gydag anawsterau dysgu'r prif anabledd. Maent yn debygol o gael anhawster wrth gyfathrebu, bod ag anhwylderau iechyd meddwl ac angen cefnogaeth gofawyr i gynorthwyo gyda swyddogaethau dyddiol megis ymolchi, gwisgo a bwyta.

Gall rhai pobl gydag anabledd dysgu ysgafn gyfathrebu'n rhwydd ond mae'n cymryd ychydig mwy nag arfer i ddysgu sgiliau newydd. Efallai nad yw eraill yn gallu cyfathrebu o gwbl a bod ganddynt fwy nag un anabledd. Nid yw anabledd dysgu yr un fath ag anhawster dysgu neu salwch meddwl. Mae rhai plant gydag anableddau dysgu yn tyfu i fod yn eithaf annibynnol, tra bod eraill angen help gyda thasgau bob dydd megis ymolchi neu wisgo amdanynt. Defnyddir diagnosis o anabledd dysgu dybryd a lluosog pan fo gan blentyn fwy nag un anabledd, gydag anabledd dysgu y mwyaf sylweddol. Bydd gan lawer o blant gyda diagnosis o anableddau dysgu dybryd a lluosog hefyd anabledd synhwyaidd neu gorfforol, anghenion iechyd cymhleth neu anawsterau iechyd meddwl a byddant angen gofalwr i'w helpu gyda'r rhan fwyaf o feysydd o fywyd bob dydd, megis bwyta, ymolchi ac yn y blaen.



Mae'r ffigur hwn yn dangos y nifer o bobl 18+ oed y rhagwelir y bydd ganddynt Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) dros y cyfnod 2013 i 2035. Ar draws awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent, ac eithrio Blaenau Gwent, rhagwelir y bydd pob ardal awdurdod lleol yn gweld cynnydd yn y nifer. Ar draws gweddill yr ardaloedd awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent, mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 2.1% yn sir Fynwy i 17.7% yng Nghasnewydd.

## Beth ydym yn ei wybod? Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASD)

Diffinnir anhwylderau ar y sbectrwm awtistig fel anawsterau parhaus gyda chyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol a phatrymau cyfyngedig ac ailadroddus o ymddygiad, gweithgaredd neu ddiddordebau a fu'n bresennol ers plentyndod cynnar, i'r graddau fod y rhain yn cyfyngu ac yn amharu ar weithredu bob dydd. (Diagnostic and Statistical Manual, pumed rhifyn).

## Ffeithiau a Ffigurau

- Amcangyfrifir fod Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) ar 1 ym mhob 100 o bobl yn y Deyrnas Unedig.
- Mae ASD yn gyflwr gydol oes ac yn effeithio ar bobl o bob cefndir.
- Mae gan bob unigolyn gydag ASD amhariadau yn yr un tri phrif faes (i) rhyngweithio cymdeithasol (ii) dychymyg cymdeithasol (iii) cyfathrebu cymdeithasol, ond mae amhariad synhwyraidd a materion iechyd meddwl hefyd yn ffactorau.
- Nid yw llawer o bobl gydag ASD wedi cael diagnosis, ac felly efallai nad ydynt yn sylweddoli fod y cyflwr arnynt. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer oedolion.



Mae awtistiaeth yn gyflwr gydol oes nad yw naill ai'n anabledd dysgu na'n broblem iechyd meddwl. Mae'n hanfodol cynyddu cyfraddau diagnosis, a bod cynllunio a hyfforddiant effeithlon ar gael i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector ac aelodau'r cyhoedd. Bydd diagnosis cynnar o ASD yn galluogi rhieni i ddeall anghenion eu plentyn a cheisio cefnogaeth briodol yn eu rôl gofalu. Ni chaiff llawer o bobl gydag awtistiaeth eu dynodi neu ei diagnosisio yn ystod plentynod ond gallant gael eu helpu drwy gael mynediad i wasanaethau asesu fel oedolion. Bydd gan blant, pobl ifanc ac oedolion gydag awtistiaeth a'u gofawyr wahanol anghenion cymorth yn dibynnu ar eu hoedran a'u gallu. Gall oedolion gydag awtistiaeth brofi pryder ac arwahanrwydd cymdeithasol, cael anawsterau mewn addysg, problemau yn canfod/cynnal cyflogaeth ac anawsterau yn sefydlu/cynnal perthynas gymdeithasol/cyfeillgarwch.

Bydd diagnosis cynnar o ASD yn galluogi rhieni i ddeall anghenion eu plentyn a cheisio cefnogaeth briodol yn eu rôl ofalu. Ni chaiff llawer o bobl gydag awtistiaeth eu dynodi neu eu diagnosisio yn ystod plentynod ond gallant gael eu helpu drwy gael mynediad i wasanaethau asesu fel oedolion. Bydd gan blant, pobl ifanc ac oedolion gydag awtistiaeth a'u gofawyr wahanol anghenion cymorth, yn dibynnu ar eu hoedran a'u gallu. Gall oedolion gydag awtistiaeth brofi pryder ac arwahanrwydd cymdeithasol, cael anawsterau mewn addysg, problemau wrth ganfod/cadw cyflogaeth ac anawsterau wrth sefydlu/cynnal perthynas gymdeithasol/cyfeillgarwch.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu rhanbarthol yn goruchwyllo darpariaeth Strategaeth Gwent ar gyfer Oedolion gydag Anabledd Dysgu 2012/17 (mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd). Diben y strategaeth yw rhoi cyfeiriad strategol clir parthed cynllunio a darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu sy'n byw o fewn neu a gaiff wasanaethau wedi eu comisiynu ar draws y rhanbarth. Mae'n disgrifio'r egwyddorion craidd sy'n sylfaenol i ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu sy'n byw o fewn neu sy'n cael gwasanaethau wedi eu comisiynu ar draws y rhanbarth. Mae'n disgrifio'r egwyddorion creiddiol sy'n sylfaenol i ddarpariaeth gwasanaeth ac yn amlinellu'r materion allweddol sydd angen eu trin i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel, diogel ac effeithlon o ran cost.

### **Amcanion y strategaeth ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu yw:**

- Cael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywyd.
- Cael dewis am sut y treuliant eu hamser a lle maent yn byw a gyda phwy y maent yn byw.
- Cael gwell canlyniadau iechyd a mynediad addas i ofal iechyd.
- Pontio'n esmwyth, wedi ei gynllunio ac effeithlon o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- Derbyng cefnogaeth amserol a phriodol ar gyfer teuluoedd/gofawyr pobl gydag anabledd dysgu.
- Derbyng cefnogaeth ac ymyriadau rhagweithiol sy'n hyrwyddo llesiant cymdeithasol ac emosiynol.
- Cael mynediad i'r ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol priodol mewn modd amserol.
- Derbyng gwasanaeth diogel a phrydlon sydd wedi'i gydlynw a chefnogaeth addas i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Derbyng gwybodaeth glir am wasanaethau anabledd dysgu cyffredinol ac arbenigol.

Mae'r **Timau Cefnogi Pobl** ar draws y rhanbarth wedi mapio gwasanaethau a chymorth cymunedol yn drylwyr. Mae Cefnogi Pobl hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i bobl gydag anabledd dysgu drwy'r Cynllun Cefnogi pobl rhanbarthol. Mae'r **Rhaglen Mewn Un Lle** yn rhaglen ar y cyd a lansiwyd yn 2014 i wella darpariaeth lleu i rai gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth o fewn ardal Gwent. Mae'r Rhaglen Mewn Un Lle yn dod â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y pum awdurdod lleol ac wyth cymdeithas tai ynghyd.

## Astudiaethau Achos:

Mae **Torfaen** wrthi'n datblygu strategaeth leol ar Anabledd Dysgu i ddatblygu ffyrdd i atal yr angen am ofal tymor hwy, mwy o ymgyfraniad oedolion ym mhob agwedd o ofal a chymorth, modelau gofal hyblyg, personol ac amgen a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

Mae **Pobl Caerffili yn Gyntaf** wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion drwy'r Bwrdd Diogelu Oedolion ac wedi datblygu rhaglen hyfforddiant benodol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, a hefyd wedi dynodi pobl gydag anableddau dysgu i hyfforddi fel hyrwyddwyr a chyflwyno hyfforddiant diogelu ymysg eu cymheiriaid.

## Awtistiaeth

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gymryd ymagwedd genedlaethol at awtistiaeth, gan gyhoeddi Cynllun Gweithredol Strategol yn 2008 i ddechrau. Adnewyddodd Llywodraeth Cymru y cynllun ym mis Tachwedd 2016 ac mae'n nodi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithlon ar gyfer oedolion a phlant gydag awtistiaeth.

### **Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig yn nodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, yn seiliedig ar yr hyn a amlygwyd:**

- Mynediad amserol i asesiad a diagnosis - sefydlwyd llwybr asesu safonol gydag amser aros newydd o 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf. Bydd hefyd welliannau i wasanaethau diagnostig oedolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Genedlaethol.
- Cefnogaeth i oresgyn rhwystrau bob dydd mewn addysg/hyfforddiant, cyflogaeth a chael mynediad i wasanaethau.
- Dynodi bylchau mewn gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant. Ar draws y rhanbarth bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol yn adeiladu ar y rhaglen 'Dysgu gydag Awtistiaeth' ar gyfer ysgolion cynradd ac yn datblygu adnoddau newydd ar gyfer gosodiadau addysg. Bydd hefyd ffoecs ar hyfforddiant ar gyfer swyddogion gofal sylfaenol ac iechyd meddwl, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau hamdden a chyflogwyr yn gyffredinol.

Dywedodd strategaeth annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol Cenedlaethol ar Awtistiaeth a gynhaliwyd yn 2012 y cafodd y strategaeth effaith gadarnhaol ar bobl a theuluoedd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Bu cynnydd mewn cyfraddau dynodi yn ogystal â chyfraddau uwch o ddiagnosis. Bu hefyd gefnogaeth well ar gyfer plant a phobl ifanc mewn addysg, yn ogystal â gwelliant mewn gwasanaeth pontio.

**“Rydym eisiau byw yn ein cartrefi ein hunain a themlo fod gennym lais ac eisiau mwy o sgysiau wyneb i wyneb.”**

*Aelod Mynediad i Bawb*

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud:**

- **Sicrhau y caiff y gweithlu a'u hyfforddi a bod ganddynt sgiliau i gynnal sgysiau 'beth sydd bwysicaf'.**

# Gweithredu a chamau nesaf

## **Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:**

- Parhau i gynyddu proffil ac ymwybyddiaeth o ASD a hyrwyddo defnydd deunydd sydd ar gael drwy wefan genedlaethol ASD [www.asdinfowales.co.uk](http://www.asdinfowales.co.uk). Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer pobl gydag awtistiaeth, teuluoedd, gofawyr a gweithwyr proffesiynol. Cafodd ansawdd yr adnoddau cenedlaethol ei gydnabod yn rhyngwladol ac mae nifer o wledydd wedi cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r deunyddiau.
- Alinio darpariaeth Cefnogi Pobl gyda chysylltwyr cymunedol lleol i sicrhau fod pobl yn gwybod am wasanaethau cymorth ac yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth gymunedol.

## **Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

- Adolygu'r strategaeth gyfredol ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu gyda phwyslais ar gynllunio integredig i wella canlyniadau, darparu gwasanaeth integredig a gostwng diffyg cydraddoldeb ar draws y bwrdeistrefi a blaenoriaethau comisiynu ar y cyd i fod yn sylfaen wrth gomisiynu gwasanaethau.
- Datblygu grŵp cydlynu ac arweinydd ASD lleol i oruchwylio datblygu gwasanaethau gwell a chysylltiad i gydlynedd ASD cenedlaethol.
- Cefnogi a gweithredu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd. Ers mis Ebrill 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido datblygu timau arbenigol newydd ym mhob rhanbarth, gan ddarparu gwasanaethau diagnostig i oedolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi'r gwelliannau yng ngwasanaethau diagnosis, triniaeth a chymorth plant drwy'r rhaglen 'Law yn Llaw ar gyfer Plant a Phobl Ifanc'. Bydd y gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth a chyngor ehangach i blant ac oedolion, yn ogystal â'u teuluoedd neu ofalwyr. Bydd hefyd yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol.
- Ymchwilio cyfleoedd comisiynu ar y cyd rhwng y Gronfa Gofal Canolraddol a'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu i gynyddu galluedd o fewn y gymuned yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o ASD a buddsoddi mewn mwy o ddeunyddiau adnodd i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a darparu adnoddau hyfforddiant ar draws grwpiau proffesiynol.
- Bydd y rhanbarth yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu yn y Rhaglen Cyd-gomisiynu Integredig Iechyd a Gofal Iechyd a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Lleoliadau Cartrefi Gofal Preswyl ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu a Phobl gyda Phroblemau Iechyd Meddwl (dan 65).

## **Cysylltiadau i strategaethau allweddol:**

- Cynllun rhanbarthol Cefnogi Pobl.
- Cynllun Gweithredu Strategol Cenedlaethol ar Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.

## **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- Cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu i adolygu Strategaeth Gwent ar gyfer Oedolion gydag Anabledd Dysgu 2012/17 a gosod camau gweithredu allweddol ar gyfer comisiynu ac integreiddio rhanbarthol.
- Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol Cymru yn lleol yn cynnwys datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd.

# Iechyd Meddwl

Caiff proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y 5 Asesiad Llesiant. Cynhwysir demograffeg gryno yn adran I yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys yr amcanestyniad poblogaeth ar gyfer y rhanbarth. Ar gyfer dibenion yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma, caiff plant a phobl ifanc eu cyfrif fel bod hyd at 18 oed ac yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth.

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrices blaenoriaethu, ac a gadarnhawyd wedyn drwy ymgynghoriad yw:**

1. Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymysg y cyhoedd i ostwng stigma a helpu pobl i geisio cefnogaeth yn gynharach.
2. Gwella llesiant emosiynol ac iechyd meddwl oedolion a phlant drwy ymyriad cynnar a chefnogaeth y gymuned.


## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?

Cynhwysir dadansoddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa yn yr atodiad, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siart(iau) islaw.



Mae ffigur MHI yn dangos y canran o bobl 16 oed neu iau heb anhwylder iechyd cyffredin yn 2013-2014. Mae'r canran yn amrywio o 66% ym Mlaenau Gwent i 78% yn Sir Fynwy. Mae hyn yn cymharu gyda 72% o bobl 16 oed neu iau heb anhwylder meddwl cyffredin ar gyfer Gwent a 74% ar gyfer Cymru.

Mae ffigur MH3 yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 5-15 oed gyda phroblem iechyd meddwl dros y cyfnod 2013 i 2035. Ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent rhagwelir y bydd cynnydd o 0.4% yn Nhorfaen a 16.6% yng Nghasnewydd yn nifer y bobl 5-15 oed gyda phroblem iechyd meddwl. Rhagwelir y bydd yr ardaloedd awdurdodau lleol eraill i gyd yn gweld gostyngiadau dros yr un cyfnod.



## Ffeithiau a ffigurau ar gyfer iechyd meddwl a salwch meddwl ar draws Cymru (Llywodraeth Cymru)

- Mae 1 mewn 4 o oedolion yn profi problemau neu salwch iechyd meddwl ar ryw adeg yn eu hoes.
- Bydd 1 mewn 6 ohonom yn profi symptomau ar unrhyw un amser.
- Bydd gan 2 mewn 100 o bobl salwch meddwl difrifol megis sgitsoffrenia neu anhwylder deubegwn.
- Mae gan 1 mewn 10 o blant rhwng 5 a 15 oed broblem iechyd meddwl ac mae gan lawer mwy broblemau ymddygiad.
- Bydd gan tua 50% o bobl a aiff ymlaen i fod â phroblemau iechyd meddwl difrifol symptomau erbyn y maent yn 14 oed a llawer ar oedran llawer iau.
- Mae rhwng 1 mewn 10 a 1 mewn 15 o famau ifanc yn profi iselder ôl-enedigol.
- Bydd dementia yn effeithio ar 1 mewn 15 o bobl dros 65 oed ac 1 mewn 6 dros 80 oed.
- Mae gan 9 mewn 10 carcharor broblem iechyd meddwl y medrir ei diagnosisio a/neu broblem camddefnyddio sylweddau.

## Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae iechyd meddwl cadarnhaol yn ffactor allweddol ar gyfer iechyd da ac mae'n berthnasol i'r holl boblogaeth. Dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd yn 2007 nad oes unrhyw iechyd heb iechyd meddwl, sy'n golygu fod iechyd meddwl cyhoeddus yn ganolog i holl waith iechyd cyhoeddus. Dengys ystadegau fod gan un mewn pedwar o'r boblogaeth oedolion gyfle bywyd o brofi afiechyd meddwl. Salwch meddwl yw prif achos sengl anabledd gyda 22.8% yn cael ei briodoli i salwch meddwl, o gymharu gyda 16.2% ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd a 15.9% ar gyfer canser. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu gan 7.8% erbyn 2030 (WHO, 2008). Mae arolygon a hunan-adroddir yn dangos fod 13% o oedolion yng Nghymru yn dweud fod ganddynt salwch meddwl (Arolwg Iechyd Meddwl 2015). Gall salwch meddwl gael effeithiau lluosog ar gymdeithas yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol gwael, cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau yn ogystal â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau. Mae hefyd gostau economaidd uchel i salwch meddwl, ac amcangyfrifir fod cyfanswm cost problemau iechyd meddwl yn y Deyrnas Unedig dros £110 biliwn yn 2006/07, gan gynrychioli 7.7% o GDP. Mae gofal a thriniaeth anhwylderau meddyliol yn cyfrif am dros 10% o gyfanswm gwariant y GIG.


Dros y 4 blynedd ddiwethaf bu cynnydd o dros 100% mewn atgyfeiriadau i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Nid yw llawer o'r plant a phobl ifanc a gaiff eu hasesu wedyn angen ymyriadau arbenigol iawn, ond maent yn ychwanegu at yr amserau aros ar gyfer y plant hynny sydd angen cymorth o'r fath.

Mae **hunanladdiad** yn drychineb i bawb sy'n gysylltiedig ac yn achos gofid i lawer o bobl - yr unigolyn, teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned yn gyfrifol. Am bob person sy'n marw drwy hunanladdiad, amcangyfrifir yr effeithir yn sylweddol ac yn uniongyrchol ar o leiaf chwech arall. Gall fod effaith anuniongyrchol ar lawer o bobl eraill. Gall fod yn neilltuol o drawmatig ac anodd ymdopi â cholli rhywun drwy hunanladdiad; mae ei effeithiau yn seicolegol, ysbrydol ac economaidd. Nid oes unrhyw un rheswm pam y gall rhywun benderfynu ceisio lladd eu hunain. Caiff ei ddeall orau drwy edrych ar fywyd ac amgylchiadau pob person. Fodd bynnag, gall rhai ffactorau neu broblemau wneud hunanladdiad yn fwy tebygol. Mae hunanladdiad blaenorol yn ffactor risg allweddol. Gall salwch meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol neu fod â pherthynas agos sydd wedi marw o hunanladdiad gynyddu risg. Gall digwyddiadau bywyd fel colli eich cartref, swydd neu ddiwedd perthynas hefyd gynyddu risg hunanladdiad neu hunanladdiad.

Gall llawer o bobl feddwl am hunanladdiad oherwydd digwyddiadau gofidus: bydd tua 19 o bobl ym mhob 100 yn cael y meddyliau hyn ar ryw adeg yn eu bywydau. Dim ond nifer fach iawn o'r rhai sy'n anafu eu hunain neu sy'n meddwl am hunanladdiad fydd yn marw yn y ffordd yma mewn gwirionedd. Mae hunanladdiad tua theirgwaith yn fwy cyffredin mewn dynion na menywod. Gall hyn fod oherwydd bod dynion yn tueddu i ddefnyddio gwahanol ddulliau i'r rhai a ddefnyddir gan fenywod. Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o gael eu derbyn i ysbyty fel canlyniad i hunanladdiad. Cynyddodd nifer a chyfradd hunanladdiad yn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru rhwng 2009 a 2013. Dim ond mewn gwrywod y bu cynnydd. Mae hunanladdiad yn un o dri phrif achos marwolaeth yn y grŵp oedran mwyaf cynhyrchiol yn economaidd (15-44 oed); ac yn ystod y cyfnod 2010-2012 roedd yn cyfrif am bron un mewn pum marwolaeth mewn gwrywod 15 i 24 oed (yr ail brif achos marwolaeth yn y grŵp oedran yma) ac ychydig dros un mewn deg o farwolaethau ymysg menywod o'r oedran hwnnw. Mae rhwng 300 a 350 o bobl yn marw o hunanladdiad yng Nghymru bob blwyddyn. Mae hyn tua theirgwaith y nifer a gaiff eu lladd mewn damweiniau ffyrdd. Drwyddi draw, mae gan Went un o'r cyfraddau hunanladdiad isaf yng Nghymru - 10.3 fesul 100,00 o boblogaeth.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Nid yw ymateb i salwch meddwl yn gyfrifoldeb unrhyw un sefydliad yn unig, caiff yr her ei rhannu ar draws pob partner ac mae cydnabyddiaeth gynyddol fod y materion ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant (tai, addysg, cyflogaeth) yr un mor bwysig â diagnosis clinigol a thriniaeth. Mae gan le mae pobl yn byw effaith ar eu llesiant seicolegol, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Ar y lefel leol, mae safleoedd iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector eisoes wedi ymrwymo i weithio fel un i drin yr her.



## Datblygwyd Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu rhanbarthol i:

- Oruchwylio cyflenwi Strategaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Gwent.
- Goruchwylio cyflenwi strategaeth **'Law yn Llaw am Iechyd Meddwl'** a strategaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd perthnasol eraill megis **'Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc'**, **'Siarad gyda Fi 2'** a **'Cynllun Gweithredu Strategol ASD'**.
- Mapio gwasanaethau presennol, cynllunio a threfniadau comisiynu a threfniadau strategol ar draws sefydliadau partner.
- Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwella iechyd meddwl ac anabledd dysgu a'r defnydd gorau o adnoddau ar draws sefydliadau partner.
- Cytuno ar faterion strategol a gweithredol cydweithio yng nghyswllt iechyd meddwl ac anabledd dysgu.
- Dynodi materion cenedlaethol a lleol strategol allweddol sydd angen dull cydweithio er mwyn cynyddu'r budd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofawyr i'r eithaf.
- Cytuno ar strategaethau aml-asiantaeth a chyfraniad asiantaethau rhanddeiliaid i roi ystyriaeth i drefniadau partneriaeth eraill o fewn yr ardal ac yn genedlaethol.

Caiff cynllun cyflenwi 'Law yn Llaw am Iechyd Meddwl' ei ddatblygu a bydd yn nodi'r camau gweithredu i symud ymlaen â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r cynllun cyflenwi'n nodi'r camau gweithredu rhanbarthol mewn 11 maes blaenoriaeth a bydd yn adeiladu ar ddarpariaeth strategaeth rhanbarthol bresennol Law yn Llaw am Iechyd Meddwl yng Ngwent a De Powys 2012-2017.

## Astudiaeth Achos - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chasnewydd

**Cynhaliwyd adolygiad o gomisiynu Gwasanaethau Trydydd Sector Iechyd Meddwl Oedolion Iedled Gwent** yn ystod rhan gynnar 2016 a dynodwyd un model gwasanaeth a thendr. Mae pob Awdurdod Lleol yng Ngwent yn comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl gan y Trydydd Sector, fodd bynnag adeg y gwaith tendro dim ond Cyngor Dinas Casnewydd oedd mewn sefyllfa i gomisiynu wrth ochr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Fodd bynnag, cafodd pob un o'r pedwar awdurdod lleol yr wybodaeth ddiweddaraf a gobeithir y byddant hefyd yn alinio eu cyllid gyda'r ardaloedd darparu gwasanaeth newydd pan ddaw eu contractau i ben ym mis Mawrth 2017. Mae'r ardaloedd model gwasanaeth newydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddynodwyd drwy broses ymgynghori gyda'r cyhoedd a darparwyr. Y meysydd model gwasanaeth yw: Eiriolaeth, Cwnsela, Sgiliau, Hyfforddiant a Llesiant Cymunedol (galw heibio/canolfannau/hybiau) a gwybodaeth a chyngor).

Mae rhith-rwydwaith Pum Ffordd i Lesiant Gwent yn cynnwys dros 250 o unigolion o ystod o gyrrff statudol a thrydydd sector a hyfforddwyd ar **'Y Pum Ffordd i Lesiant'**, set o gamau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan y New Economics Foundation. Rydym yn datblygu cefnogaeth ar draws y rhanbarth i ymyrryd yn gynharach ac i grwpiau targed megis cyn-filwyr a fu yn y lluoedd arfog a all fod wedi profi trawma brwydr - bydd angen cyplysu hyn gyda help therapiwtig arbenigol i sicrhau adferiad pan ddychwelant i'w cymunedau. Dylai'r help hwn gael ei gyflwyno gan gyfuniad o sefydliadau statudol a sector gwirfoddol.

Caiff cefnogaeth ar gyfer unigolion gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau eu cynllunio a'u comisiynu ar ran ardal Gwent gan Fwrdd Cynllunio Ardal lle ymatebir i anghenion y rhai gyda phroblem iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, ac mae'n allweddol wrth beidio dyblygu ymdrechion.

## Astudiaeth Achos: Rhagnodwyr Cymdeithasol Torfaen

Caiff mwy a mwy o bwysigrwydd ei roi ar yr angen am wasanaethau cefnogaeth yn seiliedig yn y gymuned y gall pobl gael mynediad iddynt i wella lefelau isel o iechyd a llesiant meddwl. Mae Cysylltwyr Cymunedol, a gaiff eu cyllido drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol a Rhagnodwyr Cymdeithasol Torfaen sy'n seiliedig mewn meddygfeydd teulu yn helpu i gysylltu pobl gyda grwpiau lleol yn y gymuned i osgoi arwahanrwydd cymdeithasol a chadw'n iach a phrysur.

Mae adolygiadau blaenorol o CAMHS arbenigol yng Nghymru wedi dynodi fod y gwasanaeth dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen, ond nad oes ganddo'r capasiti i ateb y galw. Lansiodd **'Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc'** gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Chwefror 2015. Dan arweiniad y GIG yng Nghymru, anelwyd y rhaglen aml-asiantaeth gwella gwasanaeth at wella'r gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae pwyslais parhaus ar iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol yn hanfodol fel y gall gwasanaethau ddynodi'n gynnar lle gall fod angen ychwanegol am gefnogaeth. Mae hyn yn bwysig iawn i atal pobl ifanc rhag bod angen gwasanaethu CAHMS arbenigol. Mae **Gwasanaeth Sgiliau Byw** yng Ngwent, a gefnogir gan gyllid awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal, gan gydnabod y risgiau ychwanegol sylweddol a wynebir gan y grŵp.

## Astudiaeth Achos: Caerffili

Datblygwyd y rhaglen **'Ffordd i Lesiant'** sy'n rhoi dosbarthiadau ac adnoddau gwybodaeth seico-addysgol sydd ar gael i bawb i'w helpu i ymdopi gyda straen a gwella llesiant meddwl. Cyflwynir y rhaglen ar y cyd gyda gweithwyr iechyd meddwl Cymunedau yn Gyntaf yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd ail-gomisiynu darpariaeth trydydd sector a dyfarniad contract dilynol i gonsortwm Growing Spaces hefyd yn ymestyn y ddarpariaeth Haen Sylfaen sy'n anelu i wella iechyd a chydnerthedd meddwl.

Mae Set Dysgu Gweithgar wedi datblygu **"Ymagwedd Person Cyfan, Bywyd Cyfan at Argyfwng ac Adferiad"**. Mae elfen allweddol y model newydd yn debyg o gynnwys un pwynt mynediad 24/7; cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer ymatebwyr cyntaf; darpariaeth aciwt ar gyfer cleifion mewnol; triniaeth argyfwng, cartref a chydlynu; tai argyfwng tai lloches; teuluoedd cynnal a chefnogaeth tai a thenantiaeth. Caiff y cyfan uchod eu datblygu o fewn cyd-destun cymunedau cydnerth a gwasanaethau gyda chyfeiriad adferiad sy'n atal argyfwng.



Dechreuodd **Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA)** yn Awstralia yn 2000 gyda'r nod o gynyddu llythrennedd iechyd meddwl ymysg y gymuned gyffredinol. Syniad MHFA yw y dylid dysgu pobl sut i wneud 'cymorth cyntaf' sylfaenol ar gyfer rhai sy'n arddangos arwyddion o ofid iechyd meddwl, yn union fel mae'n gyffredin dysgu cymorth cyntaf ar gyfer problemau corfforol. Mae ar gael i gynyddu gwybodaeth, gostwng stigma a chynyddu ymatebion cefnogol yn nhermau iechyd meddwl. Mae cyrsiau addysgol MHFA ar gael yng Ngwent ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno helpu i ddynodi, deall a helpu person a all fod yn datblygu problem iechyd meddwl. Mae'n addysgu pobl sut i adnabod arwyddion a symptomau materion iechyd meddwl cyffredin, rhoi help ar sail cymorth cyntaf a llywio rhywun yn effeithlon tuag at y gefnogaeth gywir.

**“Rwy’n gweld llawer o ddisgyblion yn fy ysgol gyda phroblemau gyda hunan-ddelwedd a hunanbarch ac rydym angen mwy o gefnogaeth yn ein cymunedau lleol .”**

*Pennaeth ysgol*

## **Beth fyddwn yn ei wneud: Ymchwilio sut y gellir cyflwyno hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl leuenticid ar draws y gweithlu plant.**

Yng Nghymru, 'Beth am Siarad â Fi' yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niwed (2015/20) ac mae'n cynnwys mesurau i ddatblygu cydnerthedd unigol ar draws cwrs bywyd ac adeiladu cydnerthedd y boblogaeth a chysylltedd cymdeithasol o fewn cymunedau. Nod y cynllun gweithredu pum mlynedd yma yw codi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunananaf a helpu pobl i ddeall y gellir ei atal yn aml.

### **Anelwyd y cynllun yn bennaf at bobl sydd yn y risg uchaf. Mae ganddo chwe amcan:**

- 1.** Cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o hunanladdiad a hunananaf, unigolion sy'n aml yn dod i gysylltiad gyda phobl sydd mewn risg o hunanladdiad a hunananaf a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru.
- 2.** Darparu ymatebion priodol i argyfyngau personol, ymyriad cynnar a rheoli hunanladdiad a hunananaf.
- 3.** Gwybodaeth a chefnogaeth i rai mewn profedigaeth neu y mae hunanladdiad a hunananaf wedi effeithio arnynt.
- 4.** Cefnogi'r cyfryngau mewn adroddiadau cyfrifol a phortredu hunanladdiad ac ymddygiad cysylltiedig â hunanladdiad.
- 5.** Gostwng mynediad i ddulliau hunanladdiad.
- 6.** Parhau i hyrwyddo a chefnogi systemau dysgu, gwybodaeth a monitro ac ymchwilio i wella ein dealltwriaeth o hunanladdiad a hunananaf yng Nghymru a llywio gweithredu.

# Gweithredoedd a chamau nesaf

## **Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:**

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r model Cysylltwyr Cymunedol a Rhagnodwyr Cymdeithasol ar draws y rhanbarth a sicrhau dull rhanbarthol cyson o weithredu gyda **'Cynllun Cyflenwi Gyda'n Gilydd am Iechyd Meddwl'**. Yn allwedd i hyn fydd cysylltu drwy fodel 'Gofal yn Nes at y Cartref' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a dull gweithredu seiliedig ar le. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y 'Pum Ffordd i Lesiant' ac yn sicrhau y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir eu darparu drwy ein gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a DEWIS.

## **Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

- Caiff gofynion rhanbarthol am wasanaethau a gomisiynwyd eu dynodi drwy'r **'Cynllun Cyflenwi Gyda'n Gilydd am Iechyd Meddwl'**. Byddwn hefyd yn ystyried nifer o adolygiadau ar draws ardal Gwent a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Iechyd Cymru.
- Caiff y Gronfa Gofal Canolraddol hefyd ei hail-alinio i gefnogi'r agenda ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn ogystal ag alinio gyda chyllid presennol arall, megis Cefnogi Pobl, i gynyddu adnoddau.
- Byddwn hefyd yn defnyddio 'Gofal yn Nes at y Cartref' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynllun Integredig Tymor Canol i gydlynu gwasanaethau cefnogaeth gymunedol i sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu.
- Mae Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol wrthi'n adolygu cyfraniadau'r trydydd sector ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd yr adolygiad yn ystyried y gefnogaeth gymunedol sydd ei hangen i gefnogi'r agenda iechyd meddwl megis cyfeillachu.
- Bydd y rhanbarth yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu yn Rhaglen Gomisiynu Gydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Lleoliad Cartref Gofal Preswyl ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu a Phobl gyda Phroblemau Iechyd Meddwl (dan 65 oed).

## **Cysylltiadau i strategaethau allweddol:**

- Llywodraeth Cymru (2012) Law yn Llaw am Iechyd Meddwl - Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru <http://gov.wales/docs/dhss/publications/121031tmhfinalen.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2015) Beth am Siarad â Fi - Strategaeth Hunanladdiad a Hunananaf i Gymru 2015-2020 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150716strategyen.pdf>
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cyflenwi Law yn Llaw am Iechyd Meddwl
- Law yn Llaw am Iechyd Meddwl Gwent
- Cynllun Tymor Canol Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- Adolygu ac alinio strategaethau rhanbarthol gyda chynllun cyflenwi Gyda'n Gilydd dros Iechyd Meddwl
- Cydlynu gwasanaethau cymunedol cyson megis cysylltwyr cymunedol/rhagnodwyr cymdeithasol
- Modelau aml-asiantaeth seiliedig ar le sy'n cynnwys partneriaid ehangach fel cymdeithasau tai, cefnogi cyflogaeth a rhaglenni cymunedol
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir drwy DEWIS a Phum Ffordd i Lesiant

# Nam ar y Synhwyr


Caiff proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y 5 Asesiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffeg gryno yn adran I yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys yr amcanestyniad poblogaeth ar gyfer y rhanbarth. Ar gyfer diben yr Asesiad mae nam ar y synhwyr yn cyfeirio at bobl gydag un ai nam ar y golwg neu'r clyw neu'r ddau - bydd maint y namau hynny yn amrywio o berson i berson.

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrices blaenoriaethu; ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**

1. Sicrhau y caiff pobl eu cefnogi drwy fynediad i wybodaeth gywir, cymorth ac 'adsefydlu' lle bo angen.
2. Gwella llesiant emosiynol yn arbennig drwy gefnogaeth tebyg-at-ei-debyg.

## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?

Mae'r atodiad yn cynnwys dadansoddiad sefyllfa cynhwysfawr, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siart(iau) islaw.



Mae'r ffigur uchod yn dangos nifer y bobl 65 oed neu hŷn gyda nam ar eu golwg dros y cyfnod 31 Mawrth 2011 i 31 Mawrth 2015. Ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent, gwelodd Sir Fynwy gynydd o 14.1% yn y nifer dros y cyfnod, o 241 ar 31 Mawrth 2011 i 273 ar 31 Mawrth 2015. Gwelodd ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill ledled rhanbarth Gwent i gyd ostyngiadau yn amrywio o 6.5% yng Nghaerffili i 27% yn Nhorfaen dros yr un cyfnod.

# Beth ydym ni'n ei wybod?

Amcangyfrifir fod 106,000 o bobl yng Nghymru yn byw â cholli golwg ac mae ffigurau bras yn awgrymu y bydd 1 yn 10 o bobl dros 5 â rhyw fath o golli golwg i wahanol raddau, 1 mewn 3 dros 80 ac 1 mewn 2 dros 90 oed. Amcangyfrifir y bydd y ffigurau yn dyblu erbyn 2050 oherwydd y ddemograffig heneiddiol a bod 75% o bob colli golwg yn digwydd mewn pobl 65 oed a throsodd. Ar hyn o bryd mae tua 3,500 o bobl yng Ngwent wedi cofrestru fel bod â nam ar eu golwg ond mae'r rhan fwyaf o'r data a gasglwyd ar nam ar y synhwyrâu yn wael oherwydd nad yw llawer o bobl gyda cholli golwg yn ymddangos ar gofrestri fel nam difrifol ar y golwg ('SSI') (yr arferid ei alw fel 'dall') neu nam ar y golwg ('SI'). Yn gyffredinol, nid yw pobl sy'n anodd eu cyrraedd yn cofrestru (dengys tystiolaeth fod pobl o rhai cefndiroedd ethnig 6 gwaith yn fwy tebygol o fod â nam ar eu golwg ond yn llai tebygol o ymgysylltu, ac mae pobl gydag anabledd dysgu 10 gwaith yn fwy tebygol o fod â nam ar eu golwg ond yn anaml y cânt ddiagnosis). Nid yw rhai pobl yn dymuno cadarnhau diagnosis ac mae rhai pobl yn dewis peidio cofrestru oherwydd eu bod yn bryderus am stigma yng nghyswllt swyddi ac yn y blaen (hefyd gall fod nifer sylweddol o bobl sydd efallai'n ofni na ddylent fod yn gyrru, ac felly nad ydynt yn mynd at yr optometrydd/meddyg teulu gan eu bod yn ofni y byddant yn colli eu trwydded). Golwg yw'r prif gyfrwng ar gyfer i'n hymennydd amsugno gwybodaeth ond bydd 43% o bobl sy'n colli eu golwg yn dioddef iselder sylweddol a gwanychol. Mae mynegeion iechyd yn dangos gostyngiad mewn canlyniadau cadarnhaol, ac effeithir yn drwm ar lesiant ar ôl diagnosis.

Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl a gofrestrodd fel SSI neu SI yn cynyddu gan fod perthynas uniongyrchol i boblogaeth gynyddol heneiddiol, fodd bynnag daeth triniaethau newydd i'r amlwg dros flynyddoedd diweddar ar gyfer rhai achosion o golli golwg sy'n gysylltiedig gydag oedran ac felly gallwn weld cyfradd arafach o gynydd neu lwyfannu'r rhai gyda cholli golwg. Derbynnir yn gyffredinol bod o leiaf 5 gwaith cynifer o bobl gyda nam ar y golwg heb ei gywiro o fewn y gymuned colli golwg nag sydd wedi 'cofrestru' ar gofrestri awdurdodau lleol. Mae'r RNIB yn amcangyfrif bod 28,000 o bobl yng Ngwent gyda cholli golwg. Mae astudiaethau cenedlaethol a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Anabledd ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn awgrymu bod gan tua 579,000 o oedolion anableddau dysgu (yn cynnwys 122,000 sy'n hysbys i'r gwasanaethau statudol) wall plygiant (golwg aneglur).

## Colli clyw

Yn nhermau colli clyw mae 'Action on Hearing Loss' yn amcangyfrif fod gan 1 mewn 6 o bobl golled clyw neu tinnitus (530,000 yng Nghymru ac 1 mewn 3 dros 80 oed). Mae colli golwg a chlyw yn gyffredin yn y boblogaeth hŷn ac mae'n debygol fod hyd at 70% o'r rhai sydd wedi colli golwg wedi colli clyw hefyd. Mae'n amlwg y bydd gan rai o'r bobl gymorth clyw sy'n effeithlon wrth leihau'r golled, er ei bod yn wir dweud nad yw cymorth clyw yn rhoi'r un lefel o gefnogaeth â, dyweder, y byddai sbectol yn ei roi i rywun oedd yn fyr ei olwg neu gyda golwg pell.

Dylai gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus fod yn hygyrch i bobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw a dylid sodro cynllun ble mae pob gwybodaeth a fwriedir ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw yn gwbl hygyrch ac felly ar gael yn laith Arwyddion Prydain ac, os yw ar ffurf fideo, fod ag isdeitlau. Dylai staff mewn Cartrefi Gofal Preswyl gael cefnogaeth i adnabod pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw a sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol. Mae gan 70% o'r rheiny dros 70 oed nam ar eu clyw ond mae tystiolaeth yn dangos bod y nifer o bobl mewn Cartrefi Gofal sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen cefnogaeth yn ymwneud a'u clyw llawer yn is, gan arwain at fod nifer o bobl yn cael eu gadael allan o weithgareddau a rhyngweithiad cymdeithasol. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar gyda chanllawiau i gartrefi gofal a ddylai gael eu gweithredu er mwyn gwella gofal. Mae'r boblogaeth hŷn gynyddol yn arwain at fwy o alw ar wasanaethau fel clywedeg ac mae tîm clywedeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan eisoes wedi gweithio'n galed gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau clyw gyda gwirfoddolwyr, sydd nawr yn cael eu darparu'n fewnol fel rhan greiddiol o ddarparu'r gwasanaeth clywedeg. Mae'r tîm yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu dyfodol y gwasanaeth gan gynnwys ystyried clywedegwyr mewn gofal cychwynnol, gan ddilyn rhaglenni peilot mewn rhannau eraill o Gymru.

Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw gael eu llunio a'u cynllunio ar y cyd gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'r trydydd sector. Dylai pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw, fel rhan o'u llwybr ar ôl cael diagnosis, neu ar adeg y cysylltiad cyntaf gyda gofal cymdeithasol, gael cynnig y cyfle i gofrestru (mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gynnig cofrestru pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw).

Mae angen gwell ymwybyddiaeth o anghenion cyfathrebu penodol pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw ar dimau sy'n cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu dementia, o ystyried y mynychder uchel a chyfraddau cyd-afiachusrwydd. Gall gefnogi gwell cyfathrebu yn y rhan fwyaf o achosion arwain at well ddeilliannau iechyd ar gyfer cyflyrau eraill a chefnogaeth mewn modd mwy grymus a hawl pobl fyddar i ymwneud â thrafodaethau call ynglŷn â'u gofal nhw'u hunain.

## **Amcangyfrifodd Action on Hearing Loss bod 105,000 o bobl ar draws Gwent gyda cholli clyw yn defnyddio ystadegau 2014 Ystadegau Cymru. Dangosodd gwybodaeth arall::**

- Mae gan dros 70% o bobl dros 70 oed a 40% o bobl dros 50 oed rhyw fath o golli clyw.
- Mae tinnitus ar tua un ym mhob 10 o oedolion yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynyddu i 25-30% o bobl dros 70 oed.
- Mae tinnitus rhai pobl mor ddifrifol fel ei fod yn cael effaith ddramatig ar eu hansawdd bywyd, gan arwain at bryder ac iselder eithafol.
- Yn aml ni all pobl gyda nam ar eu clyw gyfathrebu gyda ffrindiau a theulu, cydweithwyr a gweithwyr iechyd. Gall hyn olygu eu bod yn encilio o sefyllfaoedd cymdeithasol ac y byddant yn dod yn ynysig.
- Dengys ymchwil fod colli clyw yn dyblu'r risg o ddatblygu iselder ac yn cynyddu risg pryder a phroblemau iechyd meddwl arall.
- Mae hefyd dystiolaeth gref fod nam ysgafn ar y clyw yn dyblu'r risg o ddatblygu dementia, gyda cholled gymedrol ar y clyw yn arwain at dair gwaith y risg, a nam difrifol ar y clyw at bumed gwaith y risg.
- Mae pobl sy'n ddifrifol fyddar neu'n hollol fyddar bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'r boblogaeth yn gyffredinol. Gal pobl sy'n datblygu nam ar y clyw golli eu swydd a'i chael yn anodd cael swydd arall.

## **Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall darparu cymhorthion clyw yn amserol ostwng y risgiau hyn a gwella ansawdd bywyd.**

### **Mae adroddiadau eraill yn dangos nifer o negeseuon allweddol:**

- Yn adroddiad 'Life Support' a gyhoeddodd Action on Hearing Loss yn 2012 canfuwyd na roddir ystyriaeth i anghenion cyfathrebu yn y systemau a ddefnyddir i benderfynu cyllideb gofal cymdeithasol unigolyn mewn traean o'r awdurdodau lleol (33%) yng Nghymru. Fe wnaethant hefyd ganfod nad oedd tri-chwarter (75%) awdurdodau lleol yng Nghymru wedi rhoi rhif ffôn testun neu wasanaeth ffôn arbennig ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw. Canfu'r adroddiad hefyd nad oedd chwarter yn rhoi cefnogaeth eiriolaeth ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw.
- Defnyddiodd Action on Hearing Loss Cymru yn 2015 brofiadau pobl gyda nam ar y synhwyrau a ddefnyddiodd wasanaethau tai yng Nghymru i ddatblygu canllawiau arfer gorau sy'n argymhell y dylai gwasanaethau tai ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i staff tai, gosod a chynnal cylchoedd clywed mewn llety, ac ystyried effeithiau sŵn cefndir wrth ddyrannu tenantiaethau.
- Canfu adroddiad yn 2015 fod pobl gyda nam ar eu clyw yng Nghymru yn wynebu rhwystrau difrifol i gyflogaeth oherwydd agweddau cyflogwyr a chefnogaeth annigonol yn y gweithle. Canfu'r adroddiad hefyd nad oedd rhai staff Canolfan Gwaith yn rhoi cefnogaeth arbenigol i bobl gyda nam ar eu clyw ac na wyddent am eu hanghenion cyfathrebu.
- Yn 2013 daeth Cymru y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu canllawiau ar gyfathrebu a gwybodaeth mewn meddygfeydd teulu ac ysbytai ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl gyda nam ar eu synhwyrau. Mae hefyd wasanaethau cefnogaeth yn y trydydd sector ac mae 'Sight Cymru' yn gweithio ar draws y rhanbarth. Sefydlwyd Low Vision Service Wales (LSCW) yn 2004, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy hygrych i bobl gyda golwg gwan ar gyfer y boblogaeth yng Nghymru:

- Cyflwynir LSVW gan optometryddion, optegwyr dosbarthu ac ymarferwyr meddygol ophthalmig a gafodd hyfforddiant pellach yn arbenigo mewn golwg gwan gyda Phrifysgol Caerdydd ac a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru fel gwasanaeth gofal llygaid sylfaenol estynedig.
- Yn rhad ac am ddim ar bwynt cyswllt ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, caiff unrhyw gymhorthion golwg gwan eu darparu ar sail benthyg hirdymor a'u hailgylchu pan nad oes eu hangen mwyach.
- Mae sefydlu'r gwasanaeth wedi arwain at gynnydd yn nifer o asesiadau golwg gwan yng Nghymru. Gostyngodd amserau aros i gael mynediad i wasanaeth golwg gwan o 6 mis i 2 fis ar gyfer mwyafrif y bobl a gostyngodd amser taith ar gyfer 80% o bobl.
- Mae'r nifer o gleifion sy'n cysylltu gyda LSVW wedi cynyddu gyda 8049 o asesiadau golwg gwan yn cael eu cynnal rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2016 (Llywodraeth Cymru, 2016).
- Erbyn 2015 roedd LSVW wedi disodli'r holl wasanaethau golwg gwan gofal eilaidd yng Nghymru. Mae gan LSVW bellach 184 o ymarferwyr yn gweithio o 202 practis ledled Cymru i ddarparu'r gwasanaeth. Caiff 20% o asesiadau golwg gwan eu cynnal yng nghartref y cleifion eu hunain (Llywodraeth Cymru, 2016).
- Mae'r asesiad LSVW yn asesiad holistig lle mae'r ymarferydd yn trafod yr anawsterau y mae'r nam ar y golwg yn eu hachosi ac yn gweithio gyda'r claf i osod nodau a dynodi datrysiadau. Gall y rhain fod mewn ffurf optegol neu ffurf arall.
- Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos iawn gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sector gwirfoddol i sicrhau fod cleifion yn derbyn cefnogaeth i aros mor annibynnol ag sydd modd.
- Mae'r LSVW yn parhau i esblygu. Gwneir gwaith ar hyn o bryd i ddynodi cleifion sydd mewn risg o iselder a bydd gwaith yn y dyfodol yn edrych yn fwy agos ar ddynodi'r cleifion hynny sydd â nam ar ddau synnwyr.

***“Rwy'n teimlo'n gymaint gwell ar ôl siarad gyda rhywun a aeth drwy'r un problemau â fi.”***

*Aelod Grŵp Cefnogi Nam ar y Golwg*

**Beth fyddwn yn ei wneud:**  
**Parhau i gefnogi grwpiau tebyg-at-ei-debyg.**

## Astudiaeth achos: Sight Cymru, Blaenau Gwent

Sefydlwyd grŵp cefnogi tebyg-at-ei-debyg ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg a'u sefydlwyr yn 2014 a'i hwyluso gan Sight Cymru. Yn 2016, mynegodd rhai aelodau ddiddordeb mewn dod yn gyfrifol am y grŵp. Arweiniodd hyn at ffurfio pwyllgor o blith defnyddwyr y grŵp ac ers hynny cafodd gyfansoddiad sefydlog, agor cyfrif banc a chaiff ei gefnogi i gyrchu cyllid addas i barhau â'i waith. Roedd y symud yma tuag at hunan-gynaliadwyedd yn hollbwysig ac mae'r ymdeimlad o ddiben a roddir i aelodau grŵp drwy fedru cymryd perchnogaeth a phenderfynu ar gyfeiriad yn werthfawr tu hwnt. Un o agweddau mwyaf gwerthfawr y grŵp yw'r gefnogaeth y mae aelodau yn ei roi i'w gilydd. Enghraifft o hyn yw un fenyw hŷn yr oedd ei golwg newydd waethygu ac fel canlyniad yn profi iselder ac arwahanrwydd cymdeithasol. Cafodd ei hannog i fynychu'r grŵp a chafodd sgwrs gyda dyn iau a fu'n byw gyda nam ar ei olwg ers nifer o flynyddoedd. Arweiniodd ei agwedd gadarnhaol a'i anogaeth at i'r fenyw ddweud yn ddiweddarach wrth aelod o staff Sight Cymru ei bod yn teimlo "gymaint yn well" ar ôl siarad gyda'r dyn. Mae'r grŵp wrthi'n symud i safle mwy er mwyn darparu ar gyfer cynnydd pellach yn y niferoedd, sy'n tanlinellu faint o bobl y gellir eu cyrraedd gyda'r math o gefnogaeth anffurfiol eto hanfodol yma.

## Cynllun Gweithredu a'r Camau Nesaf

### **Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:**

- Gall pobl addasu i golli golwg a pharhau i arwain bywyd annibynnol a boddhaus. Yr allwedd i addasiad o'r fath yw digonedd o wybodaeth hygyrch ac adsefydlu effeithlon ac amserol. Datblygir DEWIS ar draws y rhanbarth i wella gwybodaeth a bydd yn cynnwys swyddogaethau i helpu pobl gyda nam ar eu synhwyrau. Medrir osgoi dros 50% o golli golwg.
- Mae cefnogaeth rhwng pobl a thebyg-at-ei-debyg ymysg pobl sy'n byw gyda nam ar eu golwg wedi profi'n llwyddiannus mewn grwpiau dan arweiniad defnyddwyr a ddatblygir ar draws y rhanbarth - gweler yr astudiaeth achos yma - a bydd angen i ddatblygiad pellach o fodelau tebyg gael ei gefnogi ar draws y rhanbarth i helpu grymuso a galluogi dinasyddion.
- Fel arfer, mae cyflyrau colli golwg yn gwaethygu ac mae pobl angen mynediad i swyddogion adsefydlu i'w helpu i addasu i'w cyflwr a byw'n ddiogel yn y cartref, a gwasanaethau ataliol eraill. Mae ymchwil yn dangos effeithiau cadarnhaol mewn golwg swyddogaethol a chydberthynas ar iechyd a llesiant meddwl gwell drwy adsefydlu ymyriad cynnar gyfer rhai â nam ar eu golwg. Gyda dim ond 1 mewn 4 o bobl gyda nam ar y golwg mewn cyflogaeth, mae sbardun economaidd i sicrhau lefelau uchel o annibyniaeth hefyd.
- Ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg, mae mynediad i sefydlu/adsefydlu arbenigol yn hollbwysig i gynyddu annibyniaeth a sicrhau ansawdd bywyd. Mae hefyd yn cael effaith fuddiol sylweddol ar y rhai sy'n byw gyda gofalu am rywun gyda nam ar eu golwg, pobl sydd mewn risg fel arall o faterion iechyd meddwl eu hunain. Mae sicrhau fod pobl yn deall eu cyflyrau golwg ac yn gallu cymryd datrysiadau clinigol a chael mynediad i wasanaethau eraill yn sylfaenol i'w gallu parhaus i ymdopi. Mae adsefydlu yn darparu adnodd alluogi swyddogaethol ar gyfer y person gyda cholli golwg a hefyd yn rhoi dealltwriaeth i ofalwyr a pherthnasau. Nid yw adsefydlu ar gyfer rhai â nam ar y golwg yn ail-alluogi sy'n golygu adferiad o anabledd a chaiff yn aml ei gyfyngu i 6 wythnos. Dylid ei weld yng nghyd-destun atal codymau, llosgi, anafiadau a dirywiad mewn iechyd meddwl neu gorfforol yn ogystal â'r gallu i hyrwyddo byw annibynnol, addysg barhaus a datblygiad cymdeithasol.

- Gyda chynifer o'r rhai sy'n colli eu golwg yn oedrannus, yn aml caiff nam ar y clyw, dementia ac eiddilwch eu profi ar yr un pryd, ac mae dirywiad parhaus mewn golwg yn gwaethygu'r effeithiau. Wrth i amgylchiadau newid, dylid galluogi mynediad pellach i ddarpariaeth a dylai gwasanaethau hygyrch clir fod yn flaenoriaeth. Mae felly'n hanfodol fod pobl yn cael mynediad amserol i ddarpariaeth er nad oes ar hyn o bryd unrhyw ganllawiau statudol am faint o amser y mae'n ei gymryd i bob awdurdod lleol gysylltu â phobl ar ôl atgyfeiriad.

## **Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae cydnabyddiaeth dda fod angen gostwng faint o amser mae pobl ar restr i aros ac i roi ymyriadau cynharach i atal pobl rhag cyrraedd argyfwng. Dylai egwyddor o'r broses gomisiynu gynnwys arweiniad ar sicrhau nifer ddigonol o swyddogion adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg fesul pen o boblogaeth, ac ansawdd ac amseroldeb y gwasanaeth. Yn y cyswllt hwn, mae'r canllawiau meincnodi arfer da am adsefydlu ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg yn rhoi safon gynaliadwy.

Datblygwyd llwybr colled golwg oedolion, yn cynnwys gofyniad y dylai'r bobl hynny sy'n symud drwy osodiad ysbyty weld Swyddog Cydlyn Clinig Llygaid, ac y dylai pawb gyda cholled golwg o fwy na 6/60 gael eu hasesu gan Swyddog Adsefydlu. Mae Llwybr Colli Golwg Oedolion y Deyrnas Unedig yn gosod llwybr a ddiffiniwyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac yn rhoi dull pwysig ar gyfer galluogi a symleiddio'r gofynion dan y Ddeddf; mae'n annog gweithio partneriaeth mwy effeithlon a phontio llyfn ar gyfer y person gyda nam ar y golwg.

Caiff rôl hollbwysig y gwasanaeth cydlyn clinig llygaid ei gydnabod o fewn y llwybr fel pwynt cyswllt cyntaf mewn gosodiad ysbyty. Caiff y gofyniad o fewn y Ddeddf i gynnig cyngor a gwybodaeth yn aml ei roi gan yr arbenigwyr hyn er bod cyllid ar gyfer y swyddi yn ansicr. Drwy ganllawiau grŵp comisiynu rhanbarthol ar y pryd a mabwysiadu'r llwybr ASL ar draws y rhanbarth.

## **Cysylltiadau i strategaethau allweddol**

- Llywodraeth Cymru/GIG Cymru Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflenwi Gofal Iechyd Llygaid ar gyfer 2013-2018.
- Cynllun Gweithredu Strategol Golwg Cymru 2014-2018.

### **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol.**

- Defnyddio arfer da a llwybrau effeithlon i ddatblygu egwyddorion comisiynu rhanbarthol.
- Sicrhau gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir, hygyrch ac amserol drwy DEWIS a dulliau eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i ddynodi modelau newydd i gefnogi'r broses adsefydlu a chyflenwi offer golwg gwan.



# Gofalwyr sydd angen cefnogaeth


Cynhwysir proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol yn y 5 Asesiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffiaeth gryno yn adran 1 yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn sydd hefyd yn cynnwys amcanestyniad poblogaeth am y rhanbarth. Ar gyfer dibenion yr Asesiad hwn, diffinnir gofalwr ifanc fel person dan 18 oed sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal am berson arall a diffinnir gofalwr fel person sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal am oedolion neu blentyn anabl (ond caiff gofalwyr sy'n derbyn tâl eu heithrio). Mae hyn yn newid sylfaenol i'r diffiniad blaenorol - gan nad oes angen mwyach i ofalwyr sefydlu eu bod yn 'darparu neu'n bwriadu darparu swm sylweddol o ofal ar sail reolaidd.'

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltiad gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrix blaenoriaethu, ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**

1. Cefnogi gofalwyr i ofalu drwy seibiant hyblyg, mynediad i wybodaeth gywir, cefnogaeth tebyg at ei debyg a chynllunio gofal effeithlon.
2. Gwella llesiant gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr drwy gynyddu dealltwriaeth gyhoeddus.


## Felly beth mae'r data'n ei ddangos?

Mae'r atodiad yn cynnwys dadansoddiad sefyllfa cynhwysfawr, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siartiau islaw.



Mae'r ffigur uchod yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 65 oed neu hŷn sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl dros y cyfnod 2013 i 2035. Rhagwelir y bydd pob ardal awdurdod lleol ar draws rhanbarth Gwent yn gweld cynnydd yn y nifer. Mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 35.6% ym Mlaenau Gwent i 58.9% yn Sir Fynwy dros y cyfnod.

### Nifer y gofalywyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16



Mae'r ffigur yn dangos y nifer o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn 2015-16. Dengys fod y nifer yn amrywio o 17 ym Mlaenau Gwent i 57 yng Nghasnewydd.

## Beth ydym ni'n ei wybod?

Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y gofalywyr fel canlyniad i'r cynnydd a ragwelir mewn poblogaeth. Amcangyfrifir fod 356,000 o oedolion yn ofalwyr yng Nghymru heddiw ac mae dros 90,000 o ofalwyr yn treulio dros 50 awr yr wythnos ar eu cyfrifoldebau gofalu ac ar hyn o bryd yn darparu dros 70% o ofal cymunedol. Amcangyfrifir fod gofalywyr a theuluoedd yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, a gefnogir gan gymunedau, gwirfoddolwyr a gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn arbed £3.5 biliwn bob blwyddyn i economi cymdeithasol Cymru. Eto gall y penderfyniad i ofalu olygu ymrwymiad i dlodi tanwydd ac, ar gyfer gofalywyr ifanc, oedi dros dro neu barhaol wrth ddilyn cyfleoedd addysg bellach a hyfforddiant. Mae llawer yn rhoi'r gorau i incwm, rhagolygon cyflogaeth y dyfodol a hawliau pensiwn i ddod yn ofalwyr. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cydnabod rôl allweddol gofalywyr, gan roi'r hawliau i gefnogaeth iddynt sy'n gyfwerth â hawliau'r rhai y gofalant amdanynt. Mae Adran 14 y Ddeddf yn gosod gofyniad ar y cyd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd i gydweithio i asesu gofalywyr. Yn rhy aml nid yw pobl yn uniaethu eu hunain fel gofalywyr ac nid ydynt yn dymuno derbyn cefnogaeth gan wasanaethau statudol. Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a chymhwyster neu hawl i gefnogaeth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dynodi gofalywyr yn gynnar a rhoi'r wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i ofalwyr i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus.

**“Gallaf helpu pobl ifanc sydd yn yr un sefyllfa â fi a dweud wrthynt beth sy'n gweitho a lle i gael help.”**

*Gofalwr Ifanc, Aelod Fforwm Ieuenctid*

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud:**  
**Parhau i gefnogi grwpiau ar gyfer gofalywyr ifanc i helpu ei gilydd**

## Beth ydym ni'n ei wneud?

Yn dilyn gweithredu Mesur Strategaeth Gofalywyr (Cymru) yn 2012 sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Gofalywyr rhanbarthol aml-asiantaeth i lywio, gweithredu a monitro camau gweithredu a chynnydd. Yn dilyn diddymu'r Mesur a darparu cyllid trosiannol i weithredu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol

a Llesiant, fel y maent yn weithredol i denantiaid, parhaodd y Rhaglen Bwrdd Gofalwyr aml-asiantaeth i hybu cynnydd. Caiff y Bwrdd Gofalwyr ei gadeirio gan aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Amcanion y Bwrdd yw: cryfhau'r dull partneriaeth ar lefel leol, creu cyfleoedd i alluogi'r trydydd sector i gymryd rhan lawn mewn darpariaeth, cynllunio a chyflenwi cyfrifoldebau cynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol, sefydlu'r arfer o brif-ffrydio anghenion gofalwyr fel ei bod yn arfer cyffredin. Drwy Gadeirydd y Bwrdd, bydd y Bwrdd Gofalwyr yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Gofalwyr wedi datblygu ac yn gweithredu rhaglen waith yn seiliedig ar fylchau a ddynodwyd mewn cefnogaeth a gwasanaeth i ofalwyr.

### **Mae'r rhaglen waith ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn targedu'r meysydd dilynol:**

- Cefnogaeth eiriolaeth,
- Cefnogaeth i oedolion ifanc sy'n ofalwyr a threfniadau pontio,
- Cefnogaeth iechyd a llesiant meddwl i ofalwyr o bob oedran,
- Parhau â gwybodaeth/cyngor/cyfeirio effeithlon a
- Hyfforddiant parhaus i staff.

Mae'r Bwrdd Gofalwyr wedi sefydlu cysylltiadau cyfredol gyda gwahanol fforymau gofalwyr ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cymryd rhan effeithlon yng ngwaith y Bwrdd. Mae gwaith i fapio darpariaeth gwasanaeth cyfredol wedi ei gwneud yn bosibl dynodi bylchau gwasanaeth, er enghraifft eiriolaeth ar gyfer gofalwyr. Dylid nodi fod y Bwrdd Dementia hefyd wedi cwblhau mapio gwasanaethau seibiant ar gyfer gofalwyr. Hefyd, drwy'r strategaeth Gofal yn Nes at y Cartref, rydym wedi mapio partneriaid a gwasanaethau presennol.

## **Astudiaeth Achos: Caffe Cyfeillgar i Dementia, Sir Fynwy**

Caiff Caffes Cyfeillgar i Dementia eu trefnu gan Gymdeithas Alzheimer ar draws y rhanbarth ac maent yn gyfle i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i ddod at ei gilydd i dderbyn gwybodaeth a chyngor a rhannu eu sylwadau gyda gweithwyr proffesiynol. Mae'r caffes hefyd yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog ac i ofalwyr rannu eu teimladau ymysg gofalwyr eraill. Dywedodd un gofalwr ei bod wedi cael pethau'n anodd iawn ac yn barod i roi'r gorau iddi, ond bod gofalwyr eraill yn y caffe wedi rhoi cyngor ymarferol a chefnogaeth emosiynol i'w helpu i aros yn gadarnhaol.

## **Cynllun Gweithredu a Chamau Nesaf**

### **Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi tanlinellu pwysigrwydd gwybodaeth a chyngor ar bob cam o'r broses gofal a chefnogaeth ac mae adran 17 y Ddeddf yn amlinellu'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth i roi gwybodaeth am ofal a chefnogaeth i oedolion mewn angen. Datblygwyd porth gwybodaeth cenedlaethol (Dewis) a bydd yn rhoi cronfa ddata o wybodaeth gwasanaeth ar gyfer dinasyddion (yn cynnwys gofalwyr). Bydd hyn yn ddull defnyddiol wrth hwyluso cysylltiadau i wybodaeth leol.
- Bydd dull gweithredu wedi'i dargedu yn parhau o fewn gwasanaethau iechyd i sicrhau systemau i ddynodi a chefnogi gofalwyr yn fwy effeithlon, yn cynnwys staff sy'n ofalwyr.
- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau cymunedol anffurfiol drwy rôl 'cysylltwyr cymunedol' er mwyn dynodi gofalwyr ar y cyfle cyntaf a chyfeirio at wasanaethau cefnogaeth a grwpiau tebyg at ei debyg.

## Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Drwy gomisiynu cyson ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol, byddwn yn sefydlu arferion cyson drwy'r elfennau allweddol dilynol.

- Cyflwyno hyfforddiant cynaliadwy i staff yn y dyfodol i sicrhau y caiff ymwybyddiaeth o ofalwyr ei gynnwys o fewn busnes craidd partneriaid, gan ddefnyddio dull e-ddysgu Cymru-gyfan ar gyfer codi ymwybyddiaeth fydd yn hygyrch i bob sefydliad.
- Mae Adran 24 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr gymryd rhan lawn yn eu hasesiadau ac mae'n ei gwneud yn glir fod y ddyletswydd i asesu yn weithredol beth bynnag yw barn yr awdurdod am lefel anghenion y gofalwr am gefnogaeth, neu eu sefyllfa ariannol.
- Cynhelir sgysiau 'beth sy'n bwysig' gyda gofalwyr i ganfod beth sy'n bwysig i'w helpu i ofalu.
- Byddwn hefyd yn ymchwilio sut y mae'n well darparu promptio meddyginiaethau drwy fodolau gwasanaeth ar draws y rhanbarth a seiliedig ar gymuned.
- Mae gofalwyr yn sôn yn gyson am wasanaethau seibiant fel bod yn angen cefnogaeth hanfodol ond mae rhai achosion lle mae'r gefnogaeth a gomisiynwyd ar hyn o bryd yn cael ei thandefnyddio. Gall hyn fod oherwydd bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar ddull 'un maint i bawb' ac nad yw felly'n adlewyrchu'r math o wasanaeth seibiant sydd ei angen yn ogystal â diffyg adborth gofalwyr i fod yn sylfaen i'r newidiadau sydd eu hangen i wasanaethau a gomisiynwyd. Byddwn yn anelu i ehangu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli cyfeillachu gyda golwg ar ddarparu cyfleoedd seibiant hyblyg a chysylltu hyn gydag adolygiad o wasanaethau a gomisiynwyd gan y trydydd sector a gynhelir ar hyn o bryd gan y Cyd-Grŵp Comisiynu Rhanbarthol.
- Rhagwelir y bydd gweithredu Strategaeth Gofal yn Nes at y Cartref hefyd yn cynyddu rhwydweithiau cefnogaeth i ofalwyr ar lefel y gymuned.

## Eiriolaeth

**Caiff trefniadau eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd Rhaglen Gofalwyr ddiwedd 2016 a'i gynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun Ardal.**

### Cysylltiadau gyda strategaethau allweddol

- Datganiad Bwriad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Strategaeth Rhanbarthol Dementia

### **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol.**

- Cydlynu gwasanaethau cyson seiliedig yn y gymuned megis cysylltwyr cymunedol/rhagnodwyr cymdeithasol i ddynodi a chefnogi gofalwyr
- Adolygu promptio meddygol i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir drwy DEWIS a Phum Ffordd i Lesiant
- Adolygu ac alinio egwyddorion comisiynu'r trydydd sector i gefnogi cyfeillachu ar gyfer gofalwyr sydd angen cefnogaeth
- Sicrhau fod gweithredu'r strategaeth Gofal yn Nes at y Cartref yn cynyddu cefnogaeth i ofalwyr ar lefel y gymuned
- Comisiynu cyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau modelau teg ac effeithlon o gefnogaeth i ofalwyr ar draws y rhanbarth, yn cynnwys seibiant hyblyg.

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol


Caiff proffil demograffiaeth a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol unigol ei gynnwys yn y 5 Asesiad Llesiant Lleol. Cynhwysir demograffiaeth gryno yn adran 1 yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma sydd hefyd yn cynnwys amcanestyniad poblogaeth ar gyfer y rhanbarth. Ar gyfer dibenion yr Asesiad yma, defnyddiwn y diffiniadau o gam-drin domestig a roddir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Y canlyniadau blaenoriaeth a ddynodwyd drwy ymgysylltu gyda dinasyddion, partneriaid a defnyddio'r matrics blaenoriaethu newydd, ac a gadarnhawyd yn ddilynol drwy ymgynghoriad yw:**


1. Darparu trefniadau ymyriad a diogelu cynharach i ddarparu ddiodefwrwr drwy 'Gofyn a Gweithredu'
2. Diogelu defnyddwyr, yn cynnwys dynion, drwy gefnogaeth partneriaeth effeithlon.

## Felly beth mae'r data yn ei ddangos i ni?

Caiff dadansoddiad sefyllfa cynhwysfawr ei gynnwys yn yr atodiad, ond caiff sampl cynrychioladol o angen ei nodi yn y siart(iau) islaw.



Mae ffigur VI yn dangos y gyfradd o droseddau rhywiol fesul 1,000 o boblogaeth yn 2015-16 ar draws rhanbarth Gwent. Mae'r gyfradd yn amrywio o 1.42 fesul 1,000 o boblogaeth ym Mlaenau Gwent i 1.64 fesul 1,000 o boblogaeth yn Nhorfaen a Chasnewydd. Mae hyn yn cymharu gyda 1.54 fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Gwent a 1.69 fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Cymru.



	Caerffili	Blaenau Gwent	Torfaen	Sir Fynwy	Casnewydd
FY 2014-15	3,805	1,778	2,192	1,059	3,882
FY 2015-16	3,782	1,595	2,223	973	3,920

Mae ffigur VI yn dangos y nifer o ddigwyddiadau o gamdriniaeth domestig a gofnodwyd a thrafodaethau rhwng Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol [Galwadau Cynhadledd Cam-drin Domestig (DACC)] dros y cyfnod 2014-15 i 2015-16. Bu gostyngiad ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy, gyda'r gostyngiadau mwyaf o 10.3% ym Mlaenau Gwent a 9.2% yn Sir Fynwy, a gostyngiad o 0.6% yng Nghaerffili. Gwelodd Casnewydd gynnydd bach o 0.1% a Thorfaen gynnydd o 1.4% yn ystod y cyfnod.

## Beth ydym ni'n ei wybod?

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ei phasio ym mis Ebrill 2015 a'i nod yw gwella ymateb y sector cyhoeddus drwy roi ffocws strategol i wella'r trefniadau ar gyfer atal, diogelu a chefnogi unigolion y mae trais a chamdriniaeth o'r fath yn effeithio arnynt. Gosodir y Ddeddf newydd hon yng nghyd-destun deddfwriaethol ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n rhoi cyfle unigryw i sefydlu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel blaenoriaeth wrth benderfynu ar lesiant Cymru.

## Beth ydym ni'n ei wneud?

### Mae dwy broses wedi sefydlu a ddefnyddir i drin a chefnogi agenda trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol:

- **Galwadau Cynhadledd Cam-drin Domestig (DACC)** - Mae Heddlu Gwent yn cynnal galwad cynhadledd bob dydd ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol. Sefydlwyd DACC yn dilyn gwerthusiad o gynllun peilot yng Nghasnewydd a chanfuwyd mai'r manteision oedd: ymyriad cynharach a chyfleoedd i wneud dioddefwyr yn fwy diogel; rhannu gwybodaeth yn

gyflym ac effeithlon; rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd; adnabod risg yn gynnar. Mae trosolwg o DACC yn dangos niferoedd sylweddol gyda dros **12,000 o ddigwyddiadau yn 2014/15 a hefyd yn 2015/16**; ond dengys dadansoddiad cynnar y bu **28% o ostyngiad mewn dioddefwyr mynych** a thystiolaeth dda i ddangos gwelliant yn niogelwch a llesiant dioddefwyr a'u teuluoedd; ac ar yr un pryd, yn rheoli troseddwyr yn effeithlon. Caiff proses DACC ei hadolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth.

- Mae **cynhadledd asesu risg aml-asiantaeth (MARAC)** yn gyfarfod lle caiff gwybodaeth ei rhannu ar yr achosion risg uchaf o gam-drin domestig rhwng cynrychiolwyr heddlu lleol, y gwasanaeth prawf, swyddogion iechyd, amddiffyn plant a thai, cynghorwyr annibynnol ar drais domestig ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ar ôl rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am ddiodefwyr, mae cynrychiolwyr yn trafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y diodefwyr, a throï'r opsiynau hyn yn gynllun gweithredu cydlynol. Prif ffocws MARAC yw diogelu oedolion sy'n ddiodefwyr. Mae trosolwg o MARAC yng Ngwent unwaith eto'n cyflwyno niferoedd sylweddol gyda **978 MARAC wedi'u cwblhau yn 2014/15, 726 wedi'u cwblhau yn 2015/16**. (Mae'r gostyngiad yn ymwneud mwy â materion proses yn hytrach na gostyngiad mewn diodefwyr risg uchel). Bydd MARAC hefyd yn gwneud cysylltiadau gyda fforymau eraill i ddiogelu plant a thrin ymddygiad y sawl fu'n tramgwyddo. Craidd MARAC yw tybiaeth weithio na all unrhyw un asiantaeth neu unigolyn weld darlun cyflawn o fywyd diodefwyr ond y gallant i gyd fod â dirnadaeth sy'n hollbwysig i'w diogelwch. Nid yw diodefwyr yn mynychu cyfarfodydd ond cânt eu cynrychioli gan gynghorwyr annibynnol ar drais domestig sy'n siarad ar eu rhan.

Gan adeiladu ar Fforwm Cam-drin Domestig Gwent-gyfan, sefydlwyd **Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De Ddwyrain Cymru** i roi cyfrwng llywodraethiant ar gyfer y bartneriaeth ranbarthol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig. Mae'r Bwrdd yn cyfateb i Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent. Bydd pob un o'r tri bwrdd yn cysylltu i roi fframwaith ar gyfer llywodraethiant diogelu a byddant yn sicrhau fod cysylltiadau cyfathrebu yn bodoli gyda phartneriaethau aml-asiantaeth strategol yn gweithio ar draws y rhanbarth yn cynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys uwch arweinwyr yn dod ag asiantaethau ynghyd i weithio mewn ffordd gydlynol a sicrhau darparu'r gwasanaethau gorau posibl i amddiffyn a chefnogi diodefwyr ac atal troseddu. Lle mae bylchau mewn gwasanaeth neu ddiffygion mewn perfformiad daw'r Bwrdd â'r asiantaethau lleol ynghyd i flaenoriaethu a thrin materion.

Mae'r term 'trais yn erbyn menywod' yn cynnwys pob math o drais yn erbyn menywod, trais seiliedig ar anrhydedd, priodas a orfodir, anffurfio organau cenhedlu benywod, masnachu, trais ac ecsbloetiad rhywiol a cham-drin domestig. Mae'r term yn cyfeirio at brofiad anghymesur menywod i fathau camdriniaeth o'r fath. Er ei bod yn bwysig y caiff hyn ei gydnabod a'i gyfathrebu, nid yw'n golygu y caiff y trais a chamdriniaeth a gyfeirir at ddynion neu a gyflawnir gan fenywod ei esgeuluso. Mae gwaith Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De Ddwyrain Cymru yn ymwneud â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel mae'n effeithio ar bob dinesydd.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru (2015) yn cyflwyno gofynion i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol ac i awdurdodau perthnasol gyhoeddi strategaethau lleol/rhanbarthol ar y cyd. Cafodd rhanbarth y De Ddwyrain ei ddewis fel safle treialu ar draws Cymru ac maent wrthi'n cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion fydd yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i fod yn sail wrth ddatblygu cynllun strategol a set o flaenoriaethau fydd yn sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd ar draws y rhanbarth gyda model cyffredin a gaiff ei rannu ar gyfer darparu gwasanaeth. Caiff y cynllun strategol rhanbarthol ei lunio erbyn mis Ebrill 2017 a bydd yn gydnaws â strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. Bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

yn rhoi'r cyfrwng llywodraethiant fydd yn datblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

## Gweithredoedd a chamau nesaf

### **Ataliaeth ac Ymyriad Cynnar yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

Y polisi '**Gofyn a Gweithredu**' yw polisi Llywodraeth Cymru o ymholiad wedi'i dargedu i'w weithredu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cafodd awdurdodau lleol y De Ddwyrain eu dewis fel un o ddau safle mabwysiadu cynnar yng Nghymru ar gyfer 'Gweithredu a Gofyn' i ddatblygu a gweithredu prosesau cyn ymestyn y rhaglen yn genedlaethol y flwyddyn nesaf. Gall dynodi camdriniaeth a/neu drais ar gam cynnar fod yn fesur effeithlon wrth atal cynnydd mewn difrifoldeb ac amllder, a gall gynorthwyo i sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol ac amserol.

### **Nodau 'Gweithredu a Gofyn' yw:**

- dechrau creu diwylliant ar draws y gwasanaethau cyhoeddus lle mae trin trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes a gaiff ei dderbyn a lle caiff datgeliad ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso;
- cynyddu dynodi'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r rhai sy'n agored i niwed ac yn gudd, ar y cyfle cynharaf posibl, yn hytrach na dim ond ymgysylltu'n adweithiol gyda rhai sydd mewn argyfwng neu mewn risg ar unwaith o niwed difrifol;
- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i'r rhai a ddynodwyd sy'n rhoi cefnogaeth arbenigol yn seiliedig ar risg ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a
- gwella'r ymateb i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### **Comisiynu, Cyllidebau Cyfun ac Integreiddio iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi comisiynu Cymorth i Fenywod Cymru i gynnal asesiad o anghenion rhanbarthol sydd i gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2017. Bydd yr asesiad anghenion a'r strategaeth ranbarthol gyfatebol sy'n dilyn yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau strategol yn nhermau gweithio partneriaeth, modelau posibl o gydweithio a phrosesau. Bydd y Cynllun Ardal sy'n dilyn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma'n defnyddio'r a sesiad anghenion a strategaeth ranbarthol yma fel sail cynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **Cysylltiadau i strategaethau allweddol**

- Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De Ddwyrain Cymru 2017-21

### **Crynodeb a'r hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol.**

- Gweithredu 'Gofyn a Gweithredu' fel rhan o gynllun treialu Llywodraeth Cymru.
- Aliniad strategol gyda Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, asesiad anghenion a chynllun strategol.



# Adran 2



# Mapio gwasanaeth

Dan bob thema graidd a nodir yn adran 1 mae asesiad lefel uchel o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu gofal a chefnogaeth dinasyddion ac anghenion cefnogaeth gofalwyr yn yr adran 'Beth ydym ni'n ei wneud'. Nid yw'r rhestr o weithgaredd cyfredol ac ar y gweill yn cynnwys popeth ond mae'n dal yn berthnasol i'r maes blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg dan bob thema graidd.

Sylweddolwn y gall gwefan DEWIS [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales) fod mewn lle gwell i roi cyfeiriadur cyfredol a gaiff ei hunan-reoli yn nhermau cynnwys ac y bydd felly'n parhau'n gyfredol. Caiff gwefan DEWIS ei diweddarau'n barhaus ar draws y rhanbarth ac ar draws Cymru, ac mae'r tîm rhanbarthol yn cefnogi'r gweithgaredd yma a phartneriaid i lan lwytho eu gwybodaeth. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi trosolwg cyffredinol i sicrhau cynnwys DEWIS ac y caiff pob partner eu hysbysu amdano.

Fel yr amlygir yng nghodau ymarfer Rhan 2, Adran 12 Deddf Gwasanaethau a Cymdeithasol, mae'n rhaid i ddinasyddion a'r gweithlu gofal cymdeithasol gymryd rhan yn y broses o ddynodi'r ystod a lefel gwasanaethau sydd eu hangen. Wrth ddatblygu'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, cysylltwyd gyda dinasyddion a darparwyr i ddynodi'r ystod gwasanaethau ar yr un pryd â dynodi lefel anghenion am ofal a chefnogaeth ac anghenion cefnogaeth gofalwyr. Cynhwyswyd data mapio gwasanaeth mewn atodiadau a chafodd rhai gwasanaethau eu lan lwytho eu data ar DEWIS. Ni fyddai'n ddarbodus cynnwys rhestr gynhwysfawr o wasanaethau a pharatoi cyfeiriaduron o fewn atodiad yr Asesiad hwn. Fodd bynnag, lle mae'r mapio gwasanaeth yn cyfeirio at y canlyniadau blaenoriaeth, rydym wedi cynnwys gwaith mapio gwasanaethau penodol - er enghraifft, fe wnaeth Sir Fynwy fapio'r pwyntiau mynediad gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y fwrdeistref.

Yn gyfochrog â datblygiad yr Asesiad hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn datblygu strategaeth drosfwaol 'Gofal yn Nes at y Cartref' ar gyfer integreiddio gofal yn effeithlon a chynaliadwy, yn canoli ar fodolau clwstwr meddygon teulu [Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth]. Fel rhan allweddol o'r broses datblygu strategaeth, trefnwyd pum gweithdy unigol ar draws awdurdodau lleol a gofynnwyd i bartneriaid fapio a dynodi gwasanaethau ac adnoddau presennol seiliedig yn y gymuned.

Mae timau **Cefnogi Pobl** y rhanbarth wedi cynnal gwaith craffu a mapio pellach ar y gwasanaethau a ddarperir ar draws gwahanol grwpiau cleientiaid ac mae hyn yn parhau i gael ei wneud fel rhan o gynllun gwaith Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol Gwent. Bydd mapio ac adolygu gwasanaethau yn rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer ailfodelu a datblygu gwasanaeth rhanbarthol. Mae'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol wedi blaenoriaethu 'Pobl gyda Phroblemau Iechyd Pobl' a 'Pobl Ifanc gydag Anghenion Cefnogaeth (16-24)/Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal' drwy gynllun gwaith 2016/17. Caiff bylchau penodol mewn gwasanaethau ar gyfer y categorïau cleientiaid hyn eu hamlygu drwy'r broses adolygu barhaus a bydd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau sy'n parhau i ddiwallu anghenion y grwpiau cleient hyn yn y dyfodol a chomisiynu gwasanaethau os dynodir bylchau.

## **Mae'r ddau gategori cleientiaid yn dal i gael blaenoriaeth fel rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol:**

- **Pobl gydag Anableddau Dysgu** - yn ystod 2015 dynododd grŵp gorchwyl a gorffen set o egwyddorion yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r grŵp cleientiaid hyn a gytunwyd gyda phob un o'r pum adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws holl awdurdodau lleol Gwent. Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol i roi diweddiad ar gynnydd lleol yn erbyn yr egwyddorion.

- **Gwasanaethau Pobl hŷn** - Cafodd gwasanaethau i bobl hŷn eu blaenoriaethu ar gyfer eu craffu gan Bwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol Gwent ac mae'r blaenoriaethu hyn wedi helpu i sicrhau bod y gwaith wedi parhau i gael ei wneud yn lleol i hyrwyddo'r argymhellion yn Adolygiad Aylward 2010.

Cynhelir mapio manylach a gyda mwy o ffocws ar wasanaethau a phartneriaid wrth ddatblygu'r Cynllun Ardal Rhanbarthol. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fapio gwasanaethau yn uniongyrchol a'u cysylltu gyda'r blaenoriaethau rhanbarthol a ddynodwyd. Ar gyfer mapio ehangach ar wasanaethau byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant. Caiff DEWIS ei ymestyn ymhellach a'i ddatblygu i gynnwys gwasanaethau cymunedol ehangach a sefydliadau partner. Lle'n bosibl bydd cronfa ddata DEWIS yn adnodd ar gyfer darpariaeth gwasanaeth a chefnogaeth i lawr i lefel ward unigol.

## Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:

- 1. Parhau i adeiladu ar fapio gwasanaethau presennol drwy strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', yr agenda Cefnogi Pobl a chysylltu'n benodol i flaenoriaethau a dynodwyd ynddynt.**
- 2. Datblygu ac ymestyn gwefan DEWIS ymhellach fel y daw yn brif gyfeiriadur adnoddau ar gyfer y rhanbarth.**
- 3. Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau y caiff mapio gwasanaeth ei integreiddio gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel cam pwysig tuag at greu ymateb gwasanaeth cyhoeddus ar lefel gymunedol.**

# Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn sbardun allweddol dros newid ac mae angen iddo nodi i ba raddau y dylai'r anghenion a ddynodwyd yng nghyswllt y themâu craidd gael ei gyflawni drwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol o fewn y Rhanbarth. Rhoddir disgrifiad lefel uchel dan bob thema graidd sy'n amlygu'r meysydd allweddol ar gyfer integreiddio.

## **Dan Ran 9 y Ddeddf sy'n cynnwys trefniadau partneriaeth, mae Llywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi rhoi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau yng nghyswllt:**

- Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia.
- Pobl gydag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Mae eisoes feysydd integreiddio sydd wedi sefydlu'n dda a'u datblygu a gaiff eu cefnogi gan bartneriaethau strategol cyfredol ar draws y grwpiau a ddynodwyd, a chaiff manylion pellach am drefniadau presennol a meysydd i'w datblygu eu cynnwys yng nghyd-ddatganiadau strategol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o fwriad strategol ar gyfer pobl hŷn, plant gydag anghenion cymhleth a gofalwyr. Mae integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu wedi ei sefydlu'n dda mewn meysydd allweddol megis llety drwy'r bartneriaeth 'Mewn Un Lle' sy'n bartneriaeth rhwng pob un o'r 9 landlord cymdeithasol cofrestredig yn y rhanbarth, yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd. Hefyd caiff blaenoriaethau 'Cefnogi Pobl' a amlinellir uchod eu halinio i gefnogi hanfodion rhanbarthol dan Ran 9 lle'n briodol.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu ar y strwythurau mwyaf addas ar gyfer sicrhau darpariaeth y gwasanaethau integredig hyn. Gallai hyn gynnwys sefydlu grwpiau rheoli neu weithredol, neu ailddiffinio grwpiau partneriaeth presennol yn ogystal â thimau integredig ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Caiff cytundebau partneriaeth eu datblygu ar gyfer trefniadau partneriaeth newydd a all fod angen dirprwyo swyddogaethau neu beidio, fel y nodir yn Rhan 9 y Ddeddf.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi penderfynu mai dull gweithredu 'seiliedig ar le' at ofal a chefnogaeth yw'r allwedd i ddarparu gwasanaeth gweithredol fydd yn galluogi alinio adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i ddiwallu gwahanol anghenion lleol ac unigol. Gwyddom fod gan lawer o ardaloedd heriau cymdeithasol ac economaidd sylweddol ond a all fod yn wahanol iawn sy'n golygu nad yw dull 'un maint i bawb' naill ai'n briodol nac yn gynaliadwy. Fel yr amlygir yn strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac fel y disgrifir uchod, defnyddiwyd dull seiliedig ar le gan y rhanbarth sy'n seiliedig ar glystyrau meddygon teulu (Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth) gyda'r nod o alinio adnoddau'n fwy effeithlon.

## Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:

- 1. Integreiddio darpariaeth gofal a chymorth i grwpiau cleientiaid allweddol fel y'i nodir yn Rhan 9 o Ddeddf ac a bwysleisiwyd drwy ddatganiadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o fwriad strategol ar gyfer pobl hŷn, plant gydag anghenion cymhleth a gofalwyr.**
- 2. Mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar le drwy'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' fel carreg sylfaen sy'n sylfaen i integreiddio gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.**

## Cyd-gomisiynu a Chyllidebau Cyfun

Wrth symud ymlaen gyda gweithredu'r Ddeddf, cydnabyddir fod gan gomisiynu rhan hanfodol i'w chwarae wrth gynllunio, llunio a rhoi'r gwasanaethau yn eu lle sydd eu hangen ar gyfer dinasyddion i wella llesiant. Sefydlwyd Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol ddiwedd 2015 a gaiff ei gydlyn gan y tîm Trawsnewid rhanbarthol i ddynodi blaenoriaethau comisiynu rhanbarthol.

### **Dynododd y Grŵp y blaenoriaethau dilynol:**

- Strategaeth ranbarthol gyffredin ar ofal yn y cartref - mae cynllun rhanbarthol gofal yn y cartref yn cael ei ddatblygu a bydd hyn yn arwain at bapur safle ac opsiynau ar gyfer dylunio a darparu gofal a chefnogaeth yn y cartrefi yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys peth gweithgaredd ar unwaith ac yn dynodi nodau tymor hirach. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a ffrwd gwaith gofal yn y cartref y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a fanylir islaw.
- Adolygiad rhanbarthol o gomisiynu adnoddau fel rhan o'r Aseiad Anghenion Poblogaeth a dadansoddiad digonolrwydd marchnad gyda golwg ar fabwysiadu dull gweithredu integredig.
- Datblygu opsiynau ar gyfer comisiynu integredig a chyllidebau cyfunol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol gan mai rhanbarth Gwent yw'r rhanbarth treialu dynodedig ar gyfer datblygu Cytundeb Partneriaeth Enghreifftiol ar gyfer cyd-gomisiynu a chyllidebau cyfunol ar gyfer lleoliadau cartref gofal.
- Atal a llesiant, rôl y trydydd sector a dulliau gweithredu seiliedig ar le yn gysylltiedig gyda datblygu'r strategaeth Gofal yn Nes Adref.
- Bydd y Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd yn symud ymlaen gyda blaenoriaethu comisiynu ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth.
- Bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn symud ymlaen gyda blaenoriaethau comisiynu ar gyfer gofalwyr yn cynnwys gofalwyr ifanc.

Mae'r Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol yn cysylltu'n agos gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a sefydlwyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## **Mae gan y grŵp cenedlaethol gynllun prosiect lefel uchel a nifer o ffrydiau gwaith yn cynnwys:**

- Dadansoddiad marchnad cenedlaethol o gartrefi gofal (ar gyfer pobl dros 65 oed)
- Cytundeb enghreifftiol ar gyfer cyllidebau cyfun ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru
- Gofal cartref
- Gwasanaethau anabledd dysgu
- Gwasanaethau ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth
- Adolygiad o gapasiti a gallu comisiynu
- Opsiynau ar gyfer sicrhau gwasanaethau (dulliau hyblyg ac arloesol at gaffael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol).

## **Cronfeydd Cyfun**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ar hyn o bryd yn ystyried strwythur llywodraethol a threfniadau partneriaeth gyda grwpiau sy'n bodoli eisoes ac sydd mewn sefyllfa dda i arwain ar themâu craidd penodol ar draws Asesiad Anghenion y Boblogaeth e.e. Trais yn Erbyn Menywod De Ddwyrain Cymru, Y Bwrdd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Y Bwrdd Dementia, Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr, Bwrdd Partneriaeth Lleol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Lleol hefyd yn edrych i mewn i drefniadau partneriaeth gyda grwpiau rhanbarthol ehangach fel Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yr awdurdodau lleol - yn arbennig mewn perthynas â chysylltiadau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Bwrdd Cynllunio Gwent ar Gyfer Camddefnydd Sylweddau, Partneriaeth Diwygio Lles Gwent a rhaglen Mewn Un Lle.

## **Mae rheoliadau partneriaeth 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth o fewn pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sefydlu a chynnal cronfeydd cyfunol yng nghyswllt:**

- gweithredu eu swyddogaethau llety cartref gofal (fel y nodir, mae rhanbarth Gwent yn ardal dreialu i ddechrau'r gwaith hwn, sydd angen cyd-gomisiynu lleoliadau a chyllidebau cyfunol erbyn mis Ebrill 2018);
- gweithredu swyddogaethau cefnogaeth teulu; (mae Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd yn rhaglen a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac a gaiff ei rheoli gan Gyngor Dinas Casnewydd, a chaiff ei chynnwys o fewn trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol);
- y swyddogaethau penodol y byddant yn eu hymarfer ar y cyd fel canlyniad i'r adroddiad asesu poblogaeth a'r cynllun ardal cyfunol.

## **Mae gan ranbarth Gwent eisoes gyllidebau cyfunol ffurfiol wedi ymsefydlu'n dda ar gyfer:**

- **GWICES - Gwasanaeth Integredig Offer Cymunedol Gwent Gyfan.** Mae hwn yn gytundeb Adran 33 dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gyda chomisiynydd arweiniol wedi'i ddynodi ac un broses monitro contract. Mae hierarchaeth PIN fel bod y staff gweithredol hynny sydd angen rhagnodi ac archebu offer wedi cofrestru ac yn medru cael mynediad i'r mathau hynny o offer y maent eu hangen, gyda hyn yn cael ei olrhain i gyfraniad cyllideb ac alldro a ddatganodd y partner perthnasol, Mae wedi dod â phroses gyson o fanyleb offer, caffaeliad, darpariaeth, casglu a glanhau/gwaredu ar draws y rhanbarth.
- **Rhaglen Eiddilwch Gwent.** Mae hefyd Gytundeb Adran 33 dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i ddarparu gwasanaethau gofal canolraddol gyda nodau ac amcanion cynhwysfawr i sicrhau modelau gwasanaeth gwerth gorau a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer preswylwyr pob un o awdurdodau lleol Gwent. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniadau cyllid priodol i gefnogi amserlen ad-dalu ar gyfer cyllid 'Buddsoddi i Gynilo' Llywodraeth Cymru.

Mae cysylltiad agos gyda Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod y broses Adran 33 yn dal i fod yn weithredol dan y Ddeddf ar gyfer trefniadau partneriaeth Rhan 9 ond mae angen i drefniadau llywodraethiant ei gwneud yn glir mai Byrddau Cynllunio Rhanbarthol sy'n goruchwylio.

## Beth fyddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol

- 1. Cyflenwi cynllun gweithredu'r Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol i sicrhau trefniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer y blaenoriaethau a dynodir uchod.**
- 2. Parhau i gysylltu gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddyblygu cynigion cenedlaethol ar draws y rhanbarth.**

## Gwasanaethau Ataliaeth

Mae ataliaeth yn ganolog i raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer newid iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar ataliaeth ac ymyriad cynnar er mwyn gwneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn aros i ymateb nes bod pobl yn cyrraedd pwynt argyfwng. Mae'r dull ataliol yn weithredol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc; fodd bynnag, gall yr ymateb rhanbarthol fod â ffocws gwahanol ar gyfer pob grŵp. Er enghraifft mae clystyrau meddygon teulu yn gwneud synnwyr ar gyfer gwasanaethau oedolion, ond gall clystyrau seiliedig mewn ysgol wneud mwy o synnwyr ar gyfer plant a phobl ifanc. Felly, gall trefniadaeth ddaeryddol gwasanaethau ataliaeth a chefnogaeth ar gyfer plant ac oedolion edrych yn wahanol; ond bydd y bwriad strategol yn seiliedig ar ataliaeth a llesiant yn gyson. Mae'r Ddeddf yn anelu i gynyddu i'r eithaf lesiant phobl ac ail-dafoli ffocws gofal a chefnogaeth ar ataliaeth ac ymyriad cynnar. Bydd hyn yn arwain at fwy o wasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau anghenion unigol rhag gwaethygu i lefelau critigol. Mae hyn yn golygu y bydd angen adolygu gwasanaethau presennol a gall fod angen dadgomisiynu rhai os na chânt eu hystyried yn effeithlon erbyn hyn.

### *Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau ystod a lefel priodol o wasanaethau ataliol sydd yn:*

- Helpu i atal, oedi a gostwng yr angen am ofal a chefnogaeth.
- Hyrwyddo magu plant gan eu teulu.
- Lleihau effaith anabledau pobl.
- Helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod.
- Galluogi pobl i fyw mor annibynnol ag sydd modd.
- Gostwng yr angen am orchmynion gofal neu oruchwylio, cymryd camau troseddol yn erbyn plant neu fynd â phlant i ofal awdurdod lleol neu sefydliad diogel.

Mae angen cryfhau'r ymagwedd ataliol sydd eisoes ar gael ar draws rhaglenni a gwasanaethau, gan adeiladu ac ymestyn y sylfaen gweithgaredd er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael pan fydd pobl eu hangen. Mae'n rhaid i ni sicrhau fod gan bobl a chymunedau'r wybodaeth a'r gefnogaeth maent eu hangen mewn ffordd amserol i ddynodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd y rhanbarth yn rhoi ystyriaeth fanwl bellach i'r ffordd orau y gall roi trefniadau ar waith i sicrhau dull gweithredu sy'n diwallu anghenion lleol a hefyd angen unigolion. Bydd gan weithredu strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' ran bwysig yn hyn.

Mae'n rhaid i natur a lefel y gwasanaethau ataliaeth a ddarperir neu a drefnir gael eu cynllunio i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth y gofaluwr a ddynodwyd yn yr adroddiad asesiad anghenion poblogaeth yma. Mae pob adran thema greiddiol yn cynnwys cynigion ar gyfer rhaglenni ymyriad cynnar ac ataliaeth. Mae hefyd yn cynnwys arwydd lefel uchel o wasanaethau a all gefnogi'r agenda ataliol. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ehangu ar fapio gwasanaethau drwy ddatblygu'r Cynllun Ardal rhanbarthol a'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', i sicrhau fod dealltwriaeth glir o'r adnoddau sydd ar gael o fewn cymunedau.

Yn nhermau rheoli adnoddau, mae angen ffocws ar ymyriad cynharach yn hytrach na chanolbwyntio adnoddau ac ymdrech ymhellach i lawr y llwybr gofal neu ar reoli argyfwng. Mae nifer o enghreifftiau o arfer da, ond yn aml dim ond mewn un ardal mae'r rhain ar gael, eto yn aml dylent fod ar gael ar draws Gwent, gan fod tegwch a chysondeb darpariaeth yn ffocws pwysig i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Fel rhan o'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nodi sut y gellir cyflwyno dull ataliol mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth. Caiff nifer o raglenni ataliaeth eu cyllido gan Lywodraeth Cymru megis Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl. Caiff tua £55 miliwn ei gyllido drwy'r pedair rhaglen 'gwrth-dlodi' ar draws y rhanbarth bob blwyddyn. Mae Cyllid Gofal Canolraddol yn gwneud cyfraniad sylweddol i ataliaeth a gostwng derbyniadau ysbty. Mae hefyd nifer o gynlluniau ar draws y rhanbarth sy'n anelu i ostwng arwahanrwydd cymdeithasol. Mae angen alinio adnoddau i sicrhau synergedd rhwng y gwahanol ffrydiau cyllid ac osgoi dyblygu. Mae'r Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol eisoes wedi cysylltu gyda'r trydydd sector yn y rhanbarth i ddechrau'r broses o ddynodi lle mae mwyaf o angen cefnogaeth, ac mae cymdeithasau tai eisoes hefyd yn bartneriaid allweddol mewn darparu gwasanaeth ataliol.

## Astudiaeth Achos: Cynllun Peilot Braenaru Torfaen

Mae Cynllun Braenaru Torfaen yn gynllun peilot gan Lywodraeth Cymru sydd â ffocws ar ddeall y system blynyddoedd cynnar a galluogi newid system i wella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar (mae Torfaen yn un o ddwy ardal beilot ledled Cymru).

### **Mae'r peilot yn alinio gyda chanlyniadau Rhaglen Gydwethredol 1000 Diwrnod Cyntaf:**

- Y canlyniad gorau posibl ar gyfer pob beichiogrwydd
- Plant yng Nghymru yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygu yn ddwy flwydd oed
- Plant heb fod yn agored i na chael eu niweidio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y 1000 diwrnod cyntaf

Sefydlwyd grŵp strategol '1000 diwrnod cyntaf' sy'n cynnwys arweinwyr Torfaen ar gyfer rhaglenni gwrthdlodi Blynyddoedd Cynnar, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Torfaen a Thîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Aneurin Bevan. Cwblhawyd mapio manwl o'r system blynyddoedd cynnar yn cynnwys mapio'r holl raglenni gwrthdlodi perthnasol a dyraniadau ariannol i raglenni. Cafodd gwaith mapio manwl ei gwblhau ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg a hefyd ardaloedd heb fod yn rhai Dechrau'n Deg.



## **Mae cynllun peilot Braenaru yn bennaf yn fodol ymyriad cynnar a bydd yn canolbwyntio ar:**

- ymchwilio'r posibilrwydd o sgrinio ar gyfer profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ystod yr ymweliad cyn-geni a/neu yn ystod geni i alluogi ymyriad cynharach lle bo angen.
- ymchwilio dichonolrwydd datblygu a gweithredu dull asesu cyffredin ar draws y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar.
- gwerthuso rôl y cynghorydd babanod iach a sicrhau dealltwriaeth o botensial y dyfodol.
- alinio ac integreiddio canlyniadau rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf Torfaen gyda chynllunio a chomisiynu gwasanaethau lleol, yn cynnwys y rhaglenni gwrthdlodi, i fod yn sail ar gyfer trefniadau comisiynu'r dyfodol.

Mae gofyniad statudol yn y Ddeddf i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu eu cyfrifoldebau i ddarparu neu sicrhau gwasanaethau sy'n helpu i rwystro angen. Hefyd, fel gofyniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, caiff egwyddor ataliaeth gynaliadwy ei nodi'n glir. Mae cyfle i alinio'r ddau ddarn pwysig a chysylltiedig hyn o ddeddfwriaeth i ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol yn y dyfodol ac mae cyfle i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol i fabwysiadu un dull gweithredu ataliol strategol cynhwysfawr ar draws y rhanbarth.

## **Yr hyn byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- 1. Ymchwilio agenda ataliaeth sengl ar draws y rhanbarth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn gysylltiedig gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sydd hefyd yn cynnwys cymdeithasau tai.**
- 2. Alinio rhaglenni gwrthdlodi ar draws y rhanbarth i gyflwyno un model ataliol yn seiliedig ar egwyddorion asesu cyson, gweithlu ar y cyd a chomisiynu ar y cyd.**
- 3. Drwy weithredu'r Strategaeth Gofal yn Nes at y Cartref' sicrhau y caiff ataliaeth ac ymyriad cynnar ei gefnogi a'i alluogi mewn modd cyson ar draws y rhanbarth.**
- 4. Cyflenwi cynllun gwaith y Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol gyda'r trydydd sector i uchafu ac alinio gweithgaredd i atal angen rhag gwaethygu ac adeiladu ar fodolau presennol o arfer da megis cyfeillachu, rhagnodi cymdeithasol ac ati a hyrwyddo datblygu mentrau cymdeithasol a chynlluniau cydweithredol lle'n bosibl.**
- 5. Cefnogi'r cynllun peilot Braenaru Blynyddoedd Cynnar a defnyddio negeseuon allweddol i lunio modelau ymyriad cynnar.**

# Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Yn ogystal â darparu gwasanaethau i atal yr angen am ofal a chymorth, mae hyrwyddo llesiant hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth y gall pobl fod ei angen i gymryd rheolaeth o'u bywydau dydd i ddydd. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol, gyda chefnogaeth gan eu byrddau iechyd lleol, i sicrhau darpariaeth gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer pawb yn eu hardal nid dim ond y bobl hynny sydd angen gofal neu gefnogaeth ar unwaith.

## **Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac mae'n rhaid i hynny gynnwys, o leiaf, gyhoeddi gwybodaeth a chyngor ar:**

- sut mae'r system gofal a chefnogaeth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol;
- y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael;
- sut i gael mynediad i'r gofal a chefnogaeth sydd ar gael; a
- sut i godi pryderon am lesiant pobl yr ymddengys fod ganddynt angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn gyfle i newid y canfyddiad o wasanaethau gofal cymdeithasol a chefnogaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid iddo hyrwyddo ymyriad ac ataliaeth gynnar i sicrhau y gall pobl o bob oed gael eu cefnogi'n well i gyflawni eu canlyniadau personol a dylid ei ystyried yn wasanaeth ataliol ynddo'i hun drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ansawdd uchel ac amserol. Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol roi gwybodaeth i awdurdodau lleol am y gofal a chefnogaeth y maent yn eu darparu. Dylid hefyd gynnwys sefydliadau partner eraill, yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a'r sector annibynnol.

Mae'r tîm rhanbarthol yn hwyluso grŵp datblygu ymarfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant i gefnogi ymarferwyr rheng flaen i gyflenwi a gweithredu'r Ddeddf.

Mae'r grwpiau hefyd wedi datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu sicrhau cysondeb ar draws yr awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ddilyn arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar sut i ddylunio, cynllunio a datblygu'r model ar gyfer y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth fydd yn sicrhau y bydd pobl yn medru cael mynediad rwydd i wybodaeth. Dylai awdurdodau lleol baratoi strategaeth cyfathrebu i hyrwyddo eu gwasanaeth, cyngor a chymorth, a dylai'r tîm rhanbarthol hwyluso grŵp cyfathrebu rhanbarthol lle mae'r 5 rheolwr cyfathrebu yn cwrdd i ddatblygu cylchlythyron rhanbarthol a negeseuon cyson yng nghyswllt y Ddeddf. Mae'r grŵp cyfathrebu rhanbarthol hefyd wedi datblygu a chyhoeddi strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ranbarthol.

## **Astudiaeth Achos: FISH Sir Fynwy**

Ailgynlluniodd Sir Fynwy eu gwasanaeth gwybodaeth i fodel seiliedig yn y gymuned a elwir yn 'Finding Individual Solutions Here' (FISH), yn dilyn adborth gan ddinasyddion yn pwysleisio eu bod eisiau mynediad rhwydd i wybodaeth ac ymateb prydlon pan fyddant yn cysylltu â gwasanaethau. Caiff FISH ei gyflwyno mewn hybiau cymunedol fel y gall pobl gael mynediad i'r person cywir heb gael eu trosglwyddo rhwng staff trin galwadau ac felly gall gwasanaethau ymateb gyda'r wybodaeth a'r gefnogaeth gywir fel sydd angen. Pan fyddant yn cysylltu â FISH, byddant yn siarad yn uniongyrchol gyda staff fydd yn 'gwrando i ddeall' ac yn dymuno hwyluso datrysiadau - gall hyn ddigwydd dros y ffôn neu wyneb i wyneb.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy'r asesiad anghenion poblogaeth i ddylunio, datblygu a gwella'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn barhaus. Mae data perfformiad y gwasanaeth ar gyfer 2016/17 yn gyfyngedig gan ei bod yn flwyddyn bontio ac yn gyfle i awdurdodau lleol ddatblygu'r gwasanaeth. Yn ogystal â helpu i baratoi pwyntiau mynediad i wasanaethau a/neu asesiad i weithredu prosesau cyson ar draws y rhanbarth, mae'r tîm rhanbarthol hefyd wedi hwyluso datblygu gwefan DEWIS fydd yn adnodd allweddol i sicrhau gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir ac amserol. Gwasanaeth NHS 111 yw rhif cyswllt heb fod yn argyfwng y GIG i siarad gyda chynghorwyr gyda hyfforddiant lefel uchel, a gefnogir gan weithwyr gofal iechyd fydd yn gofyn cyfres o gwestiynau i asesu symptomau a chyfeirio pobl yn uniongyrchol at y gofal meddygol gorau. Mae cysylltiadau gweithio rhwng DEWIS a gwasanaeth 111 yn cael eu hystyried.

## Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol

- 1. Cefnogi a datblygu gwefan DEWIS i fod y lle hanfodol ar gyfer gwybodaeth ar gefnogaeth, cyngor a chymorth.**
- 2. Parhau i gefnogi lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu rhanddeiliaid drwy grŵp cyfathrebu rhanbarthol.**
- 3. Defnyddio data rheoli perfformiad gwybodaeth, cyngor a chymorth i fod yn sail wrth ddylunio gwasanaethau.**

## Mentrau Cymdeithasol, Sefydliadau Cydweithredol, Gwasanaethau dan Arweiniad Defnyddwyr a'r Trydydd Sector

Mae Rhan 2, adran 16 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dim-er-elw-preifat yn eu hardal i ddarparu gofal a chefnogaeth a chefnogaeth i ofalwyr; a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hyrwyddo ymgyfraniad pobl y caiff y gwasanaethau gofal a chefnogaeth neu wasanaethau ataliol hyn eu darparu eu cyfer, wrth ddylunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno. Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo yn golygu fod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd ymagwedd ragweithiol at gynllunio a sicrhau modelau fydd yn diwallu anghenion llesiant pawb - plant, pobl ifanc ac oedolion - wrth hyrwyddo modelau a seiliwyd ar werthoedd cymdeithasol.

Mae Gofal i Gydweithio yn brosiect tair blynedd a ariannir gan Lywodraeth Cymru dan Gynllun Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Cafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol a chaiff ei gyflwyno gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Bydd Gofal i Gydweithio yn cefnogi datblygu sefydliadau cydweithredol cymdeithasol, mentrau cymdeithasol a chonsortia. Mae enghreifftiau o wasanaethau dan arweiniad defnyddwyr yn datblygu ar draws y rhanbarth - sefydlwyd grŵp Cymuned Gyfeillgar i Dementia ym Mlaenau Gwent yn ddiweddar - a bydd y Tîm Trawsnewid yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru a'r trydydd sector i sicrhau y bydd y Cynllun Ardal rhanbarthol yn gosod camau gweithredu a thargedau clir i gefnogi asedau cymunedol ar lefel unigol, y gymuned a'r boblogaeth.

## Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:

- I. Gweithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i gynyddu a chefnogi nifer o wasanaethau gwirfoddol mewn cymunedau lleol drwy 'Gofal i Gydweithio'.**

## Datblygu Gweithlu

Mae gan y rhanbarth Fwrdd Datblygu Gweithlu a chynllun cyflenwi sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd. Bu'r ffocws ar gefnogi staff i sicrhau eu bod wedi eu hyfforddi ac yn fedrus i weithredu a chyflenwi'r Ddeddf. Mae rheolwyr Datblygu Gweithlu a'r Tîm Trawsnewid rhanbarthol yn cwrdd yn rheolaidd cyn y bwrdd i sicrhau datblygiadau cyson ar draws y gweithlu, hyfforddiant ar y cyd a datblygiad parhaus ar y cynllun hyfforddiant rhanbarthol.

Mae'r tîm rhanbarthol wedi datblygu rhaglen rheoli Datblygiad Sefydliadol eleni oedd yn canolbwyntio ar gyflenwi'r Ddeddf a'r gofyniad i newid y diwylliant o fewn sefydliadau a mesur perfformiad. Datblygwyd rhaglen oedd yn cynnwys rheolwyr canol gofal cymdeithasol a hefyd iechyd. Mae hyn wedi arwain at i ni fod â ffocws ar yr agenda integreiddio ehangach ac rydym yn datblygu rhaglen rheoli bellach i gyflawni strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref'. Mae hyn yn ei gamau cynnar ac rydym yn gweithio gydag arweinwyr Datblygu Gweithlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gyflwyno amlinelliad o gynllun i'r Grŵp Arweinyddiaeth rhanbarthol. Ar lefel weithredol rydym yn sicrhau y caiff yr awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn rhan o hyfforddiant cynllun peilot 'Canlyniad/Sgyrsiau ar y Cyd' yn yr interim a byddwn yn parhau i gefnogi'r hyfforddiant yn y dyfodol.

Mae rheolwyr Datblygu Gweithlu lleol a'r tîm Trawsnewid rhanbarthol yn rhan o Grŵp Cenedlaethol Datblygu Gweithlu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r grŵp yn sicrhau datblygiad wedi'i gydlynw ar draws Llywodraeth Cymru, Cyngor Gofal Cymru a thimau Datblygu Gweithlu rhanbarthol., Nid yw'n glir hyd yma os bydd y grŵp yma'n parhau i gwrdd gan y bydd y Grant Cyflenwi Trawsnewid yn ffurfio rhan o'r RSG. Serch hynny, bydd angen canolbwyntio ar godi proffil y sector gofal fel llwybr gyrfa a chodi safonau drwy gomisiynu.

## Astudiaeth Achos: Prosiect Rhaglan

Roedd Prosiect Rhaglan yn brosiect peilot yn edrych sut i gyflwyno safon uchel o ofal cartref seiliedig ar berthynas i bobl gyda dementia, ac yn amnewid gofal seiliedig ar dasg gyda gofal hyblyg â ffocws ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal ag anghenion corfforol y person a gaiff ei gefnogi. Cyn i'r gofal ddechrau, mae aelodau staff yn sefydlu perthynas gyda'r person sy'n derbyn gofal. Wedyn caiff staff y rhyddid i benderfynu drostynt eu hunain sut y dylid rheoli'r berthynas a'r gofal - a chaiff eu penderfyniadau eu cefnogi yn hytrach na'u rheoli gan y rheolwyr. Bu'n bosibl i bobl gydag anghenion gofal cymhleth aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na symud i ofal preswyl parhaol neu ysbyty a chafodd pobl eu cefnogi'n ôl i annibyniaeth ac ail-ymgysylltu gyda'u cymuned leol. Mae hefyd dystiolaeth glir fod ysbryd, iechyd, llesiant a boddhad swydd staff yn well.

Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:

- 1. Parhau i gefnogi cyflenwi rhaglen waith Bwrdd Datblygu Gweithlu rhanbarthol a hwyluso cysylltiadau cenedlaethol drwy'r grŵp cenedlaethol.**

## Cysylltiadau i Grwpiau Cenedlaethol

Mae'r Tîm Trawsnewid rhanbarthol wedi cefnogi nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen cenedlaethol Llywodraeth Cymru i helpu paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Mae'n dal i fod angen datblygu egwyddorion iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach wrth i'r rhanbarthau weithredu'r Ddeddf a chafodd ffrydiau gwaith penodol eu ffurfioli drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Deallusrwydd Busnes** - Yr amcan yw dylanwadu a chefnogi cysondeb cenedlaethol wrth weithredu'r fframwaith mesur perfformiad a phrosesau deallusrwydd busnes cysylltiedig a hefyd ddylanwadu ar gyflwyno systemau sylfaenol megis WCCIS a DEWIS (mae grŵp Deallusrwydd Busnes rhanbarthol gydag aelodaeth o blith rheolwyr busnes gwasanaethau cymdeithasol y pump awdurdod lleol yn bwydo i'r grŵp yma).
- **Dulliau Newydd o Ymarfer** - yr amcan yw cefnogi datblygu dulliau newydd o brosesau ac ymarfer mewn meysydd megis eiriolaeth, asesu, cymhwyster, cynllunio gofal a'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (mae'r grwpiau Datblygu Ymarfer Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn bwydo i'r grŵp yma).
- **Ffyrdd Newydd o Weithio** - yr amcan yw cefnogi datblygiad modelau newydd o wasanaeth yn cynnwys gwasanaethau ataliol, comisiynu a mentrau cymdeithasol yn ymateb i asesiadau poblogaeth.

Mae'r Tîm Trawsnewid yn cynrychioli barn ranbarthol o bob un o grwpiau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Asiantaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydlynu grŵp datblygu Asesiad Anghenion Poblogaeth a chaiff y Tîm Trawsnewid hefyd eu cynrychioli.

## Eiriolaeth

Dan Adran 145 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cyhoeddodd ac ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddrafft god ymarfer yng nghyswllt eiriolaeth. Mae'n egwyddor o'r Ddeddf fod awdurdod lleol yn ymateb mewn ffordd sy'n canoli ar y person, gyd-gynhyrchiol i amgylchiadau neilltuol pob unigolyn. Mae'n rhaid i unigolion a'u teuluoedd fedru cymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu a chyflawni eu canlyniadau llesiant drwy broses sy'n hygyrch iddynt.

### **Mae'r cod hefyd yn nodi'r gofynion i awdurdodau lleol:**

- Sicrhau bod mynediad i wasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth ar gael i alluogi unigolion i ymgysylltu a chymryd rhan pan mae awdurdodau lleol yn cyflawni dyletswyddau statudol mewn cysylltiad â nhw; a
- Trefnu eiriolydd proffesiynol annibynnol i hwyluso ymgyfraniad unigolion mewn amgylchiadau neilltuol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu darparu eiriolydd proffesiynol annibynnol pan mai dim ond gyda chymorth gan unigolyn priodol y gall person oresgyn rhwystr(au) i gymryd rhan lawn yn yr asesiad, cynllunio gofal a chefnogaeth, adolygu a diogelu, ond nad oes unrhyw unigolyn ar gael.

Gall eiriolaeth fod yn wasanaeth ataliol ynddo'i hun a chaiff ei ystyried fel rhan o'r ystod a lefel gwasanaethau sydd eu hangen i ateb yr angen a ddynodwyd. Mae'r Tîm Trawsnewid eisoes wedi dechrau mapio darpariaeth eiriolaeth ar draws y rhanbarth ac ystyried opsiynau posibl yn y dyfodol.

Mae'r fforwm darparwyr rhanbarthol yn cynnwys aelodau o'r trydydd sector yn cynnwys Age Cymru sydd wedi datblygu **'Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur'** a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru am 3 blynedd i redeg wrth ochr a chefnogi gweithredu Rhan 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### **Nodau allweddol y rhaglen yw:**

- Cefnogi comisiynu eiriolaeth proffesiynol annibynnol drwy ddull gweithredu cynaliadwy, strategol.
- Gwella argaeledd gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ledled Cymru.
- Gwella llesiant unigolion drwy eiriolaeth a rhoi llais cryfach iddynt.

Drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol, byddwn yn dod â phartneriaid trydydd sector a thimau comisiynu at ei gilydd i fapio gwasanaethau eiriolaeth yn llawn a dynodi arfer da a bylchau mewn darpariaeth. Byddwn hefyd yn hyrwyddo darpariaeth eiriolaeth annibynnol ac yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau ymbarél trydydd sector i ddynodi datrysiadau. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant wrthi'n ystyried un gwasanaeth eiriolaeth ar draws y rhanbarth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol - yn flaenorol cafodd gwasanaeth wedi ei gomisiynu ei roi yn ei le ar draws Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen.

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu modiwl hyfforddiant penodol ar Eiriolaeth a symudir ymlaen â hyn yn 2017.

## **Yr hyn y byddwn yn ei gyflenwi drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol:**

- 1. Alinio darpariaeth eiriolaeth gyda blaenoriaethau a ddynodwyd ar draws asiantaethau partner.**
- 2. Gweithio gyda Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur ar draws y rhanbarth drwy'r fforwm darparwyr lleol.**
- 3. Cefnogi cyd-gomisiynu Gwasanaethau Plant o wasanaeth eiriolaeth unigol.**
- 4. Dull gweithredu ar y cyd i ddarpariaeth eiriolaeth gyda phartneriaid trydydd sector yn arbennig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.**

# Pontio

Gall y broses pontio rhwng gwasanaeth/cefnogaeth fod yn amser pryderus ac weithiau fregus i unrhyw berson ond yn arbennig felly ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn ystod y cyfnod hwn gall pobl ifanc stopio derbyn gwasanaethau iechyd y gallant fod wedi eu cael ers pan oeddent yn ifanc iawn a symud ymlaen i wasanaethau oedolion cyfatebol sydd efallai wedi eu strwythuro a'u hariannu'n wahanol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn Ddeddf pob oedran felly mae'n trin materion yn ymwneud â phontio. Mae'n gyfrifoldeb ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chefnogaeth i ddiwallu anghenion pawb yn y rhanbarth a bydd felly yn sicrhau fod gweithio partneriaeth effeithlon rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol.

Mae gofyniad statudol ar ysgolion i drefnu cynllunio pontio ar gyfer eu disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Gall oedolion symud ymlaen o un gwasanaeth cefnogaeth sefydliadol mewn iechyd i wasanaethau cymorth arall mewn gofal cymdeithasol, Hefyd, mae oedolion, plant a theuluoedd yn gallu symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

## **Y grwpiau allweddol ar gyfer pontio effeithlon ar draws 8 thema greiddiol Asesiad Anghenion Poblogaeth yw:**

- **Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig** - Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Gweithredu Strategol ASD a chaiff blaenoriaethau eu gweithredu'n lleol.
- **Plant Anabl** - cynllunio effeithlon rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Plant sy'n Derbyn Gofal** - yn arbennig yng nghyswllt 'Pan fyddaf yn barod'
- **Ataliaeth** - mae rhaglenni ataliol cenedlaethol megis Teuluoedd yn Gyntaf a Cefnogi Pobl yn gweithredu ym mhob ardal ac mae angen pontio effeithlon rhwng rhaglenni ac awdurdodau lleol pan fydd pobl yn symud er mwyn sicrhau symudedd diwniad.

# Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Wrth ddynodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu angen, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gael gwybodaeth gan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys y datganiad llesiant, sy'n rhoi manylion yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a dangosyddion canlyniadau i fesur os yw llesiant yn cael ei gyflawni. Pan mae'r data ar gael ac yn cael ei gyhoeddi, bydd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a'r Cynllun Ardal rhanbarthol cyfatebol yn ceisio sicrhau y byddwn yn defnyddio'r Fframwaith wrth ddynodi lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu angen.

## **Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth wedi rhoi ystyriaeth i ac wedi defnyddio adnoddau gwybodaeth yn y Fframweithiau Canlyniadau dilynol:**

- **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus** - cwmpasu pob oedran yn y boblogaeth a gan gyfeirio'n neilltuol at iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.
- **Fframwaith Canlyniadau GIG** - cwmpasu pob oedran ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.
- **Fframwaith Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar** - gyda chyfeiriad neilltuol at yr adran ar blant a phobl ifanc yn cynnwys iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o gynnal asesiad poblogaeth, sy'n rhaid iddo gynnwys asesiadau effaith ar: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd a Chredo, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol. Byddwn yn ehangu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth terfynol ond mae'n debygol y bydd y Cynllun Ardal rhanbarthol yn nodi'r camau gweithredu manwl sydd eu hangen i weithredu canfyddiadau allweddol o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy effeithlon ar lefel y cynllun.

## Cysylltiadau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhannu egwyddorion tebyg i nifer o strategaethau cenedlaethol/rhanbarthol allweddol ac yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Mae nifer o feysydd allweddol lle mae'r Ddeddfau yn ategu ac yn cyfnerthu'r angen am ddull gweithredu ar y cyd:**

- **Egwyddorion** - dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, caiff egwyddorion cynaliadwy eu gosod sy'n debyg i egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (ymyriad cynnar, ataliaeth, gweithio partneriaeth, cyd-gynhyrchu) ac mae cyfle i alinio ffrydiau gwaith.
- **Asesiadau Poblogaeth** - mae'r angen i gynnal Asesiad Llesiant o'r holl boblogaeth mewn ardal awdurdod lleol yn ofyniad statudol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynhyrchwyd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma wrth ochr yr Asesiad Llesiant ym mhob ardal awdurdod lleol i osgoi dyblygu. Mae Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent wedi goruchwyllo cydlynu alinio'r ddau asesiad ac mae'r Tîm Trawsnewid yn aelodau o'r grŵp.
- **Llywodraethiant Partneriaeth** - mae dyletswyddau statudol dan bob Deddf i sefydlu partneriaeth i oruchwyllo gweithredu pob Deddf. Dan y Ddeddf Gwasanaethau a Cymdeithasol, sefydlir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws rhanbarthau a dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cynnwys ar sail statudol yn ardal pob awdurdod lleol. Mae gwaith y ddau fwrdd i hyrwyddo llesiant yn glir a bydd alinio ffrydiau gwaith yn fanteisiol i osgoi dyblygu a chreu synergedd rhwng partneriaid.
- **Mapio Gwasanaeth** - bydd angen deall lefelau gwasanaeth sydd ar gael ar draws y rhanbarth ac mewn cymunedau lleol i gynyddu adnoddau i'r eithaf. Bydd gweithio agos rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn hwyluso mapio gwasanaethau ar y cyd a dynodi lle mae bylchau mewn darpariaeth.
- **Cynllunio Gweithredu** - mae'r ddwy Ddeddf yn cyflwyno trefniadau ar gyfer cynlluniau gweithredu yn dilyn asesiadau poblogaeth - Cynllun Ardal rhanbarthol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Chynlluniau Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd alinio'r cynlluniau gweithredu cyfatebol yn osgoi dyblygu blaenoriaethu ac yn canolbwyntio gweithgaredd ar flaenoriaethau penodol. Bydd 'iaith gyffredin' a thempled hefyd yn sicrhau 'darllen ar draws' da ar gyfer y cynlluniau.



# Sefydliadau Diogel

---

Mae'n rhaid i asesiadau poblogaeth roi ystyriaeth i anghenion gofal a chefnogaeth poblogaethau sefydliadau diogel er mwyn cyflawni gofynion adran 11 y Ddeddf. Mae'r cod ymarfer yng nghyswllt rhan 11 yn cynnwys manylion llawn cyfrifoldeb awdurdodau lleol ar gyfer gofal a chefnogaeth y rhai mewn sefydliadau diogel. Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol yn y rhanbarth lle mae sefydliadau diogel. Mae'r Tîm Trawsnewid wedi cefnogi hyfforddiant i staff a rheolwyr i sicrhau y caiff elfennau o'r Ddeddf eu cynllunio a'u gweithredu. Bydd y Cynllun Ardal rhanbarthol yn cynnwys manylion ar y camau sydd eu hangen i weithredu'r dyletswyddau statudol yn y Ddeddf.

## Diogelu a chysylltiadau i Bartneriaethau Strategol

---

Mae nifer o bartneriaethau statudol gyda strategaethau, cynlluniau gweithredu a threfniadau llywodraethiant unigol. Nod yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma yw cydnabod fod rhai partneriaethau mewn sefyllfa well ac yn cyflawni agendâu strategol a bydd y camau gweithredu a ddynodwyd yn ategu a chefnogi gwaith y partneriaethau hyn a dim yn datblygu gwaith.

## Bwrdd Diogelu Oedolion

---

Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent-gyfan yw'r fforwm sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol, monitro ac adolygu arfer diogelu oedolion yng Ngwent ac mae'n gyfle i bartneriaid gydweithio ar draws y rhanbarth, i sefydlu partneriaeth rhyngasiantaeth ar gyfer arweinyddiaeth strategol, monitro ac adolygu ymarfer diogelu oedolion.

**Fel ar 6 Ebrill 2016, mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent-gyfan yn Fwrdd statudol fel y nodir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

### ***Mae gan y Bwrdd ddau ddiben:***

- diogelu oedolion yng Ngwent rhag dod yn 'oedolion mewn risg' a;
- diogelu oedolion a gafodd eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn risg o gael eu cam-drin.

Mae gan y Bwrdd rôl mewn cydlynu a sicrhau effeithlonrwydd sefydliadau rhanbarthol i ddiogelu oedolion mewn risg, ond nid yw'n atebol am eu gwaith. Mae pob asiantaeth sy'n aelod o'r Bwrdd yn parhau'n gyfrifol ac atebol am y gwasanaeth diogelu a gyflwynir yn eu sefydliadau. Gweledigaeth y Bwrdd yw sicrhau y caiff pob oedolyn yng Ngwent eu diogelu'n effeithlon drwy weithio partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth gref, llywodraethiant ac atebolrwydd, ac yn hyrwyddo hawliau oedolion mewn risg i fyw'n ddiogel ac mae'n gweithio'n egniol i atal, dynodi ac ymchwilio honiadau o gamdriniaeth. Gellir gweld amcanion a swyddogaethau'r Bwrdd yn ei bartneriaeth.

## Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru

Mae diogelu a hyrwyddo lles plant yn golygu fod angen cydlynu effeithlon ym mhob ardal leol ac mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Diogelu Plant sef y prif ddull statudol ar gyfer cytuno sut y bydd y sefydliadau perthnasol ym mhob ardal leol yn cydweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a sicrhau effeithlonrwydd ym hyn a wnânt. Mae Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru wedi disodli'r pum Bwrdd Lleol Diogelu Plant blaenorol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru sydd â'r rôl strategol allweddol mewn sicrhau y caiff plant a phobl ifanc yn y de ddwyrain eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, ecsploetiad a gwahaniaethu yn eu herbyn, ac yn byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo eu lles a'u cyfleoedd bywyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn bartneriaeth aml-asiantaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gwent a'r cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg o bob un o'r pum ardal Awdurdod Lleol, y Sector Gwirfoddol, Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf Cymru, CAFCASS Cymru, Tai, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Diben y gweithio partneriaeth hwn yw dal ei gilydd i gyfrif a sicrhau fod diogelu plant yn parhau'n uchel ar yr agenda ar draws y rhanbarth.

Ni fydd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth hwn yn dyblygu rhaglenni gwaith y Byrddau Oedolion a Phlant ond yn ategu a chysylltu gyda chynlluniau gweithredu sylfaenol y Byrddau. Mae diogelu yn nodwedd greiddiol o weithredu'r camau a ddynodwyd yn yr asesiad anghenion yma ac yn ystod datlbygu'r Cynllun Ardal rhanbarthol byddwn yn nodi'n glir y camau gweithredu diogelu dan bob thema graidd. Fodd bynnag, yn ystod yr ymgysylltu gyda dinasyddion a phartneriaid wrth ddatlbygu'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, mae pryderon megis ecsploetio plant yn rhywiol, cam-drin pobl hŷn (yn arbennig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio) yn ogystal â diogelu cyffredinol yn dal i fod yn faterion o gonsyrn. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Diogelu i sicrhau dull partneriaeth strategol a chyflawni prosesau diogelu.

## Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent

Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent yn weithredol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pum awdurdod lleol yma; mae aelodau hefyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS) Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent a chynrychiolydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn rhoi cyngor a chefnogaeth i awdurdodau cyfrifol er mwyn cynllunio, comisiynu a monitro darparu gwasanaethau triniaeth ac atal ansawdd uchel sy'n seiliedig ar anghenion camddefnyddwyr sylweddau, teuluoedd a chymunedau. Mae ganddo gyllideb ranbarthol o'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau o £4.4m ar ran y 5 awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth integredig ar gyffuriau a chymorth i deuluoedd o fewn y rhanbarth.

Yn 2014/15 cafodd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS) ei gomisiynu gan Fwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent i ddarparu gwasanaeth integredig ar gyffuriau, alcohol a chefnogaeth i deuluoedd. Mae GDAS yn gonsortiw m yn cynnwys Kaleidoscope (asiantaeth arweiniol), Drugaid a G4S ac mae'n cyflogi dros 100 o staff. Mae'n gweithredu o amrywiaeth eang o safleoedd lleol ledled Gwent, o fewn canolfannau cymunedol a gwasanaeth maes. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn ddiweddar wedi cynnal proses ail-gomisiynu ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth newydd yn cynnwys ffocws ar ataliaeth ac ymyriad cynnar yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chymunedol sy'n ymwneud â gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Rhagwelir y bydd y

gwasanaethau hyn yn gweithio'n agos gyda thimau eraill fel iechyd meddwl, iechyd rhywiol, nyrsio ysgol a gwasanaethau ieuencid. Oherwydd effaith anghymesur alcohol mewn cymunedau amddifadus, bydd y gwasanaethau yn cysylltu gyda phaneli a rhaglenni aml-asiantaeth a all roi cefnogaeth fwy dwys megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ddiweddar wedi sefydlu Tîm Gofal Alcohol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Neville Hall sy'n rhoi gwasanaeth nyrs arbenigol alcohol yn gysylltiedig gyda thimau cydlynu iechyd meddwl a'r gwasanaethau mewnol a chymunedol a ddarperir gan GDAS.

Yn yr un modd â threfniadau Byrddau Diogelu, bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ategu gwaith y Bwrdd Cynllunio Ardal drwy ddatblygu Cynllun Ardal rhanbarthol.

## Camau nesaf a Chynllun Ardal Rhanbarthol

Mae rheoliadau trefniant partneriaeth rhanbarthol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ffurfio partneriaethau er mwyn cynnal yr asesiadau poblogaeth sy'n ofynnol dan adran 14(1) Deddf 2014. Dylid hefyd baratoi'r cynlluniau ardal y mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu paratoi dan adran 14A ar y cyd. Bydd datblygu cynllun ardal ar y cyd yn sicrhau cysondeb gyda phroses gyfun yr asesiad poblogaeth ac yn cyfrannu'n sylweddol at amcan gwasanaethau gofal a chefnogaeth integredig a chynaliadwy. Bydd hefyd yn galluogi partneriaid i weithredu dyletswyddau adran 14A(2)(f) Deddf 2014 i nodi manylion unrhyw beth y cynigiant ei wneud ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth.

***Dylai'r cynllun ardal nodi'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth benodol y cynigir eu darparu neu eu trefnu yng nghyswllt pob thema greiddiol a sut y caiff camau eu gweithredu:***

- ar y cyd gan bartneriaid;
- gan bob awdurdod lleol unigol; a
- gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth wedi tynnu sylw at flaenoriaethau lefel uchel dan bob thema graidd a'r datblygiadau proses sydd eu hangen i weithredu'r blaenoriaethau. Sylfaen y Cynllun Ardal fydd y blaenoriaethau dan bob thema graidd a datblygiadau proses. Mae dau fath o gamau gweithredu a awgrymir:

1. Camau sydd eu hangen i wella canlyniadau ar gyfer pobl a hyrwyddo llesiant
2. Camau i wella prosesau rhanbarthol.

Caiff y camau gweithredu lefel uchel i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal Rhanbarthol eu nodi islaw a byddwn yn datblygu dadansoddiad mwy trylwyr o'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau drwy ddatblygu'r Cynllun Ardal. Byddwn hefyd yn nodi'n fanwl y camau gweithredu sydd eu hangen i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol.

# Camau lefel uchaf i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal

Thema Graidd	Camau gweithredu i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol
<b>Plant a Phobl Ifanc</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>■ Cefnogi adolygiad y Bwrdd Partneriaeth Plant a Theulu o drefniadau lleol ar gyfer plant gydag anghenion gofal a chyflenwi'r rhaglen gyda ffocws ar blant sy'n derbyn gofal.</li><li>■ Modelau cyson o ymarfer ac alinio rhaglenni ymyriad cynnar ac ataliaeth Llywodraeth Cymru.</li><li>■ Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu rhanbarthol Profiadau Niweidiol mewn Plentynodod gyda ffocws ar ymyriad cynnar a chefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc drwy asedau seiliedig yn y gymuned.</li></ul>
<b>Pobl Hŷn</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>■ Datblygu dull gweithredu 'Gofal yn Nes at y Cartref' yn cynnwys cyflwyno cysylltwyr cymunedol ar draws y rhanbarth i ostwng arwahanrwydd cymdeithasol.</li><li>■ Datblygu 'Cymunedau Cyfeillgar i Dementia' ymhellach.</li><li>■ Datblygu proses cyd-gomisiynu gofal yn y cartref gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac yn gysylltiedig ag adroddiad Gwella Cymdeithasol Safonau Gofal 'Uwchben a Thu Hwnt' a chynllun strategol 'Gofal yn Nes at y Cartref' sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Gofal Cymru.</li></ul>
<b>Anableddau Iechyd/ Corfforol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>■ Gweithredu strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref'.</li><li>■ Alinio gyda'r 5 Asesiad Llesiant Lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymchwilio gweithredu ar y cyd ar gyfer niweidion ehangach i iechyd.</li></ul>
<b>Anableddau Dysgu/ Awtistiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>■ Cefnogi adolygiad Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Strategaeth Gwent ar gyfer Oedolion gydag Anabledd Dysgu a gosod camau gweithredu comisiynu rhanbarthol allweddol ac integreiddio.</li><li>■ Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol Cymru yn lleol yn cynnwys datblygu gwasanaeth integredig newydd ar gyfer awtistiaeth.</li></ul>
<b>Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>■ Adolygu ac alinio strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllun cyflenwi Law yn Llaw am Iechyd Meddwl.</li><li>■ Cydlynu gwasanaethau cyson yn y gymuned megis cysylltwyr cymunedol/ rhagnodwyr cymdeithasol.</li><li>■ Modelau lleol aml-asiantaeth sy'n cynnwys partneriaid ehangach megis cymdeithasau tai, cefnogaeth cyflogaeth a rhaglenni gwybodaeth.</li><li>■ Gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir drwy DEWIS a Phum Ffordd i Lesiant.</li></ul>

## Thema Graidd

## Camau gweithredu i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol

### Nam ar y Synhwyr

- Defnyddio arfer da a llwybrau effeithlon i ddatblygu egwyddorion comisiynu rhanbarthol.
- Sicrhau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cywir, hygyrch ac amserol drwy DEWIS a dulliau eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i ddynodi modelau newydd i gefnogi proses adsefydlu a chyflenwi dulliau golwg gwan.

### Gofalwyr

- Cydlynu gwasanaethau cyson yn y gymuned megis cysylltwyr cymunedol/ rhagnodwyr cymdeithasol i ddynodi a chefnogi gofalwyr.
- Adolygu promptio meddygol i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr.
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir drwy DEWIS a Pum Ffordd i Lesiant.
- Adolygu ac alinio egwyddorion comisiynu trydydd sector i gefnogi cyfeillachu ar gyfer gofalwyr sydd angen cefnogaeth.
- Sicrhau fod gweithredu'r strategaeth gofal yn nes at y cartref yn cynyddu cefnogaeth ar lefel y gymuned ar gyfer gofalwyr.
- Comisiynu cyson ar draws iechedd a gofal cymdeithasol i sicrhau modelau teg, ar draws y rhanbarth ac effeithlon o gefnogaeth i ofalwyr yn cynnwys seibiant hyblyg.

### Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Gweithredu 'Gofyn a Gweithredu' fel rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru.
- Alinio strategol gyda Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, asesiad anghenion a chynllun strategol.

# High Level Process Development Actions to be delivered through the joint Area Plan

Thema Graidd	Camau gweithredu i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol
<b>Mapio Gwasanaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Parhau i adeiladu ar fapio gwasanaeth presennol drwy'r strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', ffrwd gwaith Cyd Gomisiynu Rhanbarthol a'r rhaglen Cefnogi Pobl a chysylltu'n benodol gyda blaenoriaethau a ddynodir ynddo.</li> <li>■ Datblygu ymhellach a gwella gwefan DEWIS fel y daw'n brif gyfeiriadur adnoddau ar gyfer y rhanbarth.</li> <li>■ Gweithio gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i sicrhau y caiff mapio gwasanaeth ehangach ei integreiddio gydag iechyd a gofal cymdeithasol fel cam pwysig tuag at greu ymateb gwasanaeth cyhoeddus ar lefel y gymuned.</li> </ul>
<b>Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Integreiddio darpariaeth gofal a chefnogaeth i grwpiau cleientiaid allweddol fel y nodir yn Rhan 9 y Ddeddf ac a bwysleiswyd drwy Ddatganiadau Bwriad Strategol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl hŷn, plant gydag anghenion cymhleth a gofalwyr, yn ogystal â datganiadau strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (yn cynnwys Awtistiaeth).</li> <li>■ Mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar le drwy strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref' fel carreg sylfaen sar gyfer integreiddio'r gwasanaeth iechyd a gwasanaeth gofal comisiynu.</li> </ul>
<b>Comisiynu ar y Cyd a Chyllidebau Cyfunol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Gweithredu cynllun gweithredu Grŵp Cydgomisiynu Rhanbarthol i gyflenwi trefniadau cyd-gomisiynu ar gyfer blaenoriaethau a ddynodwyd ar gyfer gofynion Rhan 9 y Ddeddf.</li> <li>■ Parhau i gysylltu gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddatblygu blaenoriaethau gwaith cenedlaethol a chynigion ar draws y rhanbarth.</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Ataliol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Ymchwilio agenda ataliaeth sengl ar draws y rhanbarth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn gysylltiedig gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sydd hefyd yn cynnwys cymdeithasau tai.</li> <li>■ Alinio rhaglenni gwrth-dlodi ar draws y rhanbarth i osod allan un model ataliol yn seiliedig ar egwyddorion asesu cyson, gweithlu ar y cyd a comisiynu ar y cyd.</li> <li>■ Drwy weithredu strategaeth 'Gofal yn Nes at y Cartref', sicrhau y caiff ataliaeth ac ymyriad cynnar ei gefnogi a'i alluogi mewn modd cyson ar draws y rhanbarth.</li> <li>■ Cyflenwi cynllun gwaith y Grŵp Cyd-gomisiynu Rhanbarthol gyda'r trydydd sector i gynyddu ac alinio gweithgaredd i atal angen rhag chwyddo ac adeiladu ar fodolau presennol o arfer da megis cyfeillachu, rhagnodi cymdeithasol ac ati a hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol lle'n bosibl.</li> </ul>

Thema Graidd	Camau gweithredu i'w datblygu drwy'r Cynllun Ardal rhanbarthol
<b>Gwasanaethau Ataliol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Cefnogi cynllun peilot Braenaru Blynnyddoedd Cynnar a defnyddio negeseuon allweddol i lunio modelau myriad cynnar.</li> </ul>
<b>Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Rhoi mwy o gefnogaeth a datblygu gwefan DEWIS fel y daw'r lle 'mynd iddo' i gael gwybodaeth ar gefnogaeth, cyngor a chymorth.</li> <li>■ Parhau i gefnogi gwybodaeth gyson drwy ledaenu ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid drwy grŵp cyfathrebu rhanbarthol.</li> <li>■ Defnyddio data rheoli perfformiad gwybodaeth, cyngor a chymorth i fod yn sylfaen wrth gynllunio gwasanaethau.</li> <li>■ Cefnogi cynlluniau pellach ar draws y rhanbarth sy'n cefnogi dull gweithredu cyson at wybodaeth, cyngor a chymorth e.e. ymarferion hunanasesu, adolygiadau cymheiriad.</li> <li>■ Gweithio gyda rheolwyr gweithlu rhanbarthol a Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau y caiff rhaglenni newid diwylliannol eu sefydlu a'u bod yn parhau.</li> </ul>
<b>Mentrau Cymdeithasol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Gweithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i gynyddu a chefnogi'r nifer o wasanaethau dan arweiniad gwirfoddol mewn cymunedau lleol drwy 'Gofal i Gydweithredu'.</li> </ul>
<b>Eiriolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Alinio darpariaeth eiriolaeth i flaenoriaethau a ddynodwyd ar draws asiantaethau partner.</li> <li>■ Gweithio gyda rhaglen eiriolaeth Edau Aur ar draws y rhanbarth drwy fforwm darparwyr rhanbarthol.</li> <li>■ Cefnogi cyd-gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth sengl gan Wasanaethau Plant.</li> <li>■ Dull gweithredu ar y cyd i ddarpariaeth eiriolaeth gyda phartneriaid trydydd sector yn arbennig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.</li> </ul>





# Atodiad

---

- Mae nifer o'r atodiadau y cyfeirir atynt yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma yn dal i gael eu datblygu ac mae rhai cynlluniau megis Cynlluniau Llesiant awdurdodau lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynd drwy gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd.
- Byddai'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yma'n ddogfen rhy fawr pe byddai'r atodiadau wedi eu cynnwys ynddi.

## Rhestr ffynhonnell atodiadau

---

1. Adroddiad Catalog Data Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
2. Adroddiad data rhanbarthol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
  - a. Asesiad Llesiant Blaenau Gwent
  - b. Asesiad Llesiant Caerffili
  - c. Asesiad Llesiant Casnewydd
  - d. Asesiad Llesiant Sir Fynwy
  - e. Asesiad Llesiant Torfaen
3. Adroddiad Gofal yn Nes at y Cartref
4. Cynllun Rhanbarthol Cefnogi Pobl
5. Datganiadau Bwriad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
  - a. Plant gydag anghenion cymhleth
  - b. Pobl Hŷn
  - c. Gofalwyr
6. Cylch Gorchwyl Panel Dinasyddion
7. Cylch Gorchwyl Panel Dinasyddion
8. Polisi rhanbarthol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
9. Adroddiad Eiriolaeth Tîm Trawsnewid
10. Adroddiad Trawsnewid Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
11. Asesiad Anghenion Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gwent





## Gweithio mewn Partneriaeth



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Aneurin Bevan  
Health Board



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**Blaenau Gwent**  
County Borough Council



**CAERPHILLY**  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
**CAERFFILI**



CYNGOR  
**monmouthshire**  
COUNTY COUNCIL  
*sir fymwy*

**TORFAEN**  
COUNTY  
BOROUGH



**BWRDEISTREF**  
**SIROL**  
**TORFAEN**



**Newport**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
Casnewydd